

A white star-shaped logo with the text "Action for Children" written in red cursive script inside it.

*Action for  
Children*

**Gweithredu  
dros Blant**

# **Canfod y ffordd**

**Adroddiad Blynyddol  
Gweithredu dros Blant 2021/22**

## Yno i Natalia mewn

# argyfwng



Natalia a Chloe

Natalia yw un o'r 30% o rieni sy'n gweithio ac yn derbyn Credyd Cynhwysol. Dywedodd wrthym ei bod yn mynd heb brydau bwyd er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd. Mae Natalia yn byw gyda'i merch flwydd oed, Chloe, yn Norfolk. Mae Chloe yn blentyn bach hapus, ac nid yw'n ymwybodol o'r aberth y mae ei mam yn ei wneud bob dydd i'w chadw'n gynnes a'i bwydo. Symudodd Natalia a Chloe allan ar ôl i berthynas Natalia â thad Chloe ddod i ben ym mis Mawrth 2020. Fe wnaeth Gweithredu dros Blant eu helpu i ddod o hyd i lety brys.

Ar ôl sawl mis, bu gweithiwr cymorth Natalia, sef Kirsty, yn eu helpu i ddod o hyd i gartref parhaol. Fe wnaethon nhw'i ddodrefnu â dodrefn a nwyddau gwyndiolch i grant gan Gronfa Argyfwng Gweithredu dros Blant. Gyda thâl mamolaeth o'i swydd wedi gostwng a chostau symud i mewn yn codi, buan yr oedd Natalia yn ei chael hi'n anodd fforddio'r hanfodion sylfaenol.

“Mae byw ar gyn lleied yn ei gwneud yn anodd iawn cyllidebu. Rydw i'n dal i ddefnyddio banc bwyd bob wythnos i wneud yn siŵr bod gan Chloe ddigon i'w fwyta. Rydw i'n aml yn mynd heb fwyd i sicrhau bod ganddi hi ddigon. Yn ystod y gaeaf, ddim ond yn yr ystafell fyw y gwnes i roi'r gwres ymlaen a lapio Chloe a fi mewn mwy o ddillad.”

Cefnogodd Kirsty Natalia a dangosodd iddi'r hyn y mae ganddi hawl iddo, fel gofal plant am ddim. “Dangosodd i mi sut i wneud cais a'm helpu i gysylltu â'r bobl iawn,” meddai Natalia.

Bob dydd, rydyn ni wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod plant yn gynnes, yn ddiogel ac yn cael eu bwydo. Yn anffodus, mae cymaint o deuluoedd fel Natalia yn ei chael hi'n anodd fforddio'r pethau sylfaenol hyd yn oed. Dyna pam mae angen i bawb weithredu dros blant.

**Mae pob stori am blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn yr adroddiad hwn yn straeon go-iawn. Fodd bynnag, efallai fod rhai o'r lluniau neu'r enwau wedi cael eu newid i ddiogelu hunaniaeth pobl.**

## Plentyndod hapus a diogel



Mae Gweithredu dros Blant yn amddiffyn ac yn cefnogi plant a phobl ifanc drwy ddarparu gofal ymarferol ac emosiynol, sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac ymgyrchu i wella eu bywydau'n barhaol.

## Safe and happy childhood

Action for Children protects and supports children and young people, providing practical and emotional care and support, ensuring their voices are heard, and campaigning to bring lasting improvements to their lives.

# Cynnwys

- 4 Croeso gan Sarika
- 5 Helo gan Melanie
- 6 Gwybodaeth am Gweithredu dros Blant
- 7 Y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu
- 8 **Adroddiad strategol**
- 9 Dweud a gwneud
- 12 Y dechrau gorau mewn bywyd
- 14 Cartrefi diogel a sefydlog
- 17 Iechyd meddwl a'r cyfle i ffynnu
- 19 Diogelu
- 21 Dylanwadu ar bolisi ac ymgyrchu dros blant
- 24 Codi arian a chodi ymwybyddiaeth
- 29 Ein pobl anhygoel
- 31 Ein strategaeth newydd
- 33 **Llywodraethu**
- 36 Gofalu am yr amgylchedd
- 37 Dyletswyddau ymddiriedolwyr
- 40 Rheoli risgiau mewn cyfnodau heriol
- 43 Cyllid
- 50 **Adroddiad yr archwilydd annibynnol**
- 54 Datganiadau ariannol
- 81 **Manylion cyfreithiol a gweinyddol**
- 83 **Diolchiadau**
- 86 Cymryd rhan

# Cadw

## plant yn hapus a diogel

**Wrth i ni ddod allan o gysgod y pandemig, rydyn ni'n dysgu byw gyda Covid. Mae Gweithredu dros Blant wedi mynd i'r afael â sawl her dros y ddwy flynedd diwethaf, ac mae'r amgylchedd allanol yn parhau i newid yn gyflym. Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn parhau i wrando ac ymateb i anghenion newidiol y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd rydym yn eu cefnogi.**

Rydym ni eisiau adeiladu ar ein sylfeini hanesyddol a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae ein strategaeth newydd yn nodi ein cynllun hyd at 2025. Mae'r cynllun uchelgeisiol hwn yn cydbwysu twf mewn nifer o feysydd ochr yn ochr â chynaliadwyedd ariannol hirdymor. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bedair colofn graidd – cymorth i deuluoedd, plant mewn gofal, plant anabl, ac iechyd a lles meddyliol – gyda saith nod i helpu i'w cyflawni. Mae'r nod yn glir – helpu mwy o blant agored i niwed ar adeg pan fo llawer mwy o blant a'u teuluoedd dan bwysau cynyddol.

Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr yn ein gwasanaethau yn cefnogi plant a theuluoedd bob dydd, ond rydyn ni eisiau gwneud mwy. Yn y flwyddyn i ddod, bydd Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant yn adrodd ar ei ganfyddiadau ar gyfer Gogledd Iwerddon, a bydd y llywodraeth yn San Steffan yn bwrw ymlaen â chanfyddiadau adolygiad diweddar Josh MacAlister yn Lloegr. Yn y cyfamser, bydd llywodraeth yr Alban yn parhau i weithredu 'Yr Addewid', sy'n deillio o Adolygiad Gofal Annibynnol yr Alban a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020. Byddwn yn parhau i ddefnyddio arbenigedd

ein gwasanaethau a'n gweithgarwch polisi i ddylanwadu ar y gwaith pwysig hwn.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yng nghyd-destun safonau byw sy'n gostwng i iselfannau hanesyddol ac argyfwng byw na welwyd ei debyg o'r blaen sy'n cael ei sbarduno gan chwyddiant cynyddol a blynyddoedd o doriadau mewn termau real i fudd-daliadau sydd i fod i ddiwallu anghenion byw sylfaenol. Rwy'n falch bod ein gwasanaethau wedi helpu dros 26,000 o blant a'u teuluoedd gyda grantiau argyfwng ers dechrau'r pandemig – a'n bod wedi defnyddio canfyddiadau'r gwaith hwn i alw am gymorth wedi'i dargedu'n well ar gyfer plant. Byddwn yn parhau i fod yn llais angerddol i newid bywydau plant agored i niwed.

Mae Gweithredu dros Blant fel teulu ac un o'n cryfderau mwyaf yw ein cydweithwyr. Rydym am fod yn gyflogwr o ddewis gyda gweithlu amrywiol ac ymroddedig. Rydym wedi gwneud cynnydd aruthrol yn ystod y 12 mis diwethaf yn ein nod o fod yn sefydliad gwrth-hiliol gweithredol, ac mae ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Croeso gan Sarika  
Croeso



Mae'r amgylchedd gwaith yn esblygu, gan ddod â heriau yn ei sgil o ran recriwtio a chadw staff. Mae hyn yn golygu bod cael diwylliant gweithio gwych yn eithriadol o bwysig.

Rydym wedi parhau i ehangu ein bwrdd ymddiriedolwyr gyda thri ychwanegiad newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i gyd gyda setiau trawiadol o sgiliau. Rwy'n falch bod gennym Fwrdd cryf a phrofiadol a fydd yn cyfarwyddo ac yn arwain Gweithredu dros Blant.

Mae bwrdd cryfach ochr yn ochr â gweithlu brwd, sydd wedi dangos teyrngarwch ac angerdd yn ystod cyfnodau anodd, yn sylfaen gadarn ar gyfer cyflawni ein strategaeth newydd. Yn ganolog iddi y mae ein huchelgais i sicrhau dyfodol diogel a hapus i blant yn y DU, lle dechreuodd Gweithredu dros Blant dros 150 mlynedd yn ôl.

**Sarika Patel,**  
Cadeirydd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

# Ein staff

## wedi ymateb i bob her

Helo gan Melanie  
Helo



**Ar gyfer ein gwasanaethau a'n staff rheng flaen, mae llawer o gyfyngiadau'r pandemig yr roedden nhw wedi bod yn gweithredu oddi tanynt wedi cael eu llacio, ond mae plant a theuluoedd yn dal i deimlo effeithiau parhaus Covid – heriau cymdeithasol, iechyd ac ariannol difrifol. Mae cadw ein gwasanaethau i fynd drwy'r argyfwng yn golygu ein bod ni'n ymwybodol iawn o effaith y pandemig ar bobl ifanc, y tu hwnt i'r niwed mae'r cyfyngiadau symud a hunanynysu wedi'i wneud yn barod.**

Mae'r 18 mis diwethaf wedi profi ein staff ac maent wedi ymateb i'r heriau. Mae llawer o'r gwasanaethau y bu i ni eu symud ar-lein yn ystod y pandemig, er mwyn sicrhau achubiaeth i deuluoedd oedd ei angen, bellach wedi dychwelyd i fod yn rhai wyneb yn wyneb. Ond mae recriwtio a chadw staff bellach yn broblem yr ydym ni, ochr yn ochr â gweddill y sector gofal cymdeithasol, yn ymgodymu â hi. Mae'n un o'r rhesymau pam ein bod yn frwd dros greu diwylliant gweithio lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys.

Rydym yn parhau i weithredu mewn amgylchedd na ellir ei ragweld, er gwaethaf agor yr economi'n raddol ar draws y pedair gwlad. Fel llawer o elusennau, rydym yn addasu ar ôl rhaglen drawsnewid a fu'n gymorth i'n rhoi ar sylfaen ariannol fwy sefydlog, a fydd yn galluogi twf wedi'i dargedu yn y dyfodol.

Rydym wedi dechrau ehangu ein darpariaeth gofal preswyl drwy agor cartrefi plant newydd yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr.

Rydym wedi datblygu strategaeth cyfranogiad plant a phobl ifanc – 'Dim byd amdanaf fi, hebof fi' – i wrando ar farn pobl ifanc. Rydym wedi darparu mwy o gymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc ar draws y pedair gwlad ar adeg pan oedd ei angen yn fawr. Ac fe wnaethon ni barhau i ddarparu gwasanaethau gwyliau byr hanfodol yn ogystal â chynyddu cyrhaeddiad ein gwasanaeth digidol, Parent Talk, sydd wedi ennill gwobrau.

Roedd ein hadroddiad polisi i lansio ein hymgyrch Seren ym Mhob Plentyn yn tynnu sylw at y ffaith nad yw miliynau o blant yn y DU yn cael cyfle i ddisgleirio a bod rhieni a neiniau a theidiau yn credu bod plentyndod yn gwaethygu. Roedd ein hadroddiad ar bolisi'r blynnyddoedd cynnar yn tynnu sylw at y ffaith bod angen cefnogaeth ar rieni i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i'w plant. Ac fe wnaeth ein hymgyrch proffil uchel ar dlodi helpu i sicrhau estyniad o chwe mis i'r cynnydd o £20 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol a pheycyn cymorth o £2 biliwn

y flwyddyn pan gafodd ei dynnu'n ôl ym mis Hydref 2021. Gydol y flwyddyn, buom yn ymgysylltu ag adolygiad pwysig Josh MacAlister o ofal cymdeithasol plant yn Lloegr a alwodd am ymyrraeth gynnar, yn hytrach nag aros i blant gael eu niweidio.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, ni fu pall ar benderfyniad ein staff a'n gwirfoddolwyr i helpu plant agored i niwed a'u teuluoedd. Er bod gwaddol llawn y pandemig i blant yn dal i ddod i'r amlwg, rydyn ni'n gwybod y bydd yr heriau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn fwy nag erioed ond, drwy weithio gyda'i gilydd, byddwn yn chwarae ein rhan i roi i blant y dyfodol mwy disglair y maent yn ei haeddu.

*Melanie Armstrong*

**Melanie Armstrong**  
Prif Weithredwr

# Gwybodaeth am Gweithredu dros Blant

Mae dros 150 mlynedd o brofiad wedi rhoi darlun unigryw i ni o'r materion sy'n wynebu plant, pobl ifanc a theuluoedd. Rydym wedi defnyddio'r ddealltwriaeth honno i ddatblygu ein strategaeth newydd, gyda'r uchelgais o helpu hyd yn oed mwy o blant i gael plentynod hapus a diogel. Darllenwch fwy ar [dudalen 31](#).

Y llynedd, fe wnaethon ni helpu

**671,275**


o blant, pobl ifanc a theuluoedd mewn gwasanaethau ledled y DU, mewn ysgolion ac ar-lein.



# Y gwasanaethau rydym ni'n eu darparu

Rydym yn darparu **447** o wasanaethau mewn cymunedau lleol ledled y DU, mewn ysgolion ac ar-lein. Mae ein gwaith yn cynnwys lleoliadau i blant a phobl ifanc mewn gofal, grantiau argyfwng, cyngor ymarferol ar fagu plant, a llawer mwy.

- |   |  |
|---|--|
| <b>78</b> Canolfannau plant a chanolfannau teulu        | <b>42</b> Cefnogaeth iechyd meddwl                 |
| <b>80</b> Meithrinfeydd a chlybiau y tu allan i'r ysgol | <b>16</b> Mabwysiadu a maethu                      |
| <b>12</b> Gwasanaeth gofalwyr ifanc                     | <b>67</b> Gwasanaethau i blant a phobl ifanc anabl |
| <b>55</b> Cefnogaeth i bobl ifanc                       | <b>11</b> Cartrefi plant                           |
| <b>78</b> Cefnogaeth i deuluoedd                        | <b>6</b> Hawliau plant ac Ymwelwyr Annibynnol      |
|   | <b>1</b> Ysgol breswyl                             |
|   | <b>1</b> Parent Talk                               |



# Adroddiad Strategol





# Dweud a gwneud

Fe wnaethon ni helpu



o blant, pobl ifanc a theuluoedd mewn gwasanaethau  
ledled y DU, mewn ysgolion ac ar-lein

## Sut rydym yn mesur cyrhaeddiad ac effaith

Rydym yn cofnodi canlyniadau plant a phobl ifanc (neu eu rhieni/gofalwyr) sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym yn monitro ac yn cofnodi'n rheolaidd neu pan nad oes angen ein cymorth arnynt mwyach, ac rydym yn casglu tystiolaeth o welliannau yn eu bywydau. Gan ddefnyddio'r holl ddata sydd gennym ar gyfer pob canlyniad, cyrhaeddwn y canrannau yn yr adroddiad hwn. Rydym hefyd yn cofnodi nifer y plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr sy'n defnyddio ein gwasanaethau i fesur cyrhaeddiad.



mae hynny'n **66,390**  
yn fwy na'r flwyddyn flaenorol,  
diolch i'n staff, ein gwirfoddolwyr  
a'n cefnogwyr ymroddedig ac  
angerddola sefydliadau partner.

Dyma rai o uchafbwyntiau ein tri nod cyffredinol ar gyfer 2021/22 a wnaeth ein helpu i gyrraedd 671,275 o blant, pobl ifanc a theuluoedd. Fe wnaethom ddweud y bydden ni'n:

## Gwneud plant a phobl ifanc yn fwy diogel ac yn hapusach



- Fe wnaethom helpu **505,183** o blant a'u teuluoedd i wneud yn siŵr bod plant yn cael y **dechrau gorau mewn bywyd**.
- **72%** o'r plant ifanc sy'n defnyddio ein canolfannau plant a chanolfannau teulu wedi gwella eu datblygiad - gan gynnwys parodrwydd ar gyfer yr ysgol, datblygiad lleferydd ac iaith.
- Parent Talk, a gefnogodd **469,900** o deuluoedd, wedi ennill Gwobr Cymorth i Deuluoedd.



- Fe wnaethom helpu **54,216** o blant, pobl ifanc a theuluoedd i fyw mewn **cartrefi diogel, sefydlog a chariadus**.
- Agorwyd cartref preswyl newydd gennym - rhan o gynllun ehangu i greu mwy o gartrefi gofal i blant agored i niwed.
- Mae gan **82%** o'r plant a'r pobl ifanc yn ein gofal preswyl well sgiliau cymdeithasol a chyfeillgarwch.



- Fe wnaethom gynorthwyo **111,876** o blant, pobl ifanc a theuluoedd gyda'u **iechyd meddwl a'u lles**.
- Mae **79%** o fyfyrwyr yn dweud bod y Rhaglen 'Blues' wedi gwella eu hyder. Byddai 96% yn argymhell Blues i ffrind (darllenwch fwy am The Blues Programme ar [dudalen 17](#)).
- Pobl ifanc sy'n dweud eu dweud orau: "**Mae'n iawn bod yn bryderus. Mae'n rhaid i ni wrando arno a gweithio gydag ef yn hytrach nag yn ei erbyn.**"

## Meithrin cefnogaeth fel y galwn barhau i ariannu ein gwaith a dylanwadu ar newid i blant

- Bu ein cefnogwyr yn helpu i godi **£16.2 miliwn** o'i gymharu â tharged o £14.9 miliwn.
- Gyda'n gilydd, fe wnaethom **ymgyrchu** ar dlodi plant, cymorth cynnar, magu plant drwy'r pandemig a mwy, gan sicrhau sylw yn cyfryngau i'n hadroddiadau manwl sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae ein gwaith polisi a'n gwaith ar y cyfryngau wedi helpu i sicrhau estyniad o chwe mis i'r cynnydd o £20 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol, a phecyn cymorth gwerth £2 biliwn y flwyddyn pan gafodd ei dynnu'n ôl gan lywodraeth y DU ym mis Hydref 2021. Achubiaeth i deuluoedd agored i niwed.

## Datblygu sefydliad cynaliadwy, effeithiol a chynhwysol

- Mae gennym dariff **100%** gwyrdd ar gyfer trydan, ac mae ein Rhwydwaith Gweithredu Gwyrdd wedi tyfu i bron i 100 o aelodau ar draws yr holl wledydd.
- Fe wnaethom ddatblygu strategaeth newydd a fydd yn ein helpu i gyrraedd mwy o blant, pobl ifanc a theuluoedd dros y tair blynedd nesaf. Ar ôl derbyn ein cefnogaeth, dywed 86% o blant a phobl ifanc eu bod mewn sefyllfa well i rannu eu barn a chyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Gwnaed cynnydd gwych gyda'n strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant a'n cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth. Daethom yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabled a chyrraedd ein targed ar gyfer lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau flwyddyn yn gynnar.



**1. Gwneud plant a phobl ifanc yn fwy diogel ac yn hapusach**

## Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

Ein nod ar gyfer 2021/22 oedd sicrhau bod plant yn cael y cymorth iawn ym mlynyddoedd cynnar eu bywydau. Y llynedd, gwnaethom hyn drwy wasanaethau ymyrraeth gynnar sy'n rhoi'r cychwyn gorau posibl i blant ifanc. Drwy helpu mwy o deuluoedd drwy ganolfannau teulu, canolfannau plant a Parent Talk, ac ehangu ein gwasanaethau gofal plant gyda mwy o leoedd y tu allan i'r ysgol.

**Dweud a gwneud**

### Ymyrraeth gynnar

Mae ein gwasanaethau'n sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth pan fydd ei angen arnynt. Fel ein Gwasanaeth Plentyndod Cynnar a Theuluoedd yn Norfolk sy'n helpu gyda phopeth o ddeall ymddygiad plant a cham-drin domestig i dylino babi. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae staff hefyd wedi cefnogi teuluoedd gyda pharseli bwyd a phecynnau gweithgareddau drwy ein Cronfa Argyfwng.

Fe wnaethon ni helpu

**505,183**

o blant a'u teuluoedd i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. **79,868 yn fwy** na'r flwyddyn flaenorol.



“

*Rydw i eisiau diolch i un o'ch gweithwyr... Rydw i wir yn credu bod yr unigolyn hwn wedi achub fy mywyd. Mae gweithio gyda hi wedi fy helpu i weld beth oedd yn digwydd i ni fel teulu ac yn awr i allu newid pethau ac i mi allu gweld bod bywyd yn werth brwydro drosto.*”


Rhiant sy'n mynychu'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd yn Norfolk.

### Parent Talk

Rydym wedi parhau i ddatblygu Parent Talk, ein gwasanaeth digidol sydd wedi ennill gwobrau, gan gyrraedd mwy o deuluoedd. Ac mae cymhlethdod anghenion teuluoedd wedi cynyddu hefyd. Yr ymholiadau mwyaf cyffredin gan rieni oedd am ymddygiad a lles eu plentyn. Yn cynnwys hunan-niwedio a meddwl am hunanladdiad ochr yn ochr â gorbryder, diffyg hyder, iselder, a hunan-barch isel. Mae Parent Talk wedi bod yn achubiaeth hanfodol i deuluoedd yn y cyd-destun hwn. Cafodd **469,900** o rieni a gofalwyr wybodaeth ac arweiniad pan oedd eu hangen arnynt gan ein gwasanaeth Parent Talk (**27,653 yn fwy** na'r flwyddyn flaenorol). Rhoddodd ein hyfforddwy'r magu plant profiadol gefnogaeth i 8,989 o rieni y llynedd drwy sgysiau 1:1. Er bod hyn ychydig yn llai na'r flwyddyn flaenorol, mae ein hyfforddwy'r magu plant wedi gallu cefnogi nifer uchel o rieni er bod ganddynt lai o gapasiti oherwydd prinder cyllid. Rydyn ni'n gweithio i ddod o hyd i gyllid i gefnogi'r gwasanaeth hanfodol hwn. Roedd 26% o'r ymholiadau

i'r sgwrs 1:1 gan y rhieni oedd yn poeni am anghenion ychwanegol eu plentyn (gan gynnwys amheuaeth o anghenion addysgol arbennig, cadarnhad o SEND, ADHD, cefnogaeth yn yr ysgol a phrosesu synhwyraidd).

Dyma themâu ein sgysiau 1:1:



- Iechyd meddwl a lles emosiynol plant (gan gynnwys pryder, hunan-niwedio a meddyliau hunanladdol) - **51% o ymholiadau**
- Ymddygiad heriol (gan gynnwys ymddygiad ymosodol, trais rhwng plant ac oedolion, ffiniau a'r drefn arferol) - **34% o'r ymholiadau**
- Lles Rhieni (gan gynnwys gorflinder rhieni) - **26% o'r ymholiadau**

Sylwer: mae'r cyfanswm yn 111% gan fod gan rai teuluoedd anghenion niferus ac yn trafod mwy nag un thema mewn un sgwrs.

“

*y gwasanaeth sydd wedi gwneud y mwyaf i gefnogi teuluoedd cyfan i helpu eu plant i fyw bywydau iach, hapus a boddhaus yn ddiogel rhag niwed*”

Dyfyniad gan Children & Young People Now, yr unig gylchgrawn pwrpasol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd, ar ddyfarnu Gwobr Cefnogi Teuluoedd i Parent Talk yn 2021

Mae'r rhyfel yn yr Wcráin wedi tynnu sylw'r cyfryngau at y rheini sy'n dianc rhag rhyfel a thrais, a'r teithiau dirdynol y mae llawer o deuluoedd yn eu cymryd i ddod o hyd i ddiogelwch. Rydym yn cefnogi teuluoedd sy'n ffoi o'u gwledydd eu hunain i wneud bywyd newydd yn y DU. Mae un gwasanaeth yn Newcastle yn cefnogi teuluoedd drwy ganolfannau cymunedol, gan ddarparu pecyn adsefydlu o eitemau cartref a helpu plant a theuluoedd i gysylltu a mwynhau bwyd a chwarae. Mae gwasanaeth arall yn Aberdeen yn helpu plant a theuluoedd i integreiddio i'r gymuned leol, gan ddarparu cefnogaeth ac eiriolaeth o ddydd i ddydd i helpu gyda'r trawma y mae llawer wedi'i brofi.

### Canolfannau plant, canolfannau teulu a chymorth yn y gymuned

Mae nifer fawr o rieni yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau blynyddoedd cynnar (darllenwch fwy ar [dudalen 21](#)). Bu ein 78 o ganolfannau plant, canolfannau teulu a chymorth yn y gymuned yn helpu bron i 103,000 o blant a'u teuluoedd y llynedd.

Mae gwasanaethau Cychwyn Cadarn Ballymena a Little Steps yng Ngogledd Iwerddon wedi parhau i helpu teuluoedd gyda magu plant, maeth, anghenion ychwanegol a datblygiad drwy gerddoriaeth. A dadorchuddiodd ein gwasanaeth newydd, Cychwyn Cadarn Derry/Londonderry Waterside, ofod synhwyraidd newydd sy'n cyfuno amrywiaeth o sbardunau gan gynnwys goleuadau, lliwiau, synau a gwrthrychau chwarae meddal. Yn Newcastle, fe wnaethom ddarparu miloedd o becynnau gweithgareddau a sesiynau ar-lein pan nad oedd

teuluoedd yn gallu mynychu sesiynau yn y canolfannau plant. Ac yn Plymouth, fe wnaethom lansio grŵp newydd i gefnogi tadau diolch ifuddsoddiad gan Dragons' Den Gweithredu dros Blant – cynllun i ariannu syniadau arloesol a allai wella bywydau plant a theuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau cyn geni a gweithdai Real Man sy'n hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol ac ystyrlon i ddynion gyda'u plant a'u partneriaid.

Mae 68% o rieni sy'n defnyddio ein canolfannau plant a'n canolfannau teulu yn fwy hyderus ac yn gallu cefnogi a rheoli ymddygiad eu plentyn yn well.

Roedd 72% o blant ifanc wedi gwella eu datblygiad – gan gynnwys parodrwydd ar gyfer yr ysgol, datblygiad lleferydd ac iaith.

Rydym hefyd wedi cefnogi teuluoedd i gynyddu eu hincwm drwy fudd-daliadau a chymorth ariannol, cyllidebu a lleihau dyledion. Mae gan 65% sgiliau rheoli arian gwell erbyn hyn.

### Meithrinfeydd a chlybiau y tu allan i'r ysgol

Ni yw un o'r ddarparwyr cymorth blynyddoedd cynnar mwyaf i blant a'u teuluoedd. Mae ein 80 o feithrinfeydd a chlybiau y tu allan i'r ysgol ledled y DU yn darparu parhad gofal ac addysg blynyddoedd cynnar, gan ddarparu cefnogaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn y cyfnod hollbwysig hwn ym mywydau plant.

Y llynedd, fe wnaethom gynnal pedwar clwb arall y tu allan i'r ysgol, gan ychwanegu dros 150 o leoedd. Yn ein meithrinfeydd yn y Gwanwyn, buom yn cefnogi 5,295 o blant ac roedd ein clybiau Spring Oscar y tu

allan i'r ysgol yn rhoi rhywle diogel a hwyliog i 3,355 o blant dreulio amser. Bodlonrwydd rhieni yn ein meithrinfeydd yn y Gwanwyn oedd 95%, a 92% ar gyfer ein clybiau y tu allan i'r ysgol, Spring Oscars. Er gwaethaf blwyddyn anodd gyda chyfyngiadau'r pandemig argyfwng recriwtio cenedlaethol ar draws y sector blynyddoedd cynnar a chynnydd sylweddol mewn costau, rydym yn dal i weld cyfraniad ariannol o bron i £100,000 tuag at ein gwaith elusennol.



Mae pob un o'n meithrinfeydd a'n clybiau y tu allan i'r ysgol wedi'u sgorio'n **Dda neu'n Rhagorol**

### Helpu Emily i feithrin perthnasoedd cryf

Cafodd Emily ei chyfeirio at ein rhaglen Blueprints gan ei hymwelydd iechyd. Roedd byw mewn pentref gwledig gyda babi ifanc drwy gydol y pandemig wedi gwneud iddi deimlo'n ynysig. Er bod ganddi berthynas wych â'i babi, roedd hi'n dioddef o iselder a phyliau rheolaidd o banig – a chynyddodd y rhain i gyd yn ystod y cyfyngiadau symud.

Roedd ymweliadau cartref bob pythefnos yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i Emily drafod ei hiechyd meddwl. Ymunodd hefyd â grŵp cefnogi Buggy Buddies a helpodd ei hyder.

Dywed Emily: **“Dros y chwe mis diwethaf, es i o gael pyliau o bryder rheolaidd a bod ofn mynd allan, i fynd ar deithiau cerdded hir a chael mwy o ddiwrnodau hwyl gyda'r plant. Mae wedi rhoi'r hyder i fi ymddiried mewn ffrindiau a theulu. Mae hynny wedi meithrin ein perthynas hefyd. Mae Kathryn (o Blueprints) yno i helpu mewn unrhyw ffordd bosibl.”**

## Cartrefi diogel a sefydlog

**Ein nod ar gyfer 2021/22 oedd ymyrryd yn gynnar er mwyn helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd. Fe wnaethom ddweud ein bod am gynyddu buddsoddiad i ddarparu cartrefi diogel a chariadus i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Ac y byddem yn dod o hyd i gartrefi maeth a mabwysiadu diogel i blant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd naturiol. Y llynedd, agorwyd cartref preswyl newydd gennym, ehangwyd ein capasiti yn Ysgol Headlands, gwelwyd twf yn rhai o'n gwasanaethau maethu, a bu cynnydd mewn cymorth tai i bobl ifanc.**

**Dweud a gwneud**

### Ymyrryd yn gynnar i atal teuluoedd rhag chwalu

Cynhaliwyd adolygiadau annibynnol gennym o bedwar gwasanaeth yn yr Alban a phedwar yn Lloegr. Roedd yr ymchwil yn tynnu sylw at gryfder ein hymarfer seiliedig ar berthynas, a'n gallu i

We helped

**54,216**

children, young people and families to live in a **safe, stable and loving home.**



ddarparu cymorth dwys o ansawdd uchel yn seiliedig ar berthnasoedd i helpu i atal teuluoedd rhag chwalu. Symudodd ein Rhaglen Gwybodaeth i Rieny sydd wedi Gwahanu yn Norfolk a Bryste ar-lein yn ystod y pandemig i ddal ati i helpu teuluoedd ddiogelu lles eu plant yn ystod y gwahanu, ac i gymryd rhan ym mhroses y llys yn ystod y pandemig. Yn yr Alban, fe wnaethom barhau i ddarparu Therapi Swyddogaethol i Deuluoedd, sef rhaglen seiliedig ar dystiolaeth wedi'i hanelu at atal pobl rhag cael eu hanfon i ofal ac i'r ddalfa. Profwyd ei fod yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed sy'n dangos problemau ymddygiadol neu emosiynol. Mae'r rhaglen wedi bod mor llwyddiannus fel ein bod bellach yn ei darparu ar gyfer naw ardal Awdurdod Lleol ledled yr Alban.

### Tyfu ein cartrefi preswyl

Mae gennym 11 o gartrefi ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Maent yn darparu gofal preswyl o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc sydd wedi dioddef trawma, neu sydd wedi profi anawsterau cymhleth yn ystod eu plentyndod. Rydym yn gweld cynnydd yn y galw am ofal o ansawdd, felly rydyn ni wedi symud ymlaen gyda chynlluniau i agor cartrefi newydd i blant.

Yng ngogledd ddwyrain Lloegr, cyflawnasom ein nod o agor ein cartref modern diweddaraf. Rydym yn bwriadu agor dau gartref arall yn yr ardal hon ac rydyn ni'n chwilio am drydydd adeilad hefyd.

Roedd ein dau gartref yng Nghymru wedi derbyn canlyniadau Rhagorol i blant mewn adroddiadau arolygiaeth. Rydym yn defnyddio'r model HOMES – sef fframwaith arloesol i gefnogi plant a phobl ifanc

mewn gofal preswyl. Cyn dod atom ni, mae pobl ifanc yn aml wedi profi sawl math o gamdriniaeth ac esgeulustod. Maent wedi symud cartref sawl gwaith hefyd. Mae'r model HOMES yn caniatáu i ni diwallu anghenion meddyliol ac emosiynol plant gan ddefnyddio'r dulliau diweddaraf a mwyaf effeithiol.

Mae gan

**82%**



o'r plant a'r bobl ifanc yn ein gofal preswyl well sgiliau cymdeithasol a chyfeillgarwch.

### Darparu gwasanaethau byw â chymorth

Rydym hefyd yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gan gynnwys oherwydd bod teuluoedd yn chwalu a dianc rhag sefyllfaoedd o gam-drin. Mae ein gwasanaethau byw â chymorth yn eu helpu i symud tuag at sefydlogrwydd a darparu rhywle

i aros a pheycyn cymorth. Y llynedd, buom yn rhedeg tri gwasanaeth tai i bobl ifanc yn fwy na'r flwyddyn flaenorol – roedd dau yn yr Alban.

Fe wnaethon ni helpu

**845**



pobl ifanc oedd angen amgylchedd cartref diogel arnynt gan gynnwys cymorth i reoli tenantiaeth a lleihau'r risg o ddigartrefedd.

## Cynyddu cyfleoedd dysgu

Mae Headlands, ein hysgol breswyl yn Ne Cymru, wedi cefnogi 94 o blant a phobl ifanc rhwng 7 a 19 oed sy'n cael anhawster dysgu o ganlyniad i drawma cynnar, sydd â phroblemau emosiynol a chymdeithasol cymhleth a chyflyrau sbectrwm awtistiaeth y llynedd. Eleni, rydym yn falch iawn o fod wedi cynyddu ein galluedd yng Nghyfnod Allweddol 2 i gefnogi mwy o ddisgyblion gyda sgiliau a gwybodaeth drwy ddysgu thematig. Mae gennym bellach ysgol goedwig a siop feiciau newydd yn yr ysgol – sy'n amgylcheddau gwych i ddysgu sgiliau ymarferol.

## Gwasanaethau Maethu

Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol yn y DU i ddarparu gwasanaethau maethu. Yng Nghymru, mae ein gwasanaeth wedi tyfu'n gyson dros y chwe blynedd diwethaf ac erbyn hyn mae gennym 44 o deuluoedd maeth. Mae dau ohonynt yn dod o Ogledd Cymru lle'r ydym newydd ddatblygu perthynas gyda gofalwyr newydd sy'n barod i ddarparu cartrefi cariadus. Yng Ngogledd Iwerddon, rydym yn falch o allu cynnig sefydlogrwydd i'r 62% o blant sydd yn ein gofal maeth am y tymor hir, gyda chyfnod cyfartalog y lleoliad yn dair blynedd. Mae ein gwasanaeth bellach yn cynnwys mewnbwn gan seicotherapi a therapi celf.

Yn Lloegr, mae ein cyfraddau sefydlogrwydd ar gyfer plant sy'n aros gyda'n teuluoedd maeth wedi bod yn uwch nag erioed eleni, gyda llai na 2% o'n plant yn gorfod symud mewn ffordd annisgwyl. Rydym hefyd wedi gallu cefnogi gofalwyr sy'n berthnasau drwy Awdurdodau Lleol a theuluoedd maethu eraill y tu allan i Gweithredu dros Blant defnyddio ein model HOMES. Ac yn yr Alban rydym wedi cynyddu nifer y teuluoedd



maeth yn raddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae rhai o'n gofalwyr wedi ymddeol ar ôl cyfnodau hir o faethu felly rydym yn awyddus i recriwtio teuluoedd maeth sy'n gallu cynnig cartref cariadus i frodyr a chwiorydd yn 2022/23, yn yr Alban a ledled y DU.

## Mabwysiadu

Rydym yn arbenigo ar ddod o hyd i deuluoedd ar gyfer plant sy'n gallu colli'r cyfle i gael eu mabwysiadu. Gallant fod yn blant hŷn, yn frodyr a chwiorydd, plant ag anghenion cymhleth yn ogystal â phlant du a phlant o leiafrifoedd ethnig. Y llynedd, fe wnaethom ni gynyddu nifer y plant a oedd yn cael eu paru â theulu fel rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd. Fe wnaethon ni baru 27 o blant a chafodd 22 o'r rheini eu paru â'u brodyr a chwiorydd.

# 72%

o blant a phobl ifanc yn teimlo'n fwy diogel diolch i'n gwasanaethau sy'n darparu cartref diogel, **sefydlog a chariadus**.




## Gwasanaeth gwyliau byr

Ni yw'r darparwr gwasanaethau di-elw mwyaf ar gyfer plant a phobl ifanc anabl y tu allan i awdurdodau lleol. Ledled Cymru, yr Alban a Lloegr pan oedd awdurdodau lleol yn cau eu gwasanaethau gwyliau byr, llwyddom ni i gadw ein rhai ni'n agored er mwyn sicrhau parhad gofal. Weithiau roedd hyn yn golygu gweld un plentyn ar y tro. Ar gyfer plant nad oedden nhw'n gallu dod oherwydd cyflyrau iechyd, roeddem wedi defnyddio ein Cronfa Argyfwng i'w cefnogi gartref, gan brynu teganau ac offer i deuluoedd.

Mae Cornwall SPACE wedi bod yn cefnogi plant a phobl ifanc anabl ers dros 30 mlynedd. Mae'r gwasanaeth wedi addasu mewn ymateb i'r pandemig ac mae bellach yn cyfuno sesiynau wyneb yn wyneb â seibiannau byr ar-lein, a darparu pecynnau i deuluoedd ledled Cernyw. Mae Seibiannau Byr Cymunedol SEND Northampton, Clwb Penwythnos Silverton a Seibiannau Byr y Rhondda, i enwi dim ond ychydig, hefyd yn cefnogi plant i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau.

# 8,063

o blant a phobl ifanc anabl wedi mwynhau un o'n seibiannau byr dros y flwyddyn ddiwethaf. **Roedd 87% wedi cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyl o ganlyniad i hynny.**



# 95%

o deuluoedd sy'n defnyddio seibiannau byr Swydd Hertford ac Ealing wedi defnyddio ein Cronfa Argyfwng i dalu am gostau hanfodion. **Mae darparu cymorth ariannol i deuluoedd wedi parhau i fod yn flaenoriaeth.**



## Mae seren Rhys yn disgleirio

Mae Rhys, sy'n 15 oed, yn byw yn ein cartref preswyl yn Nhan y Bryn ers dwy flynedd. Cafodd ei roi mewn gofal ar ôl dioddef esgeulustod ond mae ei amser yn Nhan y Bryn wedi rhoi'r plentyndod sefydlog y bu'n dyheu amdano erioed.

Mae Rhys wedi cael llawer o anogaeth a chefnogaeth gan staff y cartref, yn enwedig Dave sydd wedi cael dylanwad mawr drwy feithrin cysylltiad cryf gyda Rhys o'r cychwyn.

Mae Rhys yn gwneud yn arbennig o dda erbyn hyn. Mae'n mynd i'r ysgol yn llawn amser, mae'n fentor cymheiriaid i rai o'r plant eraill, ac mae'n aelod o gyngor yr ysgol. Er ei fod yn cael trafferthion ei hun, mae Rhys yn mwynhau helpu eraill:

**“Mae gen i fy mhroblemau fy hun, ond mae'n dda gwybod fy mod yn gallu helpu pobl eraill, fel y cefais innau help o'r blaen gan bobl eraill. Mae'n deimlad braf gwybod y byddan nhw'n mynd adref yn teimlo fymryn yn well.”**

Mae Rhys yn uchelgeisiol ac yn edrych tua'r dyfodol yn barod: **“[Rwy'n] gobeithio y byddaf yn byw ar fy mhen fy hun, [a] gobeithio, yn y dyfodol, y bydda i'n berchen ar fy mwyty fy hun.”**

“

**Cyn i mi ddod at Gweithredu dros Blant, doeddwn i ddim yn gwneud yn rhy dda. Ers dod yma, maen nhw wedi fy helpu i lot fawr. Maen nhw'n amlwg yn dda am ddewis staff i'w cyflogi.**

”





## Iechyd meddwl a'r cyfle i ffynnu

**Ein nod yn 2021/22 oedd cael sgysiau cadarnhaol am iechyd meddwl a lles emosiynol, a rhoi'r adnoddau i blant a phobl ifanc feithrin gwytnwch yn dilyn y pandemig. Fe wnaethom ddweud y byddem yn cefnogi gofalwyr ifanc er mwyn iddyn nhw gael plentyndod hapus.**

**Y llynedd, roeddem yn gallu cefnogi dros 100,000 o bobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl a'u lles. Ac mae ein gwasanaethau'n cael effaith gadarnhaol hirdymor. Daeth y cyllid ar gyfer rhai gwasanaethau i ben ond roeddem yn gallu cynnig yr un lefel o gefnogaeth â'r flwyddyn flaenorol drwy agor rhai gwasanaethau newydd ac ehangu cyrhaeddiad rhai eraill.**

**Dweud a gwneud**

Fe wnaethon ni helpu

**111,876**

o blant a phobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl a'u lles y llynedd.



Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweld argyfwng iechyd meddwl cynyddol. Yn ein harolwg staff diweddaraf, dywedodd pob un o weithwyr allweddol Gweithredu dros Blant a ymatebodd eu bod wedi gweld arwyddion o iselder, unigrwydd, pryder neu dristwch ymysg plant a'u rhieni/gofalwyr. Ac roedd ein hadroddiad 'Brighter Future Ahead?' yn dangos bod 42% o bobl ifanc yn gweld eu hiechyd meddwl eu hunain yn broblem o'i gymharu â 29% ddwy flynedd yn ôl. Yn y cyd-destun hwn, mae ein gwasanaethau cymorth iechyd wedi bod yn bwysicach nag erioed.

### Gwasanaethau iechyd meddwl

Mae ein 'Blues Programme' wedi ennill bri rhyngwladol, ac mae'n cefnogi pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd ledled y DU. Mae'n eu helpu i adnabod meddyliau negyddol, newid eu patrymau meddwl a gwella eu sgiliau ymdopi. Mae wedi'i achredu gan yr Early Intervention Foundation am gael dylanwad cadarnhaol hirdymor ar blant, gan gyrraedd y lefel sylweddol uchel o 4+. Fe wnaethom ddarparu Blues i 1,732 o bobl ifanc y llynedd.

Mae 79% o fyfyrwyr yn dweud bod y Rhaglen 'Blues' wedi gwella eu hyder. Mae 76% yn teimlo'n gyfforddus yn siarad am eu hiechyd meddwl. Byddai 96% yn argymhell 'Blues' i ffrind.

Yn Swydd Derby, fe wnaethom ddechrau darparu'r Gwasanaeth Newid Bywydau, sy'n cynnig Dull Ysgol Gyfan o ddarparu cymorth iechyd meddwl, gan gynnwys gweithdai gwytnwch, cymorth ychwanegol i ysgolion SEND, rheoli pryderon a llawer mwy. Mewn blwyddyn yn unig, rydym wedi cyrraedd 50,652 o blant, rhieni a staff ysgolion.



Rydym hefyd wedi cefnogi 3,223 o bobl ifanc gyda'n gwasanaeth Iechyd a Lles Emosiynol yn Swydd Stafford, lle rydym yn cefnogi ar y cyfle cyntaf drwy ddefnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gwybodaeth, cyfeirio at wybodaeth, a hunan-gymorth digidol cadarn. Dywedodd ein pobl ifanc:

**"Mae'n ddefnyddiol atgyfnerthu rhai credoau ac nad oes unrhyw beth o'i le ar fod yn bryderus. Mae'n rhaid i ni wrando arno a gweithio gydag ef yn hytrach nag yn ei erbyn."**

Yn yr Alban, rydym yn rhedeg nifer o wasanaethau lles emosiynol newydd gan gynnwys Cwnsela ysgolion Inverclyde a Glasgow, Gwasanaeth Lles Orkney a Gweithwyr Lles Emosiynol yng Ngorllewin Lothian ac Ynysoedd y Gorllewin. Rydym hefyd wedi sicrhau contractau gyda Chyngor De Lanarkshire a Chyngor De Ayrshire i gyflwyno'r Rhaglen Blues. Ac yng Nghymru, rydym wedi bod yn gweithio gyda changen elusennol Rhanbarth Rygbi'r Gweilch i ddatblygu Bouncing Back; rhaglen lles ar gyfer plant ysgol, yn seiliedig ar Therapi Ymddygiad Gwybyddol (CBT).

Eleni, rydym wedi gallu cynnig ein rhaglen iechyd meddwl nodedig, Y Canllaw, ar draws pob ysgol uwchradd yng Nghymru, diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Canllaw yn rhoi'r eirfa i ddisgyblion blwyddyn 9 siarad am iechyd meddwl er mwyn iddynt gael cymorth mwy effeithiol.



Kirsty yn cael Gwobr Seren Ifanc

Mae hyfforddiant y Canllaw wedi cael ei ddarparu i 775 o athrawon, gweithwyr ieuencid a chymunedol a gweithwyr proffesiynol eraill, gan gefnogi iechyd meddwl 6,000 o fyfyrwyr a llawer mwy o blant a phobl ifanc ledled Cymru.

### Gofalwyr ifanc

Gofalwr ifanc yw rhywun dan 18 oed sy'n gofalu am aelod o'r teulu sy'n sâl, yn anabl, yn brwydro yn caethiwed, neu sydd â chyflwr iechyd meddwl. Mae'n bosibl fod hyd at 800,000 o ofalwyr ifanc yn y DU. Dydy llawer ddim yn sylweddoli eu bod nhw'n ofalwyr. A gwyddom fod gofalwyr ifanc yn aml yn gyndyn o ofyn am help. Mae Kirsty, sy'n 16 oed, yn gofalu am ei brawd sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth.

**Esboniodd Kirsty: “Un o fy mhrif swyddogaethau yw ei helpu i ymdawelu ar ôl iddo golli ar ei hun. Dwi'n gwneud hynny drwy roi ei flanced dawl iddo neu roi ei hoff ddigrifwr ar y sgrin fel ei fod yn canolbwyntio ar ryw beth newydd.**

Ond dydy Kirsty ddim ar ei phen ei hun. Mae hi'n derbyn cefnogaeth werthfawr gan ein gwasanaeth i Ofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc, sy'n helpu mwy na 300 o ofalwyr ifanc yn ardaloedd ymddiriedolaeth y De, Dwyrain-ddwyrain a Belfast. Gyda'r gefnogaeth hon, mae hi'n llwyddo i ymdopi â'u chyfrifoldebau gofalu, ei haddysg, ei gwaith a'i bywyd cymdeithasol.

Y llynedd, ar gyfer Wythnos Gofalwyr, fe wnaethom ni greu fideo mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd a Gweinidog Iechyd Gogledd Iwerddon, Robin Swann. A ffurfio Grŵp Cynhwysiant Gofalwyr Ifanc i gynyddu'r gydnabyddiaeth i ofalwyr ifanc ledled Gogledd Iwerddon.

### Gwasanaeth newydd i ofalwyr ifanc


Y llynedd, fe wnaethon ni gynorthwyo 5,774 o ofalwyr ifanc fel Kirsty mewn gwasanaethau ledled y DU. Eleni, rydym hefyd wedi lansio Sidekick, sef gwasanaeth cyfrinachol drwy negeseuon testun i ofalwyr ifanc rhwng 13 a 18 oed. Gall pobl ifanc anfon neges destun unrhyw bryd, am unrhyw beth. Byddan nhw'n cael ateb gan weithiwr cymorth cymwys o fewn 24 awr. Cafodd Sidekick ei ddatblygu gyda gofalwyr ifanc o bob rhan o Gweithredu dros Blant a'r tu hwnt, a chaiff ei ariannu gan y Sefydliad Cymorth i Elusennau (CAF).

### Cyfle i ffynnu

Yn ogystal â helpu pobl ifanc ar adegau o argyfwng, rydym ni wrth law i'w helpu i gyflawni eu potensial. Mae ein gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar Troseddu Cyfundrefnol Difrifol wedi ennill gwobrau, ac mae'n cefnogi pobl ifanc a allai fod mewn perygl o gamfanteisio neu reolaeth gymhellol. Mae ein staff yn defnyddio cymorth un-i-un a chymorth i deuluoedd, ochr yn ochr â mentor cymheiriaid sydd â phrofiad bywyd i fod yn fodelau rôl cadarnhaol ac i'w tynnu draw oddi wrth bywyd a allai fod yn llawn troseddu. Dechreuodd y prosiect blaenllaw yn Glasgow, ond erbyn ym mae wedi cael ei gyflwyno i bedair arall ledled y DU.

## 60%

o'r bobl ifanc y gwnaethom weithio â nhw yn y gwasanaeth hwn wedi llwyddo i osgoi bod yn rhan o droseddu cyfundrefnol.



## Diogelu

Yn ein hadolygiad diogelu blynyddol, canfuom fod anghenion plant a theuluoedd yn fwy nag erioed. Roedd mwy o broblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ymysg pobl ifanc yn eu harddegau, a cham-drin ac esgeuluso domestig mewn teuluoedd. Gwelsom hefyd fod ein gwasanaethau'n parhau i weithio'n agos iawn gyda gwasanaethau'r sector cyhoeddus a bod ein rôl o ran diogelu plant wedi cynyddu o ganlyniad i bwysau parhaus ar wariant cyrff statudol. Ond, er gwaethaf yr heriau cynyddol yn ymwneud ag anawsterau recriwtio, swyddi gwag staff ac effaith Covid ar lefelau salwch, roedd ein gwasanaethau'n cynnal lefel uchel o ansawdd wrth ddiogelu plant mewn perygl. Llwyddwyd i gyrraedd ein targed o archwilio 92% o ffeiliau achos gyda thystiolaeth o oruchwyliaeth a rheolaeth ddiweddar.

**Dweud a gwneud**

**Mae sicrhau diogelwch plant a'u teuluoedd wastad yn flaenoriaeth i ni.**



Rydyn ni wedi ailstrwythuro ein gwasanaeth diogelu er mwyn sicrhau bod mwy o staff arbenigol ar gael. Mae hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu pan fydd pryderon difrifol yn codi.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn ynglŷn â'r diwylliant agored sy'n cael ei hyrwyddo wrth ddiogelu plant. Mae'n golygu ein bod yn cael trafodaethau parhaus, cefnogaeth a herio i staff sy'n gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.



## **2. Meithrin cefnogaeth fel y gallwn barhau i ariannu ein gwaith a dylanwadu ar newid i blant**

## Dylanwadu ar bolisi ac ymgyrchu dros blant

Ein nod yn 2021/22 oedd ymgyrchu dros newid parhaol i blant drwy siarad gyda'r llywodraeth am yr heriau sy'n wynebu plant, gan gynnwys y rhai a achoswyd gan y pandemig. Fe wnaethom ni ddweud y byddem yn codi ymwybyddiaeth o'r angen i gymryd camau i sicrhau bod plant yn uchel ar yr agenda gwleidyddol. Eleni, fe wnaethom ni ganolbwyntio ar faterion hollbwysig, gan gynnwys tlodi plant, cymorth cynnar a'r Adolygiadau Gofal. Ac fe wnaethom ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer cyfranogiad i roi llais i bobl ifanc.

*Dweud a gwneud*

### Ein blaenoriaethau

I'n helpu ni i gyrraedd mwy o blant, rydym yn canolbwyntio ar y meysydd lle gallwn gael y dylanwad mwyaf. Eleni, ein tair blaenoriaeth oedd:

- **Cymorth cynnar:** Cyflwyno'r achos dros fwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar drwy'r Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant.
- **Blynyddoedd cynnar:** Eiriol dros gael pob hwb i gynnwys gwasanaethau cymorth i deuluoedd – yn enwedig i rieni plant ifanc.
- **Tlodi plant:** Tynnu sylw at effaith lefelau uchel o dlodi ar blant.

### Cymorth cynnar

#### *Rhy ychydig, yn rhy hwyr*

Mae cymorth cynnar yn gostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal, sy'n dod yn rhai 'mewn angen', ac mae'n gallu arwain at amrywiaeth o ganlyniadau cymdeithasol, iechyd ac addysgol cadarnhaol. Fel arfer, nid yw cymorth cynnar, wedi'i gydlynw gan wasanaethau plant awdurdodau lleol, yn wasanaeth statudol. Felly, nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gasglu ac adrodd data ar eu darpariaeth cymorth cynnar. Mae'n anodd dangos effaith cymorth cynnar a chyflwyno achos argyhoeddiadol am ragor o fuddsoddiad heb ddata am y mathau o wasanaethau a ddarperir. Dyna pam rydym wedi cyflwyno cais Rhyddid Gwybodaeth i gasglu gwerth pum mlynedd o ddata ar ddarpariaeth cymorth cynnar am y cyfnod rhwng 2015/16 a 2019/20.

Roedd ein hadroddiad 'Too little, too late' wedi canfod nad oes digon o gymorth cynnar yn digwydd, mae amrywiaeth fawr rhwng awdurdodau lleol, ac mae dros 60,000 o gyfleoedd i ddarparu cymorth cynnar yn cael eu colli bob blwyddyn. Mae ein hargymhellion i'r llywodraeth yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

**296**

o adegau pryd cyfeiriwyd at Gweithredu dros Blant yn Senedd y DU (sy'n fwy na'r targed o 70) y llynedd.



### Blynyddoedd cynnar

#### *Beyond Reach*

Ym Medi 2021, fe wnaethom ni ryddhau ein hadroddiad Beyond Reach, sy'n casglu profiadau'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau blynyddoedd cynnar. Roedd y mwyafrif helaeth o rieni yn dibynnu ar sawl gwasanaeth gwahanol. Ond canfu gormod ohonynt fod y gwasanaethau hynny yn anodd i'w cael ac wedi byw gyda'r pryder parhaus o beth oedd hynny yn ei olygu i ddatblygiad eu plentyn. Fe wnaethom egluro i'r llywodraeth fod ganddi gyfle enfawr i wella'r cymorth i'r plant lleiaf a'u teuluoedd.

## Adolygiadau Gofal

Prin y gwelir plant a theuluoedd mewn gofal yn cyrraedd brig y rhestr o flaenoriaethau gwleidyddol. Dywedodd un plentyn wrthym mai dyma'r tro cyntaf iddo erioed glywed y llywodraeth yn siarad am bobl mewn gofal. Drwy weithio gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad bywyd o'r system gofal, rydym wedi gallu rhannu eu profiadau ar gyfer yr adolygiadau gofal sy'n cael eu cynnal yn y DU.

Yn Lloegr, roeddem wedi gwneud argymhellion i'r Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant. Fe wnaethom argymhell adnewyddu a chydlynu'r egni dros ymyrraeth gynnar – fel ein bod yn rhoi'r gorau i ddisgwyl i blant gael niwed cyn iddynt gael cynnig cymorth. Ein bod yn ehangu ein huchelgeisiau o amddiffyn plant sy'n agored i niwed i gefnogi'r teulu cyfan, fel bod plant yn cael y cyfle gorau i dyfu i fyny mewn amgylchedd diogel a chariadus gyda'r rhai sydd agosaf atynt. Dro ar ôl tro, mae plant wedi dweud wrthym mai dyma beth maent eisiau fwyaf. Ein gobaith yw y gall yr Adolygiad hwn fod yn sbardun ar gyfer cyfnod newydd yn y maes gofal cymdeithasol.

Yn yr Alban, cafodd yr Adolygiad Annibynnol o Ofal ei gyhoeddi yn 2020. Roedd canfyddiadau ei Adroddiad Addewid wedi nodi gweledigaeth ar gyfer system ofal yr Alban, gan gynnwys buddsoddi mewn gwaith ataliol a galluogi plant a theuluoedd i ffynnu. Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithredu newidiadau i 'gadw'r addewid', gan ddechrau drwy recriwtio Cydlynnydd Addewid. Fe wnaethom ddatblygu Cynllun Addewid, i ganolbwyntio ar ein harferion recriwtio, gwasanaethau gofal maeth a'r defnydd o iaith, a sefydlu grŵp cyd-gynhyrchu gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o system ofal yr Alban.

Megis dechrau y mae'r Adolygiadau Gofal yng Ngogledd Iwerddon, a byddwn ni'n cyfrannu tuag ato yn 2022/23.



### Tlodi plant

Buom yn llais blaenllaw yn ymgyrch i alw am ehangu'r cynnydd o £20 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol a dynnwyd yn ôl gan weinidogion yn Hydref 2021. Cafodd ein dadansoddiad o'r effaith y byddai hyn a thoriadau eraill mewn budd-daliadau yn ei chael ar weithwyr trin gwallt, gweithwyr gofal a gweithwyr mewn siopau gyhoeddusurwydd eang a chafodd hyn ei godi yn Senedd y DU gyda'r Prif Weinidog a'r Canghellor. Roedd y pecyn achub a gyflwynodd y llywodraeth ar gyfer Credyd Cynhwysol o ganlyniad i'r ymgyrch yn werth £2 biliwn y flwyddyn.

### Ein hymchwil yn ehangach

Ochr yn ochr â'n blaenoriaethau i ddylanwadu, rydym hefyd wedi gwneud ymchwil i'n helpu i ddeall yn well beth yw'r heriau sy'n wynebu plant a theuluoedd, gan ddarparu'r sylfaen ar gyfer ei gwaith polisi yn y dyfodol.

### Dyfodol mwy disglair o'n blaenau?

Dylai pob cenhedlaeth o blant gael dyfodol fwy disglair na'r un flaenorol, ond mae ein hastudiaeth flaenllaw wedi canfod bod y rhan fwyaf o rieni a neiniau a theidiau o'r farn fod plentyndod yn gwaethygu – ac mae un rhan o dair o blant yn cytuno. Un canfyddiad allweddol oedd bod iechyd meddwl yn fwy o bryder i blant nawr nag yn 2019. Roedd ein hymchwil wedi helpu i lansio ein hymgyrch Seren ymhob Plentyn / Star in Every Child, a helpodd i dynnu sylw at yr heriau hyn drwy 570 o enghreifftiau o sylw yn y cyfryngau.

### Magu plant drwy'r pandemig

Fe ddywedom y byddem yn gwneud yn siŵr fod y llywodraeth yn gwybod am yr heriau sy'n wynebu teuluoedd o ganlyniad i'r pandemig. Ym mis Hydref 2021, fe wnaethom ni ryddhau ein hadroddiad 'Magu plant drwy'r pandemig', a ganfu fod mwy na phedwar o bob pump wedi cael trafferth gyda symptomau lle'r oedd rhieni'n teimlo eu bod wedi'u llethu.

A dywedodd un o bob saith o rieni a oedd angen cymorth yn y 12 mis diwethaf nad oeddent wedi'i gael. Fe wnaethom ni alw ar y llywodraeth i ymrwymo i ariannu'r gwaith o ehangu cymorth ar-lein i rieni fel bod mwy o rieni sydd angen cymorth yn cael hynny.

### Gweithio gyda'n gilydd er lles plant a phobl ifanc

WRydym yn gweithio gydag elusennau, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc. Dyma ambell enghraifft o'n gwaith cydweithredol.

Fe wnaethom barhau i ymgyrchu gydag elusennau eraill yng Nghymru, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod cosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon. Oddi ar 21 Mawrth 2022, mae'n anghyfreithlon i gosbi plentyn drwy ddefnyddio grym corfforol. Mae'n gyfraith erbyn hyn, felly mae'n cynnig mwy o amddiffyniad i blant.

Roeddem hefyd wedi chwarae rhan bwysig yn gwneud yn siŵr fod y Bil Mabwysiadu a Phlant wedi dod yn gyfraith yng Ngogledd Iwerddon. Bydd y ddeddfwriaeth yn gwella'r cymorth i blant a theluoedd mewn angen, plant mewn gofal a'r rhai sydd wedi gadael gofal.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Barnardo's ac Ymddiriedolaeth y Tywysog yn yr Alban fel rhan o Gonsortiw m y Person Ifanc.

Mae'r Consortiw m yn cynnig llais unedig i sicrhau bod cyflogadwyedd pobl ifanc yn rhan o strategaeth y llywodraeth yn y DU ac yn yr Alban.

Ein Noddwraig, Ei Huchelder Brenhinol  
Duges Caergrawnt yn ymweld ag Ysgol  
Gynradd yn Inverclyde

### Rhoi llais i bobl ifanc

Ystyr cyfranogiad yw bod plant a phobl ifanc yn cael pob cyfle i gymryd rhan, cael eu clywed a gweld gwahaniaeth go iawn o ganlyniad i'r hyn maen nhw wedi'i ddweud wrthym – fel yn yr Adolygiadau Gofal.

### Ein strategaeth newydd ar gyfer cyfranogiad

Er mwyn cyflawni ein nod o ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gael rhannu eu barn ar bethau sy'n effeithio arny'n nhw, rydym wedi bod yn gweithio ar strategaeth newydd ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc – 'Nothing About Me, Without Me'. Mae'n nodi sut gallwn ni drafod profiadau pobl ifanc.

Er enghraifft, byddwn yn datblygu ein Rhwydwaith Llysgenhadon Ifanc, yn helpu plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar benderfyniadau gan ein staff uwch ac

ymddiriedolwyr er mwyn canfod rhagor o gyfleoedd ar gyfer gweithredu dan arweiniad pobl ifanc a chymryd rhan mewn dylunio gwasanaethau, yn ogystal â recriwtio Hyrwyddwyr Cyfranogiad Staff a fydd yn sicrhau bod cyfranogi yn rhan o'u gwasanaethau. Rydym hefyd eisiau gweithio gyda'n gilydd i ddarparu digwyddiad blynyddol i ddathlu eu llwyddiannau. Bydd yr holl weithgarwch hwn yn ein helpu i wneud yn siŵr mai plant a phobl sy'n gyrru ein gwaith yn ei flaen.

**86%**

o blant a phobl ifanc wedi dweud eu bod, ar ôl cael cymorth gennym, yn well am rannu eu barn a chyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.



## Codi arian a chodi ymwybyddiaeth

**Ein nod yn 2021/22 oedd ysbrydoli mwy fyth o bobl i gefnogi ein gwaith ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd. A datblygu ffyrdd arloesol o ymgysylltu â chefnogwyr ar-lein ac yn y byd go iawn.**

**Diolch i frwdfrydedd a haelioni anhygoel ein cefnogwyr – drwy roddion mewn ewyllysiau, rhoddion unigol, ymddiriedolaethau a sefydliadau, cyllidwyr statudol, a'n partneriaid – aethom y tu hwnt i'n targed codi arian. Fe wnaethom ni godi £16.2 miliwn o gymharu â tharged o £14.9 miliwn.**

**Dweud a gwneud**

Ein targed uchelgeisiol oedd dod â £10.8miliwn mewn incwm anghyfyngedig a £4.1miliwn mewn cyllid cyfyngedig. Gwnaethom lwyddo i godi £9.9miliwn o gyllid anghyfyngedig a £6.3miliwn o gyllid cyfyngedig, diolch i'n rhoddwyr hael.

### Codi arian yn ddigidol

Mae codi arian mewn byd ansicr wedi ein hysbrydoli i wneud pethau'n wahanol. Rydyn ni wedi canolbwyntio fwy ar ddigwyddiadau codi arian yn ddigidol, a chwtogi ar gostau lle bo angen er mwyn cyflawni'r gwerth gorau am arian ac effeithlonrwydd ag y bo'n bosib. Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom herio pobl i wrthod mynd i'r gwely a threulio'r noson mewn llefydd anarferol.

Diolch i'r ymgyrch Gwrthod mynd i'r Gwely fe wnaethom godi dros £250,000. Fe wnaethom hefyd lansio ein digwyddiad codi arian Facebook cyntaf erioed, gan herio pobl i gerdded 62 Milltir ym mis Mawrth 2022. Ac fe wnaethom gynnig cyfres o adnoddau digidol i'n cefnogwyr, gan gynnwys: Giant Wiggle Yoga, 30 Days Your Way, Horrible Histories Whodunnit, a The Very Hungry Caterpillar Growing Challenge. Mae ein timau wedi gweld y potensial ar gyfer codi arian drwy'r digwyddiadau hyn a chreu cynnyrch newydd sy'n ategu ein portffolio codi arian digidol presennol.

### Mynd allan unwaith eto

Rydym wedi cynnal perthynas agos â'n cefnogwyr drwy ddigwyddiadau ar-lein a gweminarau, ond ni all dim gymryd lle'r profiad o ddychwelyd i gynnal digwyddiadau byw eto. Un digwyddiad personol a ddychwelodd oedd Cwis Mawr y Newyddion, diolch i gymorth gan ein pwyllgor brwdfrydig. Roedd y digwyddiad yn ei ôl am y pymthegfed flwyddyn, a chododd dros £200,000 diolch yn rhan ôl i nawdd hael yr Uwch Gynghrair Pêl-droed. Roedd Grayson Perry, Richard Osman, Charlene White, Emily Maitlis a Joh Sopol ymysg yr wynebau enwog a fu'n cymryd rhan. Ochr yn ochr â thimau o'r BBC, ITV, Good Morning Britain, Netflix, Google ac Amazon.

Ym mis Rhagfyr, roeddem wedi gwahodd ein cefnogwyr enwog, dyngarwyr, noddwyr a sefydliadau, llysgenhadon a phartneriaid i ddigwyddiad i ddathlu yn Fortnum a Mason yn Llundain i ddiolch am eu cefnogaeth a'u haelioni parhaus. Ymunodd dros 60 o gefnogwyr â ni i wrando ar areithiau gan ein Cadeirydd a chydweithwyr o'r Uwch Dîm Arwain, a mwynhau perfformiad gan ein côr hyfryd Young Carers Aloud.

Roedd Cinio'r Gwanwyn i Fenywod wedi cael ei gynnal am y 33fed tro ym mis Mawrth yng Ngwesty'r Grosvenor House. Ers iddo ddechrau yn 1988, gyda chymorth ein pwyllgor Cinio'r Gwanwyn i Fenywod, mae'r digwyddiad wedi codi mwy nag £1.1 miliwn i Gweithredu dros Blant. Cafodd y gwesteion ginio blasus, sioe ffasiynau unigryw, ac araith ysbrydoledig gan un o uwch reolwyr gwasanaethau plant, Danielle, gan godi £100,000.



Cwis Mawr y Newyddion 2022





Cosmo'r masgot a'r tîm yn mwynhau'r Kiltwalk.

Yn yr Alban, roedd Gweithredu dros Blant wedi dathlu'r Kiltwalk fwyaf erioed, gyda mwy na 150 o gerddwyr yn cymryd rhan yn y digwyddiad elusennol flynyddol, gyda thimau o staff o HSBC, Morton Fraser, Edrington, McLaughlin a Harvey a Channel Bakers yn cymryd rhan. Roedd ein Gwobrau Menywod Dylanwadol wedi dychwelyd hefyd. Mae'r seremoni wobrwyo fawreddog yn cydnabod menywod nodedig o'r Alban sy'n esiampl i blant, pobl ifanc, a theluoedd a gefnogir gan Gweithredu dros Blant. Hyd yma, mae'r digwyddiad wedi codi mwy nag £1.4 miliwn i gefnogi gwaith yr elusen yn yr Alban.

Diolch yn fawr i'n gwirfoddolwyr, Pwyllgorau Digwyddiadau a Byrddau sydd wedi helpu i wireddu ein digwyddiadau rhagorol.

## Cefnogaeth gan yr eglwys Fethodistaidd

Roeddem yn ddiolchgar iawn i'n teulu Methodistaidd am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er bod y pandemig wedi golygu ei bod yn anoddach i eglwysi godi arian, roedden nhw wedi codi swm anhygoel i ni, sef £644,000. Hefyd, roedd arweinwyr eglwysi Methodistaidd, a'r elusennau y maent yn gysylltiedig â nhw, wedi lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o fanteisio rhoi gymynroddion, a fydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i blant a phobl ifanc yn y blynnyddoedd i ddod.

## Santa Cudd

I'r rhan fwyaf ohonom, adeg hapus yw cyfnod y Nadolig. Ond mae plant ledled y DU yn wynebu Nadolig o fath gwahanol iawn. Bob blwyddyn, rydym yn gofyn i bobl fod yn Santa Cudd a chyfrannu er mwyn gwneud yn siŵr fod plant yn cael yr hanfodion, fel bwyd poeth a dillad gaeaf go iawn. Roedd 45,000 o Santas Cudd arbennig a hael wedi codi dros £1 miliwn yn ystod ein hymgyrch Santa Cudd unigryw. Gydag ymchwil newydd am brofiadau plant sy'n wynebu tlodi adeg y Nadolig, defnyddiwyd y gwaith polisi a'r sylw helaeth yn y cyfryngau i hyrwyddo ein gweithgareddau codi arian Santa Cudd yn 2021.

## Dyngarwch ac Ymddiriedolaethau

### Rhoddwyr a dyngarwyr pwysig

Diolch i'n holl roddwyr sydd wedi cyfrannu symiau mawr, lawer ohonynt yn dewis aros yn ddiennw. Mae eu rhoddion hael anghyfyngedig yn cael effaith weddnewidiol ar y plant a'r teuluoedd rydyn ni'n gweithio gyda nhw. Yn eu plith mae:

### Nominet – Tech for Good

Yn 2021, fe wnaethom weithio mewn partneriaeth â Nominet a Parent Zone i helpu plant mewn gofal maeth i aros yn ddiogel yn ddigidol. Fe wnaethom dreulio blwyddyn yn ymchwilio ac yn dylunio gyda gofalwyr maeth. Ym mis Mawrth 2022, fe wnaethom ddechrau treialu Click Confidence, sef cyfres o gwisiau ar-lein i helpu gofalwyr maeth i ddeall byd digidol pobl ifanc a'r ffordd orau o'u cefnogi.

### Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Mae'r Loteri Genedlaethol yn parhau i ariannu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar Troseddu Cyfundrefnol Difrifol, sy'n tynnu pobl ifanc draw oddi wrth droseddau cyfundrefnol difrifol yn y DU. Mae'r rhain yn cynnwys Breaking the Cycle, ein gwasanaeth cwnsela cam-drin domestig yn Newcastle, a Gofalwyr Ifanc ar fin bod yn Oedolion yng Ngogledd Iwerddon.

### Cronfa Cymorth Covid 19

Ym mis Ionawr 2021, fe wnaeth rhodd drawsnewidiol gan Gronfa Gymorth Covid 19, a gafodd ei chreu gan y diwydiant yswiriant a chynilion tymor hir, helpu i sefydlu ein rhaglen "Chance to Be a Child" gan drawsnewid bywydau gofalwyr ifanc ledled y DU. A ninnau bellach yn ail flwyddyn ein partneriaeth, rydyn ni'n sicrhau bod mwy o ofalwyr ifanc yn cael y gefnogaeth ymarferol ac emosiynol sydd ei hangen arnynt, yn eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog a difyr gyda chyfoedion i roi seibiant angenrheidiol rhag cyfrifoldebau gofalu ac, yn bwysicaf oll, eu grymuso i ddatblygu'r cadernid emosiynol sydd ei angen arnynt i ffynnu nawr ac yn y dyfodol.

## Ein partneriaid corfforaethol

Rydym wedi sefydlu partneriaethau gyda sawl sefydliad anhygoel i helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd eleni, gan gynnwys:



Registered charity no 281943

Yn 2021, fe wnaethom ymestyn ein partneriaeth â **Sefydliad Elusennol Iceland Foods** sy'n parhau i fod yn Bartner Arweiniol ein hymgyrch Nadolig Santa Cudd. Cyfrannon nhw £300,000 tuag at Gronfa Gaeaf Iceland, gan wneud pob un o'u gweithwyr yn Santa Cudd. Mae cefnogaeth hael Iceland wedi helpu dros 2,000 o deuluoedd ag anghenion sylfaenol o ran bwyd a thanwydd yn ystod misoedd anodd y gaeaf. Rydym wrth ein bodd y bydd Iceland yn parhau i weithio gyda ni dros y flwyddyn nesaf ac mae'r cwmni wedi dewis Gweithredu dros Blant fel Ei Brif Bartner Elusennol yn 2022.



Rydym yn parhau i redeg rhaglen Inspire IT gyda **Dell Technologies**. Mae'r bartneriaeth yn helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau digidol gwerthfawr er mwyn iddynt allu manteisio'n well ar gyfleoedd addysg a chyflogaeth. Mae'r dechnoleg, a ddarperir gan Dell, yn mynd i gartrefi a'n gwasanaethau. Drwy hefyd gynnig cymwysterau cyflogadwyedd, rydyn ni'n cau'r bwlch digidol ar gyfer rhai o'r plant mwyaf difreintiedig ledled y DU.



Yn 2021, mae **Turner & Townsend** wedi parhau i gefnogi ein Cronfa Addysg, sy'n talu am gostau adnoddau addysgol hanfodol i blant a phobl ifanc ledled y DU. Diolch i'w cefnogaeth hael, roeddem wedi darparu 886 o grantiau y llynedd. Ar ben hynny, fe wnaethon nhw hefyd ein helpu i baratoi ein cartref preswyl newydd.



Yn 2021, fe wnaethom lansio'r 'CMC Markets Education and Enrichment Fund'. Darparwyd 1,079 o grantiau gennym ar gyfer plant a phobl ifanc yn Llundain, i'w galluogi i gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau. Mae hyn wedi helpu i wneud iddyn nhw deimlo'n llai ynysig a'r pryder sy'n gysylltiedig â hynny. Mae pencadlys **CMC Markets** yn Llundain wedi ariannu ein swydd Cydlynnydd Gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol yn y ddinas. Mae'r swydd hon yn cefnogi 28 o fentoriaid gwirfoddol ar gyfer pobl ifanc mewn gofal.



Daeth ein partneriaeth â FirstGroup i ben ym mis Mawrth 2022, ar ôl cyrraedd cyfanswm gwerth o fwy na £3.7 miliwn. Drwy'r bartneriaeth, mae FirstGroup wedi ein cefnogi o ran codi arian ymysg staff a chwsmeriaid, rhoddion corfforaethol a gofod hysbysebu ymarferol, yn ogystal â gwirfoddoli a chefnogaeth pro bono. Mae cymorth FirstGroup wedi canolbwyntio ar iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc ac yn ddiweddar mae wedi darparu dros 1,000 o gyfleoedd hyfforddi i'n staff rheng flaen ar sut i gefnogi anghenion iechyd meddwl cymhleth pobl ifanc.



Rydyn ni'n falch iawn o lansio ein partneriaeth gorfforaethol newydd sbon gyda **Gigling Squid**. Bydd y grŵp hwn o fwytai Thai yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau codi arian, o redeg marathons i droi cefn ar eu gwelyau - er mwyn codi arian hanfodol i helpu plant a phobl ifanc agored i niwed i ffynnu. Rydyn ni'n gwybod, gyda'n gilydd, y gallwn greu dyfodol mwy gobeithiol i blant a phobl ifanc ledled y DU.



**Arcadis** yw un o'n partneriaid diweddaraf ar gyfer 2022 ac rydyn ni'n falch iawn o lansio partneriaeth ddwy flynedd gyda nhw. Y nod fydd rhagori ar y targed codi arian o £120k. Byddan nhw'n ariannu'r rhaglenni Breaking the Cycle, y Gronfa Argyfwng, ac ailddatblygu ardal chwarae awyr agored Canolfan Plant Gymunedol Birmingham.

## Cydymffurfio â chodi arian

Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith, dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ymgysylltu â chefnogwyr yn uniongyrchol drwy e-bost, post, ffôn neu SMS, ynghyd â hysbysebu ychwanegol ar gyfryngau cymdeithasol ac ar fannau cyhoeddus yn yr awyr agored. Roeddem hefyd wedi defnyddio asiantaethau ar brydiau i gyflawni gweithgareddau codi arian (er enghraifft, post uniongyrchol). Disgwylir i bob trydydd parti ac asiantaeth allanol sy'n gweithredu ar ein rhan gynnal a chadw safonau codi arian uchel. Rhaid iddynt ddilyn yr holl reoliadau a'r cyfreithiau perthnasol, yn ogystal â'r Cod Ymarfer ar gyfer Codi Arian.

Rydyn ni'n aelod o'r Rheoleidiwr Codi Arian ac yn dilyn ei God Ymarfer Codi Arian a'i Addewid Codi Arian. Byddwn bob amser yn glir, yn agored ac yn onest wrth gyfathrebu â chefnogwyr. Rydym yn parchu eu preifatrwydd a'u dymuniadau o ran cadw mewn cysylltiad. Rydym hefyd wedi cofrestru gyda'r Fundraising Preference Service. Eleni, byddwn yn adolygu ein Polisi Derbyn Rhoddion a'n Polisi ar gyfer Pobl Agored i Niwed. Rydym hefyd wedi datblygu canllawiau pellach ar feysydd codi arian penodol.

## Delio â chwynion

Rydyn ni wedi ymrwmo i wasanaeth rhagorol i gwsmeriaid ac rydyn ni'n croesawu sylwadau ac adborth am y ffordd rydyn ni'n gweithio. Mae pob cwyn yn cael ei chymryd o ddifrif ac yn cael ei thrin yn unol â'n Gweithdrefnau Cwynion am Godi Arian. Rydym yn ceisio datrys cwynion cyn gynted â phosibl ac mor effeithlon â phosibl, mewn ffordd bersonol, deg a chyfrinachol. Yn 2021/22 fe ddaeth 62 o gwynion i law am ein prosesau codi arian. Roedd y rhan fwyaf (49) yn gysylltiedig â'r ffordd rydym yn cydnabod

rhoddion. Mae'n bwysig iawn diolch i gefnogwyr am y pethau anhygoel maen nhw'n eu gwneud. Roedd gweddill y cwynion yn ymwneud â gohebiaeth am godi arian a dderbyniwyd gan ein cefnogwyr (5) a phroblemau'n ymwneud â phrosesau bancio (8).

## Codi ymwybyddiaeth

Mae codi ymwybyddiaeth am y problemau rydyn ni'n mynd i'r afael â nhw a'r gwaith a wnawn yn hanfodol i'n hymdrechion codi arian, ac i'n gwaith polisi ac ymgyrchoedd. Drwy'r cyfryngau, gallwn godi ymwybyddiaeth mwy o bobl am yr hyn rydym yn ei wneud a'r camau rydyn ni am i bobl – gan gynnwys y llywodraeth – eu cymryd.

## Seren ymhob Plentyn

Eleni, fe wnaethom lansio ymgyrch newydd sbon, Seren ym mhob Plentyn. Mae problemau'n ymwneud â thlodi, camdriniaeth ac esgeulustod, yn ogystal ag iechyd meddwl gwael yn amddifadu gormod o blant o'r dyfodol disglair y maent yn ei haeddu. Mae ein hymgyrch yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn.



Gwylwch ein ffilm Seren ymhob Plentyn:

[youtube.com/watch?v=HeEicuB\\_8mw](https://youtube.com/watch?v=HeEicuB_8mw)

# 545 miliwn

o gyfleoedd posib i weld, i glywed neu i ddarllen am ein gwaith ar ran plant, pobl ifanc a theuluoedd drwy sylw yn y cyfryngau y llynedd.



## Beth ydy ystyr 'Seren' i Caryl

**“Mae'r ymgyrch yma yn ymwneud â phlant yn cyflawni eu potensial, sdim ots pwy ydynt,”** meddai Caryl Dyer, un o gydlynwyr gwasanaethau Gweithredu dros Blant yn ne Cymru. **“Dwi wrth fy modd gyda'r ystyr y tu ôl i hynny. Dyna'r gred sydd wedi fy nghadw i fynd am yr 13 mlynedd ddiwethaf.”**

Yn ein ffilm ymgyrchu 'Seren ym mhob Plentyn', mae Caryl yn rhannu'r hyn sy'n ei sbarduno hi – a staff, gwirfoddolwyr a chefnogwyr Gweithredu dros Blant ledled y wlad. Ni ddylai'r un plentyn fod heb fwyd, heb gariad a heb gartref diogel a sefydlog. “Yn anffodus, mae llawer o bethau sy'n tynnu'r sglein oddi ar seren plentyn,” meddai Caryl. **“Pethau fel cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau, tlodi, neu iechyd meddwl neu lesiant gwael gan rieni. Mae gan Gweithredu dros Blant lawer o wasanaethau ledled y DU sy'n gallu helpu teuluoedd i oresgyn y pethau hyn a helpu sêr eu plant i ddisgleirio.”**



Caryl yn danfon parcel bwyd



### **3. Datblygu sefydliad cynaliadwy, effeithiol a chynhwysol**

## Ein pobl anhygoel

**Ein nod yn 2021/22 oedd cyflawni ein cynllun strategol ar gyfer y gweithlu fel bod y staff yn cael eu harfogi a'u cefnogi'n llawn. Rydyn ni'n falch o fod wedi cyrraedd ein targed i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ein bod wedi dod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd ac wedi cyflwyno cyfleoedd gwirfoddoli newydd a chyffrous. Yn ogystal â llunio ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys ein cynllun gwrth-hiliaeth, er mwyn i bawb deimlo bod croeso iddyn nhw yn Gweithredu dros Blant.**

**Dweud a gwneud**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi gweld ansawdd ac ymroddiad ein staff a'n gwirfoddolwyr yn disgleirio. Mae cyfathrebu rhagorol wedi bod yn hanfodol wrth i wahanol ffyrdd o weithio barhau i olygu llawer o weithio gartref a gwaith hybrid. Roedd ein Tîm Ymateb i Covid (Silver Team) yn cynnal cyfarfodydd wythnosol a sesiynau holi ac ateb misol byw i'r holl staff, gyda chefnogaeth ein tîm cyfathrebu mewnol. Roedd y rhain yn gyfle i roi gwybodaeth benodol i dimau, er mwyn iddynt wybod pa newidiadau yn ein harferion gweithio oedd yn berthnasol iddyn nhw.

Mae gofalu am ein staff - a buddsoddi ynddyn nhw - wedi ein helpu i feithrin y teulu anhygoel hwn o bobl eithriadol. Ond, fel unrhyw deulu, mae pethau wedi bod yn anodd ar brydiau. Ledled y DU, mae wedi bod

yn anodd cystadlu mewn rhai rhannau o'r farchnad gyflogaeth, yn enwedig ar gyfer staff rheng flaen hanfodol. Mae'r staff yn gweithio oriau ychwanegol, gan gynnwys llenwi bylchau adeg salwch ac mewn swyddi heb eu llenwi. Gyda chostau byw yn codi, mae recriwtio a chadw'r staff gorau yn her allweddol i ni (a llawer o sefydliadau eraill) yn yr hinsawdd sydd ohoni.

### Buddsoddi yn ein pobl

Rydym wedi cynyddu cyflogau mewn meysydd anodd recriwtio iddynt yn ogystal â chynyddu cyflogau ein staff sy'n cael y cyflogau isaf. Roeddem wedi cynyddu ein lwfans gwasanaethau preswyl ac wedi cysoni ein cyflogau isaf â chyfraddau'r Sefydliad Cyflog Byw o fis Ebrill 2022 ymlaen.

Mae ein polisïau pobl yn pwysleisio mor bwysig yw cadw a denu pobl dalentog. Yn ystod 2021 roeddem wedi cyflwyno ein Fframwaith Cymhwysedd Rheoli i alluogi arweinwyr a rheolwyr igefnogi eu datblygiad eu hunain a'u timau yn well. Roeddem wedi darparu cyfres o raglenni dysgu a datblygu. Ar y cyfan, cwblhaodd staff oddeutu 23,000 o fodiwlau e-ddysgu. Gwnaethom hefyd gynnal 680 o raglenni dysgu byw ar gyfer 6,866 o staff. A chwblhaodd 66 o staff gymwysterau ffurfiol. Roeddem hefyd wedi hyfforddi dros 100 o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl ac wedi darparu mwy o adnoddau, fel ymwybyddiaeth ofalgar a chymorth cwnsela, yn ogystal â hyrwyddo'r hyb lles sy'n cynnwys pynciau megis rhyddhau o ddyled a chymorth ariannol.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein polisïau, ein harferion a'n diwylliant i wella bywyd gwaith ein staff. A bydd cydnabod eu hangerdd yn rhan o hyd. Er enghraifft, y llynedd cynhaliwyd y seremoni wobrwyo wyneb yn

wyneb gyntaf ar gyfer ein staff yn yr Alban.

**Mae gennym achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl ac rydym wedi ennill statws cyflogwr Hyderus o ran Anabledd eleni.**

### Rydyn ni'n gwrando

Eleni, fe wnaethom gynnal ein harolwg staff – 'Rydyn ni'n Gwrando'. Roedd y sgôr ymgysylltu â'r arolwg yn 83% – llawer uwch na'r meincnod ar gyfer mudiadau nid-er-elw. Mae wedi ein helpu i ddeall beth yw barn ein pobl am weithio yn Gweithredu dros Blant ac mae'n ein galluogi i flaenoriaethu meysydd i'w datblygu ymhellach. Dywedodd y Prif Swyddog Pobl, Mike Knight: "Ar y cyfan, mae'r sgoriau cyffredinol ar gyfer yr elusen yn galonogol iawn, yn enwedig o ystyried yr heriau y bu'n rhaid i bob un ohonom eu hwynebu dros y ddwy flynedd diwethaf yn ein bywydau personol a gwaith."

### Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn 2020, fe wnaethom lansio ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant gydag uchelgais i ddod yn elusen fwyaf cynhwysol y DU. Lluniwyd y gwaith drwy fewnbwn gan bob un o'n 11 o rwydweithiau staff, gan gynnwys ein rhwydwaith amrywiaeth hiliol, rhwydwaith anabledd, rhwydwaith pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, rhwydwaith gweithio gartref, rhwydweithiau ffydd Cristnogol, a mwy. Rydym am ddatblygu ein diwylliant ymhellach fel bod pawb yn cael eu cynrychioli, a bod staff a gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i fod yn nhw eu hunain. Ein nod yw adlewyrchu'r boblogaeth sy'n gweithio erbyn 2025.

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd da tuag at ein nodau. Yn 2021, fe wnaethom lansio cynllun gweithredu

gwrth-hiliaeth i'n helpu i fynd i'r afael â hiliaeth strwythurol, ymarfer hiliol, ac ymddygiad nad yw'n gynhwysol. Gwnaethom hefyd gomisiynu adolygiadau allanol o bum polisi penodol i chwalo unrhyw hiliaeth strwythurol a rhwystrau ehangach o ran amrywiaeth a chynhwysiant. Yn ogystal ag adolygu ein hymgyrch fwyaf, sef y Santa Cudd.

Eleni, daethom yn Arweinydd Hyderus o ran Anabled. Rydym yn sicrhau ein bod yn gallu recriwtio, cadw a datblygu pobl anabl a fydd yn helpu Gweithredu dros Blant i lwyddo. Mae'r achrediad hwn hefyd yn golygu y bydd pobl anabl yn sylweddoli ein bod yn deall gwerth amrywiaeth yn y sefydliad, gan ein helpu i recriwtio gweithlu mwy amrywiol. Eleni, gwnaethom ragori ar ein targed ein hunain ar gyfer lleihau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn yr elusen. Ym mis Ebrill 2021, roedd yn 3.4%, i lawr o 9.8% yn 2017. Ein targed cyffredinol oedd 4.9% gyda'r nod o leihau'r bwlch 50% dros gyfnod o bum mlynedd. Rydyn ni wedi ymrwymo i'w leihau ymhellach fyth yn ystod y blyneddoddd nesaf. Gwnaethom hefyd adrodd ar ein bwlch cyflog ethnigrwydd am y tro cyntaf. Ar 0.6%, mae'r bwlch cyflog canolrifol o blaid staff Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn gadarnhaol iawn.

Ac yng Ngogledd Iwerddon, gwnaethom ennill y Nod Siarter Efydd ar Amrywiaeth. Mae hyn yn cydnabod angerdd a dyfalbarhad ein cydweithwyr. Cyflawnodd aelodau o'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Cynhwysiant hyfforddiant ar gyfer Hyrwyddwyr Cynhwysiant, er mwyn iddynt allu cyflawni eu swyddogaethau hyd yn oed yn fwy effeithiol o ran sicrhau cynhwysiant ar bob lefel. Yn yr Alban gwnaethom sefydlu gweithgor ar amrywiaeth a chynhwysiant i ganolbwyntio ar y strategaeth a'r cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth. Ac eleni roedden ni'n falch iawn o gyflawni statws Platinwm Buddsoddwyr mewn Pobl Ifanc. Rydym yn un o bum sefydliad yn unig i gyrraedd y safon Platinwm a bu'n rhaid i ni ddangos sut roeddem wedi darparu cefnogaeth a mynediad i staff ifanc at wasanaethau

Iechyd Meddwl a Lles Ariannol, Arferion Gwaith Teg a Sgiliau Meta.

### Gwirfoddolwyr

Eto fyth, mae ein gwirfoddolwyr wedi bod yn anhygoel. Hebddynt, ni fyddem wedi gallu cefnogi cymaint o bobl, codi cymaint o ymwybyddiaeth ac arian, a gwneud cymaint o gynnydd gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, dewisodd 2,553 o bobl wirfoddoli eu hamser i helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae hyn yn ostyngiad bychan o 2,875 o

wirfoddolwyr y llynedd. Mae'r cyfyngiadau parhaus dros y flwyddyn ddiwethaf wedi golygu nad yw pob un o'ngwasanaethau a'n rolau gwirfoddoli wedi bod yn gweithredu i'w llawn capasiti. Mae'r bobl anhygoel hyn wedi rhoi tua 84,500 awr o gymorth.

Fe wnaethom gyflwyno ambell gyfle gwirfoddoli newydd cyffrous, gan gynnwys ymyriad iechyd meddwl cymunedol newydd sbon – Mindful Star. Roedd hwn yn ddatblygiad cydweithredol newydd ar draws sawl tîm i lunio ymyriad ar gyfer Gwasanaethau Plant ar yr un pryd â chefnogi'r ymgyrch newydd ar gyfer codi arian, polisi a'r cyfryngau, "A Star in Every Child".

### Dysgu oddi wrth ein gilydd

Mae Mark yn Ymwelydd Annibynnol. Mae ymwelydd annibynnol yn wirfoddolwr hyfforddedig sy'n darparu cyfeillgarwch a chefnogaeth i blant a phobl ifanc mewn gofal. Cafodd Mark ei baru â Sheraf o Afghanistan. Roedd rhieni Sheraf wedi ei anfon i'r DU o Affganistan i'w gadw'n ddiogel. Roedd wedi gadael y wlad pan oedd yn ddim mwy na 12 oed. Eglura Mark, "Yr Ymwelydd Annibynnol yw'r oedolyn sefydlog yn eu bywyd. Mae'n rôl sy'n ymwneud â gwrando a chael hwyl hefyd."

Mae Mark a Sheraf wedi treulio oriau dirifedi gyda'i gilydd, yn bennaf allan yn gwneud pethau yn yr awyr agored. Maen nhw wedi bod yn Sw Llundain, Go Ape, cartio, BMX ar y trac Olympaidd a hyd yn oed wedi dringo'r O2. **"Rydyn ni wedi bod ar daith gyda'n gilydd ac wedi dysgu llawer i'n gilydd. Mae gennym barch at ein gilydd a gallwn drafod unrhyw beth,"** meddai Mark.



### "Mae ei stori o Afghanistan i Loegr yn un ddirdynnol ond mae Sheraf wedi rhannu'r stori honno â fi dros y blyneddoddd."

Dyna pam mae presenoldeb Mark ym mywyd Sheraf wedi bod mor hanfodol. Roedd cael Mark wrth ei ochr ef hefyd wedi grymuso Sheraf i eiriol drosto'i hun. Pan fydd Mark yn disgrifio'r Sheraf y mae wedi dod i'w nabod, mae'n dweud:

"Mae'n ymddangos yn hapusach ac yn fwy hyderus... yn llawer mwy annibynnol na phan wnes i gwrdd ag ef am y tro cyntaf. Mae'r gefnogaeth gan Gweithredu dros Blant wedi bod yn uniongyrchol gyfrifol am y newid hwn ynddo. Mae'n anodd dirnad yr effaith mae hyn wedi'i chael ar Sheraf. Ef yw'r un Sheraf y gwnes i gwrdd ag ef yn wreiddiol, ond mae'n

fersiwn hyd yn oed gwell o'i hun bellach.

Mae llawer o blant yn dal i aros am Ymwelydd Annibynnol. I wirfoddoli gyda ni, ewch i: [actionforchildren.org.uk/support-us/volunteer-with-us/](https://actionforchildren.org.uk/support-us/volunteer-with-us/)

Rydyn ni wedi esblygu ein strategaeth er mwyn helpu hyd yn oed rhagor o blant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed.

# Plentyndod mwy o blant yn ddiogel a hapus:

## Ein strategaeth

### Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth ni yw bod pob plentyn yn y Deyrnas Unedig yn cael plentyndod hapus a diogel a'r sylfeini sydd eu hangen arnynt i ffynnu.

### Ein cenhadaeth

Rydyn ni'n amddiffyn ac yn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc. Rydwn ni'n gwneud hyn drwy ddarparu gofal a chymorth emosiynol. Rydwn ni'n gwneud yn siŵr bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Ac rydym yn ymgyrchu i sicrhau gwelliannau parhaol yn eu bywyd.

### Ein gwerthoedd

Ym mhopeth rydwn ni'n ei wneud, rydwn ni'n: uchelgeisiol, yn frwdfrydig, yn gynhwysol ac yn gydweithredol.

### Ein nodau strategol

Bydd ein saith nod yn ein helpu i fod yn gryfach ac yn fwy cynaliadwy, fel y gallwn sicrhau bod mwy o blant yn ddiogel ac yn hapus. Yn sail i'r saith nod mae ein hymrwymiad i roi llais plant a phobl ifanc wrth galon ein gwaith, ac ymgorffori ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant.

## Ein pedwar maes gwasanaeth craidd



### Cymorth i deuluoedd

Cefnogi teuluoedd i wneud yn siŵr fod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.



### Plant mewn gofal

Gofalu am blant a phobl ifanc roi cartref diogel, sefydlog a chariadus iddynt.



### Plant anabl

Cefnogi plant anabl, pobl ifanc a'u teuluoedd.



### Iechyd meddwl a llesiant

Meithrin cadernid emosiynol plant a phobl ifanc i'w helpu i oresgyn heriau.

## Byddwn yn cyd-weithio i gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer 2022-25

### Beth fyddwn yn ei wneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd

- 1** Datblygu ein gwasanaethau i helpu mwy o blant a phobl ifanc

Byddwn yn cynyddu nifer y cartrefi plant ac yn ehangu'r ddarpariaeth iechyd meddwl, yn ehangu gwasanaethau cymorth i deuluoedd, ac yn datblygu ein gwasanaethau anabledd. Byddwn yn cyflawni twf wedi'i dargedu gan ddatblygu sefydlogrwydd ariannol.
- 2** Cynyddu effaith ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc

Byddwn yn gwella ein gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddylanwad, ansawdd ac arloesi gan ennill achrediad am safonau uchel. A gwella ein gallu i fesur effaith.
- 3** Dylanwadu ar benderfyniadau polisi i wella bywydau plant a phobl ifanc.

Byddwn yn adeiladu ein sylfaen dystiolaeth i ddylanwadu ar bolisi cyhoeddus, a byddwn yn cynyddu'r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael. Byddwn yn integreiddio llais plant a phobl ifanc yn ein gwaith.

### Sut byddwn ni'n gwneud hyn:

- 4** Denu, datblygu a chadw staff a gwirfoddolwyr disglair

Byddwn yn dod yn elusen gynhwysol sy'n rhagweithiol yn ei gwrth-hiliaeth hyrwyddo diwylliant sy'n gadarnhaol ac yn deg, sy'n canolbwyntio ar les a chyfleoedd i bawb. Byddwn yn meithrin ein henw da fel lle gwydych i weithio.
- 5** Ysbrydoli mwy o gefnogaeth i'n gweledigaeth a'n cenhadaeth

Byddwn yn ymgysylltu â staff, cefnogwyr a rhwydweithiau i sicrhau bod popeth a wnawn yn hybu ymwybyddiaeth ac yn creu plentyndod mwy diogel a hapus.
- 6** Cynyddu ein cyfraniad ariannol o godi arian, meithrinfeydd a gofal plant

Byddwn yn esblygu ein gwaith codi arian, yn datblygu ein galluoedd ac yn ehangu ein hymgyrchoedd. Byddwn yn cynyddu ein gwasanaethau meithrinfeydd a gofal plant o safon uchel.
- 7** Sicrhau'r gwerth gorau i blant a phobl ifanc dwy wella ein heffeithlonrwydd

Byddwn yn gwella ein systemau a'n prosesau i leihau'r llwyth gwaith i staff a lleihau costau. Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'n portffolio eiddo.



A photograph of a smiling man with dreadlocks clapping his hands in the background. In the foreground, a young child with curly hair, wearing a yellow dress with white polka dots, is smiling and clapping. The image is framed by a large red shape on the left and bottom.

# Llywodraethu

# Llywodraethu

## Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am lywodraethu, goruchwylio ein perfformiad a darparu cyfarwyddyd strategol.

Dan arweiniad ein Cadeirydd, Sarika Patel, ein hymddiriedolwyr a'n Prif Swyddog Gweithredol, rydym yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r ffordd rydym yn gweithredu er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd yn y modd gorau.

Rydym wedi ymrwymo i'r arferion gorau a'r safonau uchaf o lywodraethiant. Rydym yn monitro ffyrdd o weithio mewn perthynas â phob un o saith egwyddor Cod Llywodraethu'r Elusen.

Mae ein fframwaith llywodraethu yn cefnogi ein hamcanion strategol er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein hamcanion. Rydym yn cael ein gyrru gan ein diben elusenol.

### Ein dibenion elusenol

Mae ein diben yn cael ei nodi yn ein herthyglau cymdeithasu (a elwir, fel arall, yn amcanion elusenol). Sef:

Hybu magu a gofalu am blant a phobl ifanc mewn angen, o bob cefndir, diwylliant a ffydd, neu ddim un yn benodol, drwy:

- Hybu eu hiechyd.
- Hybu gofal gwell, a'u diogelu.

- Hyrwyddo'r gwaith o'u haddysgu a'u sefydlu mewn bywyd.
- Darparu cymorth iddyn nhw, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Rydym yn fodlon bod ein gwasanaethau yn adlewyrchu ein dibenion elusenol a'r gofyniad o ran budd y cyhoedd, fel sydd wedi'i nodi yn adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011.

### Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd yn cynnwys 10 ymddiriedolwr, sydd wedi'u rhestru ar [dudalen 82](#). Mae'r Bwrdd yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn, ac yn cynnal cyfarfodydd achlysurol ad hoc pan fo angen. Mae'r ymddiriedolwyr yn ymweld â gwasanaethau er mwyn deall yn well beth yw'r gwaith a wneir gennym a pha wahaniaeth rydym yn ei wneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Er bod mynediad at wasanaethau wedi'i gyfyngu yn ystod y pandemig, roedd rhai ymweliadau rhithiol yn bosibl.

Mae pob un o'n hymddiriedolwyr yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol ac nid ydynt yn derbyn unrhyw wobrau na buddion gan Gweithredu dros Blant.

Maen nhw'n cymryd rhan am eu bod yn credu yn ein gwaith ac eisiau gwneud gwahaniaeth go iawn. Mae unrhyw dreuliau y mae ein hymddiriedolwyr yn eu hawlio wedi'u nodi yn ein datganiadau ariannol. Ffigwr presenoldeb cyfartalog yr ymddiriedolwyr cyfredol yn eu swydd eleni oedd 93%.

### Effeithiolrwydd y Bwrdd

Caiff pob ymddiriedolwr ei benodi ar sail ei sgiliau a'i brofiad, ac mae'r rheini'n ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol. Rydym yn ceisio denu amrywiaeth eang o ymgeiswyr. Mae'r broses benodi yn un drwyadl, sy'n cynnwys cyfweiliadau gan bobl ifanc o'n gwasanaethau, gwiriadau diwydrwydd dyladwy, a chyfranogiad Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau y Bwrdd.

Ar ôl cael eu penodi am gyfnod o dair blynedd, bydd ymddiriedolwyr ac aelodau'r pwyllgor yn mynd drwy raglen gynefino i sicrhau eu bod yn deall eu rolau o dan gyfraith cwmnïau ac elusennau.

Mae gennym gysylltiadau agos gyda'r Eglwys Fethodistaidd. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yn ein cyfansoddiad, sy'n

golygu bod modd i'r Eglwys benodi ymddiriedolwr. Mae'r wybodaeth, yr arbenigedd a'r brwdfrydedd a gawn gan ein hymddiriedolwr Methodistaidd yn eithriadol o bwysig.

Rydym wrthi'n penodi mwy o ymddiriedolwyr, a fydd yn ehangu'r balans o sgiliau a gwybodaeth sydd gan y Bwrdd. Rydym yn wastad yn ceisio adlewyrchu amrywiaeth wrth recriwtio ymddiriedolwyr.

Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad o sgiliau ein hymddiriedolwyr ac yn adolygu ei berfformiad ei hun a pherfformiad y Cadeirydd. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r Bwrdd ym mis Medi 2021. Roedd hyn yn cynnwys: asesiad o rôl a chyfansoddiad y Bwrdd; ein strategaeth; rheoli perfformiad; rheoli'r busnes; talent ac olyniaeth; buddsoddiadau; ymgysylltu â rhanddeiliaid; pwyllgorau; risgiau; ymddygiad y Bwrdd; diwylliant; ac amrywiaeth a chynhwysiant.

### Amrywiaeth

Mae'r Bwrdd yn credu bod cydbwysedd o brofiad, sgiliau, gwybodaeth a chefnidiroedd yn darparu amrywiaeth owahanol safbwyntiau ac yn gwella'r gwaith o wneud penderfyniadau.

Bob blwyddyn, mae penodiadau ymddiriedolwyr newydd yn cael eu gwerthuso yn erbyn y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad presennol ar y Bwrdd. Mae'r term 'amrywiaeth' yn cynnwys naw nodwedd warchoddedig Deddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â gwahanol gefndiroedd, profiadau bywyd, llwybrau gyrfa, ac amrywiaeth barn.


Mae Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau'r Bwrdd yn rhoi sylw arbennig i amrywiaeth.

Cafodd aelodau'r Bwrdd hyfforddiant ar arweinyddiaeth gynhwysol ym mis Hydref 2021. Mae gennym strategaeth ar Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith ar draws y sefydliad.

Cafodd amrywiaeth ei hystyried hefyd fel rhan o broses werthuso flynyddol y bwrdd ym mis Medi 2021. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Ymddiriedolwr sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydym yn gweithio'n galed i greu diwylliant cwbl gynhwysol. Mae ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant yn rhoi sylw i argymhellion y Cod ac mae'n mynegi ein huchelgais ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys bod yn sefydliad gwrth-hiliol. Buom yn gweithio gyda'n rhwydweithiau staff ar ddatblygu'r strategaeth ac rydym yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o fonitro ei gweithrediad. Gallwch ddarllen mwy ar [dudalen 29](#).

## Fframwaith llywodraethu



Credwn mewn bod yn dryloyw. Rydym yn cyhoeddi cynnydd yr elusen, gan gynnwys dysgu ar y cyd, lle bo hynny'n briodol.

### Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae gan y Bwrdd bwyllgorau sefydlog sy'n adrodd ar faterion penodol. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl y cytunwyd arno ac mae'n cynnwys aelodau cyfetholedig, yn ogystal ag ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd yn dirprwyo'r gwaith o redeg Gweithredu dros Blant o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arwain Gweithredol. Mae'r Bwrdd hefyd yn dirprwyo rhai meysydd gwaith i is-bwyllgorau fel y dangosir isod:

### Cyllid

Mae'r Pwyllgor hwn yn cadw llygad ar ein cyllid ac yn cynnal hyfywedd Gweithredu dros Blant yn y tymor byr ac yn y tymor hir. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynghori'r Bwrdd ynghylch strategaeth ariannol briodol. Mae'r is-bwyllgor buddsoddi'n llywio'r gwaith o oruchwylio buddsoddiadau.

### Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor hwn yn sicrhau ein bod ni'n bodloni ein rhwymedigaethau cyfrifyddu a bod gennym ni systemau effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol, swyddogaeth archwilio a rheoli risg.

### Llywodraethu, Pobl a Thaliadau

Mae'n cefnogi'r broses o redeg y sefydliad yn effeithiol, sicrhau safonau rhagoriaeth

ac ysgwyddo rôl arweiniol o ran pobl, polisiau a thaliadau.

### Pwyllgor Gwasanaethau Plant

Mae'n goruchwylio a datblygu ansawdd, cyrhaeddiad a pherfformiad Gwasanaethau Plant. Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

### Y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol

Cafodd y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol eu sefydlu y llynedd, i gymryd lle Pwyllgorau'r Gwledydd. Eu rôl yw tywys yr hyn a wnawn ym mhob gwlad a chynnig cyngor i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Maent hefyd yn ein helpu ni i greu cysylltiadau dwfn a hirhoedlog ym mhob un o'r gwledydd yr ydym yn gweithio ynddynt.

### Sut rydym yn trefnu ein gwaith

Mae gennym bum cyfarwyddiaeth, pob un dan arweiniad aelod o'r Tîm Arwain Gweithredol.

- Gwasanaethau Plant
- Codi Arian, Cyfathrebu a Pholisi
- Pobl
- Cyd-wasanaethau Corfforaethol.

Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i gefnogi ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd, ac i gyflawni ein hamcanion.

# Gofalu am yr amgylchedd

## Rhwydwaith Gweithredu Gwyrdd

Dros y 12 mis diwethaf, mae ein Rhwydwaith Gweithredu Gwyrdd wedi tyfu i bron i 100 o aelodau ar draws pob gwlad a chyfarwyddiaeth. Mae'r Rhwydwaith yn cael ei redeg gan staff sy'n frwd dros gynaliadwyedd ac sy'n sicrhau ei fod yn cael ei ystyried ym mhopeth a wnawn. Nod y grŵp yw newid polisiâu Gweithredu dros Blant i'w gwneud yn fwy cynaliadwy ac maent yn awyddus i greu Polisi Gweithredu Gwyrdd. Un o'r ffyrdd a ddefnyddir gan y grŵp i annog pawb i fod yn fwy gwyrdd yw drwy sgysiau. Rydym wedi cael sgysiau am yr effaith y gall bod yn figan ei chael ar yr amgylchedd, gan annog staff i gymryd rhan yn Veganuary eleni, a faint yn fwy caredig i'r amgylchedd yw ffasiwn cynaliadwy. Mae gennym sawl sgwrs ar y gweill, gan gynnwys un am gyllid gwyrdd a bancio. Mae'r grŵp hefyd yn rhannu dolenni, sgysiau a chynngor ar ein tudalen rhwydwaith.

## Arbed ynni

Erbyn hyn, rydym yn cydymffurfio â'r Cynllun Cyfleoedd i Arbed Ynni (ESOS) ac mae gennym 100% tariff gwyrdd ar gyfer trydan. Mae ein cyflenwyr rheoli gwastraff ac ailgylchu yn helpu i fanteisio i'r eithaf ar ailgylchu a lleihau ein hallyriadau. A gan ein bod yn gwybod y gall pob un ohonom chwarae ein rhan, rydym yn sicrhau bod ein cyflenwyr yn cymryd eu mesurau eu hunain i warchod yr amgylchedd.

Nid oes gennym bortffolio cyson o eiddo, felly gall ein hallyriadau gynyddu a Gostwng drwy gydol y flwyddyn

Dyma ein ffigurau defnyddio ac allyriadau am y flwyddyn ddiwethaf:

Math o ynni	Defnydd 2021/22	Allyriadau 2021/22	Defnydd 2020/21	Allyriadau 2020/21
Nwy	8,703,075 KWh	1,594.06 tonnell o CO2e	8,200,863 KWh	1,507.89 tonnell o CO2e
Trydan	2,586,682 KWh	597.78 tonnell o CO2e	2,133,200 KWh	540.13 tonnell o CO2e
Fflyd	61,253.99 litr	150.81 tonnell o CO2e	42,497.85 litr	106.33 tonnell o CO2e
<b>Cyfanswm allyriadau</b>		<b>2,342.65 tonnell o CO2e</b>		<b>2,154.35 tonnell o CO2e</b>
<b>Allryiadau a wrthbwysir gan ailgylchu gwastraff</b>		<b>636.7 tonnell o CO2e</b>		<b>408.70 CO2e</b>
<b>Allryiadau net</b>		<b>1,705.95 CO2e</b>		<b>1,745.65 CO2e</b>

\*Cyfrifir y trydan gan ddefnyddio'r ffactor 0.2311kgCO2e/kWh safonol.

yn dibynnu ar faint o gontractau rydym yn ymgymryd â nhw. Yn 2020/21, roedd cyfanswm ein hallyriadau yn is oherwydd cyfyngiadau Covid a oedd wedi lleihau ein gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnig.

Ond rydym yn parhau i weithio gyda'n cyflenwyr rheoli gwastraff ac ailgylchu i ddefnyddio ailgylchu i leihau ein hallyriadau net. Eleni, rydym wedi gwrthbwysio 636.7 tonnell o garbon cyfatebol drwy ailgylchu gwastraff.

Yn unol â gwella ein cymwysterau cynaliadwyedd, roeddem yn falch mai Ysgol Headlands a ddaeth yn gyntaf yng Nghymru am yr ail flwyddyn yn olynol, a'r 7fed yn y DU, yng nghystadlueaeth Stroliwch a Roliwch Sustrans.

Mae'r gystadlueaeth yn gwobrwo'r ysgolion sy'n cyfrifo'r nifer fwyaf o filltiroedd ar eu beiciau, eu coesau, eu sgwteri a'u sglefrfyrdau.

# Dyletswyddau'r ymddiriedolwyr o ran Adran 172 y Ddeddf Cwmnïau

**Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'i ddyletswydd dan Adran 172 Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys gweithredu er budd rhanddeiliaid wrth hyrwyddo llwyddiant y cwmni elusenol.**

Mae'r ymddiriedolwyr, fel cyfarwyddwyr cwmni Gweithredu dros Blant, yn gweithredu'n unol â'r gofyniad hwn ac, wrth wneud hynny, yn ystyried:

- Canlyniadau tebygol unrhyw benderfyniad yn y tymor hir.
- Buddiannau gweithwyr y cwmni.
- Yr angen i feithrin cysylltiadau busnes y cwmni gyda chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill.
- Effaith gweithrediadau'r cwmni ar y gymuned ac ar yr amgylchedd.
- Pa mor ddymunol yw i'r cwmni gynnal enw da am safonau uchel o ymddygiad busnes.
- Yr angen i weithredu'n deg rhwng aelodau'r cwmni.

Fel rhan o'u proses gynefino, mae'r ymddiriedolwyr yn cael eu briffio ar eu dyletswyddau, sy'n cael eu cyflawni'n rhannol drwy'r strwythur llywodraethu a nodir ar [dudalen 35](#). Mae'r rhain yn cynnwys cofleidio ein gweledigaeth o blentynnod hapus a diogel, a hyrwyddo ein gwerthoedd i fod yn frwdfrydig, uchelgeisiol, cydweithredol a chynhwysol, sef sylfaen i bopeth a wnawn. Mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n Tîm Arwain Gweithredol i sicrhau ein cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

## Cydweithio ag eraill

### Ymgysylltu â'n staff

Mae ymgysylltu â gweithwyr yn rheolaidd yn hanfodol. Mae'r Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol yn cadw mewn cysylltiad â staff drwy gyfarfodydd tîm rheolaidd, ein mewnwrwyd, negeseuon e-bost wythnosol a misol, a chyfarfodydd gyda'r holl staff. Rydym hefyd yn cynnal sioeau teithiol bob chwe mis, i roi cyfle i bobl ofyn cwestiynau a rhoi adborth. I gael gwybodaeth am sut rydym yn ymgysylltu â staff, gweler tudalen 29.



Yn ystod y pandemig rydym wedi gweithio'n galed i gynnal morâl. Rydym wedi cynnal sesiynau holi ac ateb a galwadau staff ar-lein, wedi symud cyfarfodydd staff a sioeau teithio i fod ar-lein, wedi rhannu straeon newyddion da ar ein mewnwrwyd staff, wedi hyrwyddo ein hwb llesiant, ac wedi annog pobl i gymryd gwyliau blynyddol.

Mae'r Tîm Arwain Gweithredol hefyd yn briffio'r ymddiriedolwyr yn rheolaidd. Mae'r diweddariadau'n cynnwys:

- Dadansoddiad o'r cynllun gweithlu strategol.
- Denu ymgeiswyr a datblygu talent.
- Gwobrwo a chydabod.
- Llesiant ac ymgysylltiad.
- Cyflog staff.
- Ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae'r wybodaeth hon, sy'n cyrraedd y Bwrdd drwy adroddiadau mewn cyfarfodydd, yn rhoi trosolwg i'r ymddiriedolwyr o'n diwylliant a sut mae ymgysylltu â phobl yn effeithio ar berfformiad. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau yn adolygu adborth o arolygon staff a gwirfoddolwyr, yn ogystal â phrosiectau eraill sy'n gysylltiedig â lles yn y gwaith,

cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu dwyn i sylw ymddiriedolwyr. Mae aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau, Gary Edwards yn hyrwyddwr Amrywiaeth a Chynhwysiant ac mae'n cwrdd yn rheolaidd â grwpiau rhydwraith staff. Mae Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn cyfathrebu â staff drwy



ddiweddariadau e-bost a digwyddiadau Cwrdd â'r Cadeirydd.

### Ymgysylltu â gwirfoddolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod gwerth aruthrol gwirfoddolwyr. Mae ein 2,553 o wirfoddolwyr yn cefnogi dros 200 o brosiectau, gwasanaethau ac adrannau ledled y DU. Mae'r ymddiriedolwyr yn ymgysylltu â gwirfoddolwyr drwy ein Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol. Mae hyn yn rhoi cipolwg i ymddiriedolwyr ar waith ein gwirfoddolwyr, ein gwasanaethau ar draws y gwledydd, a'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd ein gwirfoddolwyr gylchlythyr gwirfoddolwyr newydd a fydd yn cael ei ddsbarthu'n flynyddol ynghyd â'n hadroddiad blynyddol. Caiff ein gwirfoddolwyr eu cefnogi gan bron i 300 o reolwyr gwirfoddolwyr yn genedlaethol sy'n cwrdd yn rheolaidd drwy ein Rhwydwaith Rheolwyr Gwirfoddolwyr (darllenwch fwy am wirfoddoli ar [dudalen 30](#)).

### Ymgysylltu â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod pwysigrwydd rhanddeiliaid mewnol (staff a gwirfoddolwyr) ac allanol (plant a phobl ifanc, rhieni, ein Noddwr, y cyhoedd, rheoleiddwyr, partneriaid masnachol, y cyfryngau, awdurdodau lleol, asiantaethau'r llywodraeth, elusennau, cymdeithasau plant a chyflenwyr).

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ymrwymo i greu perthynas gref gyda'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd a gefnogir gennym. Maen nhw'n ymwybodol mai dim ond os byddwn yn ymgysylltu'n effeithiol, yn cydweithio ac yn rhoi eu barn wrth galon ein gwasanaethau y gallwn ni fod yn achubiaeth. Mae pobl ifanc, sy'n cael eu cynrychioli ar ein Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, yn ein helpu i recriwtio ymddiriedolwyr ac uwch staff, llywio ein gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau, a'n hymgyrchoedd.

Disgwylir i holl bartneriaid gydymffurfio â gofynion unrhyw safonau proffesiynol neu gyrff masnach yn ogystal â'r holl gyfreithiau, statudau, rheoliadau a chodau ymarfer perthnasol sy'n ymwneud â diogelu, gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredd. Mae ein Polisi Derbyn Rhoddion yn sicrhau nad ydym yn cyfaddawdu ein cenhadaeth, ein gwerthoedd a'n dibenion elusennol wrth godi arian. Ceir rhagor o wybodaeth am gydymffurfio o ran codi arian ar [dudalen 27](#). Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd hefyd yn cael eu hyrwyddo i bartneriaid a darparwyr newydd er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn rydym yn sefyll drosto fel elusen.

Mae'r ymddiriedolwyr yn derbyn diweddariadau masnachol, gweithredol, cyfathrebu, codi arian, cyfryngau a pholisi rheolaidd.

Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth iddyn nhw o'r effaith a gaiff ein gweithgareddau a barn ein rhanddeiliaid.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn adolygu, yn eu cyfarfodydd bwrdd deufisol, y perfformiad ariannol a gweithredol. Maen nhw'n gyfrifol am sefydlu a chynnal system effeithiol o reolaethau mewnol i ganfod, atal a rheoli risgiau. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am adolygu cydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddiol. I gael rhagor o wybodaeth am ein Fframwaith Rheoli Risg, a sut rydym yn canfod ac yn rheoli risgiau yn ein holl weithgareddau, ewch i [dudalen 40](#).

### Uniondeb

Ym mis Tachwedd 2021, cytunodd ein bwrdd ar ein fframwaith polisi moesegol, sy'n gosod y fframwaith safonau moesegol ac egwyddorion cyffredin a ddefnyddir gennym i asesu buddsoddiadau, caffael, cyllid a/neu weithgareddau sylweddol eraill ac sy'n sail i'n holl bolisiau a gweithdrefnau.

Mae ein fframwaith polisi moesegol yn ein helpu i reoli unrhyw broblemau sy'n codi pan fyddwn ni'n derbyn rhoddion, yn ein gwaith gyda chyflenwyr neu bartneriaid, neu wrth benodi ymddiriedolwyr, staff a llysgenhadon.

Er mwyn sicrhau ein bod ni'n bodloni safonau cyfreithiol a safonau'r sector, nid ydym yn gweithio gydag unrhyw sefydliadau:

- Sy'n peryglu ein gweledigaeth, gwerthoedd cenhadaeth ac amcanion elusenol.
- Sy'n gwrthdaro â'n hegwyddorion a'n polisiau.
- Sy'n tansilio ein gwasanaethau i blant.
- Sy'n tansilio ein hymrwymiad i ddiogelu.

- Sy'n tansilio ein hymrwymiad i amrywiaeth.
- Sy'n gweithredu mewn marchnadoedd y gwyddys eu bod yn niweidiol i blant a theluoedd.
- Sy'n trin yr amgylchedd mewn modd anghynaliadwy.
- Sy'n gwrthdaro â'r egwyddorion moesegol a ddatblygwyd gan NCVO ac egwyddorion y Cod Llywodraethu Elusennau.
- Y mae eu gweithredoedd yn torri rheolau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Sy'n peryglu ein gwreiddiau yn yr Eglwys Fethodistaidd.

### Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

Nid yw Gweithredu dros Blant yn goddef unrhyw fath o gaethwasiaeth fodern o gwbl.

Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Gweithredu'n foesegol a gydag uniondeb yn ein holl fusnes a chysylltiadau.
- Gweithredu a gorfodi systemau a rheolaethau effeithiol sy'n sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern yn digwydd yn unrhyw ran o'n busnes ein hunain, nac yn unrhyw rai o'n cadwyni cyflenwi.
- Bod yn dryloyw ym mhopeth a wnawn ac yn ein dull gweithredu wrth fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi, yn unol â'n rhwymedigaethau datgelu dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Rydym yn cynnwys gwaharddiadau penodol rhag defnyddio llafur drwy rym, llafur gorfodol neu lafur wedi'i fasnachu, neu unrhyw un a gaiff ei ddal mewn caethwasiaeth neu gaethwasanaeth, boed nhw'n oedolion neu'n blant, a hynny fel rhan o'r diwydrwydd dyladwy sydd yn ein prosesau contractio.

Rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr ddal y busnesau y maent yn gweithio gyda nhw i'r un safonau uchel.

I gyflawni hyn y llynedd, fe wnaethom ni'r canlynol:

- Cydymffurfio â deddfwriaeth atal caethwasiaeth ac atal masnachu pobl, drwy roi prosesau a dulliau adrodd ac atal ar waith.
- Cynnwys cymalau templed sy'n mynd i'r afael â'r mater er mwyn osgoi torri'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern gan ein cyflenwyr. Mae'r rhain wedi'u nodi'n glir yn ein dogfennau caffael, gan gyfeirio at y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn yr Holiadur Cyn-gymhwyso.
- Cynnwys mesurau atal caethwasiaeth fodern yn ein Fframwaith Diogelu a'n polisiau sefydliadol.

# Rheoli risg mewn cyfnodau heriol

**Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr wedi ystyried y prif risgiau sy'n wynebu'r elusen. Mae wedi'u bodoli fod systemau neu weithdrefnau'n bodoli i reoli'r risgiau hynny yn effeithiol.**

Mae rheoli risg yn darparu'r fframwaith y gall Gweithredu dros Blant gyflawni ei amcanion strategol o'i fewn.

## Ein dull o reoli risg

Mae pawb yn Gweithredu dros Blant yn cael ei ystyried yn 'reolwr risg'. Rydym yn ymwybodol fod staff, contractwyr, gwirfoddolwyr a darparwyr gwasanaethau allanol i gyd yn hollbwysig i reoli risg.

Mae ein dull o reoli risg yn cael ei arwain gan arferion gorau'r Sefydliad Rheoli Risg (IRM) ac ISO 31000. Rydym yn dilyn egwyddorion 'PACED' o reoli risg, yn ogystal â safonau rheoleiddiol perthnasol, gan gynnwys y canllawiau ar gyfer Elusennau a Rheoli Risg (CC26).

I gyflawni hyn, rydym yn dilyn proses pedwar cam penodol o adnabod, rheoli, adolygu ac adrodd ar risgiau. Mae hyn yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol, gwella perfformiad, a sicrhau'r gwerth gorau ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir gennym.

## Gwella'n barhaus

Rydym wedi ymrwymo i fynd ati'n barhaus i adolygu a gwella ein galluedd yn y maes rheoli risgiau. Rydym wedi cryfhau ein dulliau adrodd ynghylch risgiau yn 2021/22 ac wedi datblygu Llwybr ar gyfer Rheoli Risgiau. Mae hwn yn nodi sut byddwn ni'n esblygu ein fframwaith rheoli risgiau a'n hawydd am risg i gefnogi'r gwaith o gyrraedd ein nodau strategol newydd.

## Atebolrwydd clir

Mae ein Polisi a Gweithdrefn Rheoli Risg yn nodi strwythur llywodraethu clir, gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio ar gyfer rheoli risg. Mae'r cyfrifoldebau craidd ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol wedi'u nodi isod.

Mae gan **Fwrdd yr Ymddiriedolwyr** gyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risg a sicrhau bod system effeithiol o reolaethau mewnol yn bodoli. Ymgynghorir â'r Bwrdd ynghylch yr holl fentrau busnes pwysig er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn gallu goddef y lefel o risg y mae'r rhain yn eu cyflwyno o fewn cyd-destun yr awydd am y risg y cytunwyd arno ar gyfer yr Elusen. Mae risgiau y canfuwyd eu bod yn peryglu'r sefydliad yn cael eu huwchraddio i'r Bwrdd, neu un o bwyllgorau'r Bwrdd, i benderfynu yn eu cylch. Mae'r Bwrdd yn adolygu risgiau corfforaethol yn flynyddol neu pan fydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn uwchgyfeirio risgiau i'r Bwrdd.

Mae gan y **Pwyllgor Archwilio a Risg** (ARC) awdurdod ddirprwyedig gan y Bwrdd i oruchwylio'r gwaith o reoli risg ac mae ganddo rôl benodol i:

- Sicrhau bod y polisi, y weithdrefn a'r fframwaith rheoli risg yn addas i'r pwrpas ac yn cael eu hadolygu o leiaf bob dwy flynedd.
- Adolygu cofrestr risgiau corfforaethol yr Elusen bob chwarter er mwyn gwirio fod y risgiau allweddol yn cael eu nodi. A cheisio sicrwydd fod strategaethau lliniaru yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion strategol.

- Uwchgyfeirio risgiau neu faterion sylweddol i'r Bwrdd wneud penderfyniad yn eu cylch.
- Sicrhau bod yr Elusen yn gweithredu o fewn yr awydd ddiffiniedig am risg.
- Goruchwylio'r ddarpariaeth archwilio a drefnir yn allanol, a chymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol blynyddol sy'n seiliedig ar risg.

Mae pob un o **bwyllgorau'r Bwrdd** yn nodi risgiau sylweddol o fewn eu maes cyfrifoldeb, ac mae naill ai'n eu cyfeirio at y Pwyllgor Archwilio a Risg neu'n eu huwchgyfeirio'n uniongyrchol i'r Bwrdd eu hystyried. Yn benodol, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Plant yn monitro gwaith adrodd risgiau o ran diogelu, ac yn uwchgyfeirio unrhyw bryderon i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac i'r Bwrdd.

Mae'r **Tîm Arwain Gweithredol** yn adolygu'r gofrestru risgiau corfforaethol bob chwarter, ac yn cytuno ar strategaethau lliniaru er mwyn rheoli risgiau sylweddol i'r gwaith o gyflawni amcanion strategol. Maent hefyd yn mynd ati'n rheolaidd i drafod risgiau sy'n dod i'r amlwg o weithgarwch busnes newydd neu gyfredol a newidiadau yn yr amgylchedd gweithredu mewnol neu allanol. Caiff y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ei chefnogi gan gofrestrau risgiau gweithredol sy'n cael ei goruchwylio gan y Tîm Arwain Gweithredol.

Mae'r swyddogaeth **Rheoli Risgiau** yn hwyluso ac yn monitro gweithrediad arferion rheoli risgiau effeithiol ac yn helpu perchnogion risgiau ymhob rhan o'r sefydliad i ganfod risgiau, eu hasesu ac adrodd yn eu cylch.



Mae **Archwilio Mewnol** yn darparu sicrwydd annibynnol ynghylch gweithrediad rheolaethau mewnol y sefydliad, gan ddilyn cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risgiau.

## Amgylchedd Risg

### Cyd-destun Sefydliadol

Rydym yn amddiffyn ac yn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc. Mae rhai o'n gwasanaeth, yn ôl eu natur, yn cael eu cynnal mewn amgylchedd â risg uchel. Gwyddom na ellir cael gwared yn llwyr ar risg o'n gweithgareddau rheng flaen, ond ceisiwn ei leihau gymaint ag y bo modd yn rhesymol ac ymarferol.

Rydym yn gweithredu o fewn lefelau uwch o ansicrwydd oherwydd ein bod yn dibynnu ar gontractau'r llywodraeth a rhoddion gwirfoddol, a gan ein bod yn cystadlu mewn amgylchedd sy'n cael ei reoleiddio'n fawr. Mae'r cyd-destun o gostau byw yn codi a phwysau a'r arian cyhoeddus yn golygu heriau sylweddol. Mae'r pwysau ar arian cyhoeddus yn cynyddu'r risg o ostyngiad sylweddol mewn arian i wasanaethau plant. Mae ein rhanddeiliaid, partneriaid a llywodraeth leol yn wynebu heriau tebyg. Rydym yn ymgyrchu, gyda'n gilydd lle gallwn, i dynnu sylw at fylchau yn y cyllid.

### Amgylchedd allanol cyfnewidiol

Dros y 12 mis diwethaf, mae ein Tîm Arwain Gweithredol wedi bod yn monitro'n fanwl yr effaith bosibl a gaiff ffactorau allanol, gan gynnwys Covid, Brexit, costau byw yn codi a'r rhyfel yn Wcráin yn ddiweddar.

Mae effeithiau economaidd, gweithrediad a chymdeithasol y digwyddiadau hyn wedi parhau i brofi pa mor gadarn yw ein hadnoddau dynol ac ariannol. Rydym yn falch fod ein staff ymroddgar a'n mesurau

parhad busnes wedi galluogi Gweithredu dros Blant i barhau i ddarparu ein gwasanaethau drwy gydol y cyfnod cythryblus hwn.

Fe wnaethom gymryd camau i fynd i'r afael â heriau cyson o gynnydd yn y galw am ein gwasanaethau; yr effaith ar ein cyllid; a'r straen gorfforol a meddyliol ar ein staff. O ran Covid yn arbennig, drwy gyfathrebu'n rheolaidd â staff a rheolwyr roeddem wedi gallu gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr arweiniad diweddaraf a chymorth drwy gydol y flwyddyn.

Mae lles ein staff yn parhau i gael sylw allweddol yn ystod yr amser heriol hwn. Mae Strategaeth Lles Gweithredu dros Blant 2020-23 yn adeiladu ar adnoddau llesiant sy'n bodoli eisoes drwy gynllun gweithredu blynnyddol i gefnogi iechyd a lles pawb yn Gweithredu dros Blant.

Mae'r Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol yn parhau i fonitro ein sefyllfa er mwyn gallu ymateb i'r effeithiau fwy hirdymor ar ôl y pandemig, ac i risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Rydym yn mynd ati'n rheolaidd i roi prawf ar ein trefniadau parhad busnes, ac yn defnyddio'r ymarferion hyn i wella ein prosesau a'n cadernid.

## Y Prif Risgiau

Mae'r prif risgiau i'n hamcanion strategol wedi'u nodi isod.

### Risgiau o ran diogelu

Diogelwch plant, phobl ifanc a theuluoedd yw ein blaenoriaeth. Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr wedi'u cynllunio i liniaru risgiau posibl.

Rydym yn mynd ati'n barhaus i geisio gwella ein harferion gwaith. Mae rheolaethau llym a strwythurau goruchwylio yn bodoli i oruchwylio staff sy'n gweithio gyda phlant. Mae ein Tîm Diogelu pwrpasol yn cefnogi'r ymdrechion gyda systemau cynhwysfawr ar gyfer sicrhau ansawdd. Darllenwch fwy ar [dudalen 19](#).

Mae ein gweithdrefnau ar gyfer chwythu'r chwiban a digwyddiadau difrifol yn sicrhau bod unrhyw ddigwyddiadau difrifol yn destun ymchwiliad priodol ac yn cael eu hadrodd. Mae ein Tîm Diogelu wedi cynnal adolygiadau mewnol i ddysgu o'r adegau pryd nad oedd ein gwaith gyda phlant a theuluoedd wedi mynd fel y bwriadwyd. Mae ein Grŵp Diogelu, dan arweiniad ein Prif Weithredwr, a'n Pwyllgor Gwasanaethau Plant yn adolygu'r gwersi. Pan fo themâu ehangach yn cael eu codi'n allanol, cynhelir adolygiadau hefyd i ddeall yr effaith ar ein plant a'n pobl ifanc, a beth yw'r ffordd orau o'u cefnogi.

### Risgiau o ran gallu

Mae recriwtio a chadw yn her i'r holl sector. Mae newid enfawr wedi bod yn yr heriau wrth recriwtio staff i swyddi gofal cymdeithasol. Rydym wedi adnewyddu ein ffocws ar y maes hwn – gan wneud newidiadau yn 2021/22, yn gynnwys recriwtio swyddogaeth yn fewnol, cryfhau'r gefnogaeth i les a datblygiad gyrfa, lansio rhwydweithiau staff ychwanegol, ac adolygu ein polisi cyflogau. Rydym wedi cynyddu'r cyflog mewn ardaloedd sy'n anodd recriwtio ynddynt, yn ogystal â chodi cyflog y staff sy'n cael y tâl isaf, gan ymrwymo i gysoni'r cyflog â'r Sefydliad Cyflog Byw o fis Ebrill 2022 ymlaen. Darllenwch fwy ar [dudalen 29](#).

Rydym yn falch o'n staff brwdfrydig ac ymroddgar, sydd wedi gweithio'n ddiflino drwy'r pandemig, a hynny'n aml mewn amgylchiadau heriol tu hwnt. Mae eu hiechyd,

diogelwch a lles wedi bod yn ganolog i'n dull o reoli risgiau.

Mae ein polisiau yn pwysleisio mor bwysig yw cadw a denu pobl dalentog. Yn ystod 2021, fe wnaethom ni gyflwyno ein Fframwaith Cymwyseddau Rheol ac adnoddau i alluogi arweinwyr a rheolwyr i ddeall eu datblygiad eu hunain yn well, yn ogystal â'u timau. Mae gwerthuso perfformiad yn rheolaidd a rhaglen hyfforddi gynhwysfawr yn cefnogi datblygiad staff ymhellach. Mae gennym achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl o hyd ac rydym hefyd wedi ennill statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd eleni.

### Cynaliadwyedd ariannol

Gall pwysau disgwylidiedig neu annisgwyl ar ein ffrydiau incwm gael effaith negyddol ar ein gallu i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd. Rydym yn monitro tueddiadau ariannol yn ofalus er mwyn i ni allu canfod heriau'n gynnar a chymryd camau priodol.

Yn ystod y flwyddyn, yn dilyn argymhellion gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol, gwnaethom roi camau ar waith i gryfhau ein rheolaethau ariannol. Byddwn yn dal ati i wneud gwelliannau, gan gynnwys buddsoddi yn ein systemau ariannol er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu mewn amgylchedd rheolaeth ariannol cadarn.

Rydym ni wrthi'n rheoli'r risgiau ariannol sy'n esblygu i sefyllfa ariannol a hylifedd y sefydliad yn ogystal â'n cronfeydd wrth gefn.

Mae ein strategaeth buddsoddi cronfa bensiw yn ceisio lleihau'r risg i Gweithredu dros Blant. Rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o'r effaith bosibl marchnadoedd ariannol cyfnewidiol ar ein hasedau a'n rhwymedigaethau pensiwn. Ceir rhagor o wybodaeth

am ein sefyllfa gryfach o ran y Cronfa Bensiwn Buddion Diffiniedig ar [dudalen 66](#) (Nodyn 6).

### Iechyd a diogelwch

Mae iechyd a diogelwch yn rhan ganolog o'n dulliau llywodraethu a rheoli risg sefydliadol. Mae'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd gennym yn sicrhau bod risg yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn cadw staff, gwirfoddolwyr a'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'n hadeiladau yn ddiogel.

Byddai methu â gweithredu yn unol â'n canllawiau, deddfau a rheoliadau perthnasol yn gallu achosi niwed, effeithio ar ein gwasanaethau ac o bosibl yn gallu arwain at ganlyniadau rheoleiddiol neu gyfreithiol. Mae ein Timau Iechyd a Diogelwch ac Eiddo yn lliniaru'r risg hon. Mae rheolaethau allweddol i liniaru'r risg hon yn cynnwys:- hyfforddiant gorfodol; adrodd ynghylch digwyddiadau a damweiniau a fu bron â digwydd; Pwyllgor Iechyd a Diogelwch pwrpasol; ymgysylltu â Gwasanaeth Tân Swydd Hampshire fel ein Prif Awdurdod Tân; goruchwyliaeth reolaidd yn y Pwyllgor Archwilio a Risg a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi lansio ein cronfa ddata newydd ar gyfer eiddo er mwyn helpu i reoli ein hadeiladau yn effeithiol. Rydym hefyd yn cryfhau ein harbenigedd fewnol ar eiddo er mwyn cael mwy o oruchwyliaeth ar gydymffurfiaeth a chynnal a chadw adeiladau.

### Risgiau diogelwch Technoleg a Gwybodaeth

Mae mwy o siawns o fygythiadau seiber ar hyn o bryd. Gan fod gennym ddata hynod sensitif, mae gennym dechnoleg i leihau'r risgiau diogelwch gwybodaeth rhag ymosodiadau seiber, ceisio lladrata data, ac ymosodiadau gorlwytho gwasanaeth. Roedd ein Canolfan Gweithrediadau Diogelwch a'n timau



seilwaith/diogelwch wedi cynyddu'r mesurau diogelu o fis Chwefror 2022 ymlaen.

Mae'r buddsoddiad mewn systemau diogelwch o un pen i'r llall yn ystod 2021 wedi llwyddo i gryfhau ein gwytnwch. Ymhlith rhai o'r camau lliniaru parhaus eraill, roedd ail-ardystio ein hachrediad Cyber Essentials Plus a chynnal hyfforddiant gorfodol cynhwysfawr i staff ar seiberddiogelwch a diogelwch gwybodaeth. Rydym yn annog staff i fod yn wylidwyr yn barhaus rhag bygythiadau seiber ac yn gofyn iddyn nhw ein helpu i ganfod anghenion hyfforddi pellach. Gwnaethom hefyd gryfhau ein hamgylchedd rheoli drwy weithredu argymhellion ein harchwilwyr mewnol mewn perthynas â diogelu data a seiberddiogelwch.

Rydym hefyd yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â systemau sy'n heneiddio a'r angen i fuddsoddi yn ein pensaernïaeth dechnolegol ehangach. Mae rhaglen o weithgareddau ar y gweill i sicrhau bod gennym y systemau a'r offer i gefnogi'r gwaith o ddarparu ein gwasanaethau hanfodol yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys disodli ein systemau Adnoddau Dynol a Chyllid (bydd y system newydd yn dod i rym yn 2023). Mae Bwrdd Rhaglen yn goruchwyllo'r gwaith hwn a byddwn yn ceisio sicrwydd annibynnol ar y datblygiad, gan gynnwys adolygiad gan y tîm archwilio mewnol.

# Cyllid

**Mae sicrhau bod ein sefyllfa ariannol yn gadarn yn golygu y gallwn wneud mwy i blant, pobl Ifanc a theuluoedd ledled y DU – nawr ac yn y dyfodol. Yn ystod 2020/21, roedd hyn wedi golygu cynnal rhaglen drawsnewid sefydliadol o'r enw 'Sicrhau ein Dyfodol' er mwyn sefydlogi ein sefyllfa ariannol.**

Yn 2021/22, fe wnaethom adeiladu ar y rhaglen Sicrhau ein Dyfodol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol ar gyfer y dyfodol. Yn wyneb amgylchedd gweithredu anodd, sy'n effeithio'n enwedig ar ein meithrinfeydd, gofal plant a chodi arian, a phwysau chwyddiant sy'n effeithio ar gostau cyflogau, mae'r sefydliad yn parhau i arddangos cadernid ariannol. O 2022/23 ymlaen, byddwn yn ceisio meithrin cynaliadwyedd ariannol drwy ein cynlluniau ar gyfer gwahanol feysydd.

## Meithrin cadernid ariannol

Felly, mae ein strategaeth wedi'i dylunio i gael cydbwysedd rhwng twf a'r angen am gynaliadwyedd ariannol. Bydd twf wedi'i dargedu (Nod 1) yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau gofal preswyl a darpariaeth iechyd meddwl, gan ehangu gwasanaethau cymorth i deuluoedd a thyfu gwasanaethau anabledd ar sail angen. Ac i gefnogi hyn, mae angen i ni gynyddu'r cyfraniad ariannol o'n gwaith codi arian, meithrinfeydd a gwasanaethau gofal plant. Mae nod 6 ein strategaeth yn amlinellu sut byddwn yn datblygu ein gweithgareddau codi arian, gan ddefnyddio dull digidol yn gyntaf a chynyddu cwrpas ein hymgyrchoedd i gynhyrchu mwy o arian. Rydym hefyd yn ceisio cynyddu ein gwasanaethau meithrinfeydd a gofal plant o safon uchel. I gloi, mae nod 7 yn canolbwyntio ar sicrhau ein

bod yn parhau i wella ein heffeithlonrwydd, gan ddileu'r rhwystrau mewn systemau a phrosesau a datgloi gwerth o asedau.



## Prosiect STAIRS

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, byddwn ni'n rhoi system Gyllid ac Adnoddau Dynol newydd ar gyfer y sefydliad. Bydd hyn yn trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio, ac yn arwain at arbedion effeithlonrwydd gweithredol a gwell dealltwriaeth er mwyn ein galluogi i reoli ein cyllid mewn ffordd fwy tryloyw a manwl fyth.

## Datganiadau ariannol y grŵp

Mae'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu cadernid yr elusen wrth ddelio â newidiadau na welwyd erioed o'r blaen ac sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Roedd incwm o'r holl ffynonellau wedi gostwng £.6m (1.8%) gyda'r gwariant ar weithgareddau elusennol yn sefydlog ar sail blwyddyn ar ôl blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eithrio unrhyw effaith y mae'r Gronfa Bensiwn yn parhau i'w chael ar yr elusen ac mae wedi'i amlygu yn y datganiadau ariannol.

### Incwm a gwariant

Llwyddodd ein gweithgarwch yn 2021/22 i'n helpu ni i gael £142.6 m o incwm sefydlog (2020/21 £145.2m). Roedd yr enillion net ar gyfer y flwyddyn, cyn symudiadau yn y prisiad pensiynau a buddsoddiadau, yn £3.2m (2020/21 £5.8m). Mae gwerth y Gronfa Bensiwn yn dangos sefyllfa o warged o £81.3m (2020/21 £35.5m) ar sail FRS 102. Fodd bynnag, gan nad oes gan yr elusen hawl ddiamedd i'r gwarged sy'n deillio o'r prisiad hwn, nid yw hyn wedi'i gydnabod yn y datganiadau ariannol.

Roedd yr elfen o'n gweithgareddau elusennol a gyflawnwyd drwy is-gwmnïau ac elusennau cysylltiol (gweler nodyn 3 y datganiadau ariannol) wedi cynyddu'r trosiant cyffredinol i £77.6m (2020/21 £70.5m) yn bennaf o ganlyniad i gontractau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd y gwarged net o'r holl is-gwmnïau / elusennau cysylltiedig i lawr i £2.8m (£2020/21 £4.8m). Roedd hyn yn deillio'n bennaf oherwydd llai o arian dros ben o Fuddsoddiadau oedd gan Elusennau Cysylltiedig, sef £0.9m (2020/21) £2.5m)

a gostyngiad o £1.6m yn y gwarged gan Wasanaethau (2020/21 £2.0m).

Mae'n werth nodi bod gwasanaethau contract sy'n cael eu rhedeg gan ein his-gwmni, Action for Children Services Ltd, ac sy'n cael eu cyfuno yn y cyfrifon ariannol grŵp, yn parhau i wneud cyfraniad ariannol cadarnhaol at ein gweithgareddau elusennol cyffredinol yn ystod y flwyddyn o £1.6m (2020/21 £2.0m). Roedd yr incwm o'r gweithgareddau hyn wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall i £62.5m (2020/21 £55.8m) ond roedd Covid yn amlwg wedi effeithio ar y costau.

Mae haelioni ein cefnogwyr yn dal i'n synnu gyda £16.2m (2020/21 £20.0m) wedi cael ei godi mewn incwm gwirfoddol o roddion a chymynroddion. O'r swm hwn, roedd £10.0m (2020/21 £14.6m) yn incwm anghyfyngedig diolch i deyrngarwch parhaus rhoddwyr rheolaidd a chefnogwyr hir-sefydlog. Roedd cyfanswm yr incwm gwirfoddol yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol, a oedd yn cynnwys nifer o grantiau sylweddol yn ymwneud â Covid, ond gwelsom ddigwyddiadau wyneb yn wyneb yn dychwelyd fel ein Cinio'r Gwanwyn i Fenywod, Cwis Mawr y Newyddion a Menywod â Dylanwad a gododd dros £404,000. Cododd ein hapêl Santa Cudd y Nadolig dros £1 miliwn.

Rydym wedi cynyddu ein gwariant ar godi arian a marchnata i drechu'r ansicrwydd presennol. Fel y soniwyd eisoes, roedd rhaid i ni ailflaenoriaethu ein gwariant i sicrhau ein bod yn gallu cynyddu ein hincwm codi arian.

Mae'n glir nad yw rhai gweithgareddau a wneir yn cynhyrchu digon o incwm i dalu am gostau eu cyflawni. Fodd bynnag, gydag arian dros ben yn cael ei ddarparu ar rai contractau yn ogystal ag incwm digyfyngiad, mae'r elusen yn gallu parhau i gyflawni'r strategaeth.



### Mantolen

Roedd ein holl arian ar ddiwedd y flwyddyn fymryn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol £84.0m (2020/21 £82.4m) gyda'r cronfeydd anghyfyngedig fymryn yn is na'r flwyddyn flaenorol, £0.2m yn is i £65.1m). Fel gyda'r holl ffigyrau a ddyfynnir, mae'r cyd-destun yn bwysig. Mae tua £27.9m o'r incwm anghyfyngedig naill ai wedi'i ddyrannu neu wedi'i glymu i asedau sy'n cefnogi ein gweithgareddau. Mae hyn yn gadael balans o £27.2m (2020/21 £26.4m) sy'n ffurfio cronfeydd rhydd yr elusen.

Roedd yr Ychwanegiadau Asedau Sefydlog Diriaethol yn ystod y flwyddyn yn £0.9m, y cyfan yn asedau yn ystod gwaith adeiladu. Yr unig newid arall nodedig yw bod tua £14.3m o arian parod wedi'i roi ar adneuo rhybudd gan ddod â'r cyfanswm i £18.4m ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r grŵp yn manteisio i'r eithaf ar log ar arian dros ben drwy fuddsoddi mewn adneuo tymor.

Adroddir ar ein canlyniadau ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 yn ein datganiad o weithgareddau ariannol (SOFA). Caiff y ffigurau eu crynhoi yn y tabl a'u hadlewyrchu yn y sylwadau a wneir isod.

Adroddir ar ein canlyniadau ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 yn ein datganiad o weithgareddau ariannol (SOFA). Mae crynodeb o'r ffigurau yn y tabl.

	2021/22 £m	2020/21 £m
Incwm o roddion a chymynroddion	16.2	19.9
Incwm o fuddsoddiadau a gwaredu asedau sefydlog	0.9	0.8
Incwm o weithgareddau elusennol	125.4	119.1
Incwm arall	0.1	5.3
	<b>142.6</b>	<b>145.2</b>
Gwariant ar gynyddu rhoddion	(5.3)	(5.4)
Gwariant ar weithgareddau elusennol	(134.1)	(133.9)
<b>Cyfanswm gwariant</b>	<b>(139.4)</b>	<b>(139.4)</b>
<b>Enillion net/(colledion) am y flwyddyn</b>	<b>3.2</b>	<b>5.8</b>
Enillion (colledion) ar brisiad buddsoddi	1.4	4.7
Colledion actiwaraid ar rwymedigaethau pensiwn	(3.0)	(2.7)
<b>Symudiadau net o fewn cronfeydd</b>	<b>1.6</b>	<b>7.8</b>




### Cyfanswm incwm

- £125.4m - Incwm o weithgareddau elusennol
- £16.2m - Incwm o roddion a chymynroddion
- £0.9m - Incwm o fuddsoddiadau a gwaredu asedau sefydlog
- £0.1m - Incwm arall



### Cyfanswm gwariant

- £134.1m - Gweithgareddau i helpu plant
- £5.3m - Codi arian



### Gwariant ar weithgareddau i helpu plant

- £33.6m - Cartrefi diogel a sefydlog
- £27.7m - Gwasanaethau plant anabl
- £33.6m - Y dechrau gorau mewn bywyd
- £38.6m - Iechyd meddwl a chyfle i ffynnu
- £0.5m - Ymgyrchu a pholisïau cyhoeddus

## Is-gwmniau masnachu ac elusennau cysylltiedig

Mae datganiadau ariannol cyfunol grŵp Gweithredu dros Blant yn cynnwys dwy ymddiriedolaeth elusenol arall. Mae'r ymddiriedolaethau hyn yn rhannu ymddiriedolwyr a rheolwyr cyffredin

Mae'r **National Children's Home** (rhif elusen 215301) yn ymddiriedolaeth anghorfforedig. Mae'n parhau i ddal gwaddolion parhaol ac yn derbyn cymynroddion sy'n cael eu gadael yn enw blaenorol yr elusen. Dim ond gwaddolion parhaol Gweithredu dros Blant y mae'r ymddiriedolaeth hon yn eu gweinyddu, a defnyddir yr holl incwm i'n helpu ni i fodloni ein hamcanion.

Mae'r **Nicholas Galperin Trust** (rhif elusen 210618) yn cefnogi pobl ifanc o dan 25 oed.

Mae pedwar is-gwmni sydd o dan berchnogaeth lwyf, ac sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yn cefnogi ein gwaith ni hefyd.

Mae **Action for Children Services Limited** (rhif y cwmni 2332388) yn darparu gwasanaethau lles ac addysg. Mae'r cwmni'n wynebu nifer o'r un heriau â Gweithredu dros Blant. Mae contractau newydd ag awdurdodau lleol yn cael eu rhoi drwy'r cwmni, a chynyddodd trosiant 12% yn 2021/22, i £62.5m. Roedd y cwmni wedi gwneud elw o £1.6 miliwn (2020/21 £2.0m), a bydd Cymorth Rhodd yn cael ei dalu i Action for Children fel na fydd treth gorfforaeth yn ddyledus.

Mae **Action for Children Trading Limited** (rhif y cwmni 3776025) yn is-gwmni ar gyfer ein gweithgareddau codi arian a masnachu. Roedd y cwmni wedi gwneud elw o NIL miliwn yn 2021/22. Cafodd y gweithgareddau masnachu eu trosglwyddo i Action for Children

Developments Limited yn ystod 2021/22, ac mae disgwyl i'r cwmni gael ei ddirwyn i ben yn ystod 2022/23.

Mae **Action for Children Developments Limited** (rhif y cwmni 6842765) yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Mae'r cwmni'n gofalu am weithgareddau masnachol, trafodiadau eiddo a datblygiadau eraill sy'n cefnogi amcanion Gweithredu dros Blant. Mae'r cwmni hefyd yn rhedeg meithrinfeydd i blant o dan yr enw masnachu 'Spring'.

Gwnaeth y cwmni golled o £(0.3m (2020/21 gwarged o £0.1m). Roedd cau meithrinfeydd dros dro oherwydd y pandemig wedi cael amharu ar y canlyniadau – fodd bynnag, mae disgwyl i'r cwmni ddychwelyd at broffidioldeb yn 2022/23.

Mae **Out of School Scotland Limited** (rhif y cwmni SC264619) yn is-gwmni sy'n darparu clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast a gwrsylloedd gwyliau. Er gwaethaf heriau Covid, gwnaeth y cwmni elw o £0.4m (2020/21 £0.1m).

## Cronfeydd elusennol

Mae cyfraith elusennau ac ymddiriedolaethau yn mynnu ein bod ni'n cyflwyno ein harian yn y categorïau canlynol:

**Cronfeydd cyfyngedig**, sy'n cynnwys cymynroddion, rhoddion ac incwm arall y gellir eu defnyddio at ddibenion penodol yn unig. Pan fydd y cronfeydd hyn yn cael eu dal ar ymddiriedolaeth, i'w cadw er ein budd ni fel cronfa gyfalaf, cânt eu dosbarthu fel cronfeydd gwaddol. Mae'r cronfeydd hyn ar gyfer ysgoloriaethau a defnydd cyffredinol. Ar 31 Mawrth 2022 roedd ein cronfeydd gwaddol yn £11.7m (2020/21 £10.8m). Roedd y cronfeydd pwrpas penodol yn £7.3m (2020/21 £6.3m).

Mae **cronfeydd anghyfyngedig** £65.0m (2020/21 £65.2m) yn cynnwys y gronfa gyffredinol, y mae rhan ohoni wedi'i chategoreiddio'n gronfeydd dynodedig, gyda'r gweddill heb ei ddynodi.

Mae cronfeydd dynodedig yn cynrychioli cronfa gyfalaf sy'n cyfateb i werth llyfr net asedau sefydlog diriaethol a ddefnyddir i gefnogi gwaith gweithredol (£17.7 miliwn), a chronfa asedau arwystl sy'n cynrychioli cost hanesyddol y buddsoddiadau hynny y mae'r Gronfa Bensiwn yn gyfrifol amdanynt £20.2m (2020/21 £21.0m). Cyfanswm gwerth yr asedau a arwystlir i'r Gronfa Bensiwn yw £40m. Mae hyn yn cynnwys y gronfa asedau arwystl o £20.2m, ynghyd ag eiddo gweithredol o fewn y gronfa gyfalaf sydd â gwerth marchnadol o £19.8 miliwn.

Mae gweddill y gronfa gyffredinol £27.2m heb ei ddynodi a dyma yw cronfeydd rhydd yr Elusen.

Mae'r gronfa pensiwn yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau pensiwn ar sail FRS 102. Fodd bynnag, nid yw'r gwarged hwn yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon, ar y sail na all gwarged o'r fath gael ei ryddhau yn ôl ar sail ddiamedol.

## Polisi cronfeydd wrth gefn a rhagolwg ariannol ar gyfer y dyfodol

Fel y rhan fwyaf o elusennau, nifer cyfyngedig o ffynonellau cyllid posibl sydd gan Gweithredu dros Blant. Rydym wedi rhestru'r rhain yn ein cyfrifon. Felly, mae ein cronfeydd wrth gefn yn adlewyrchu'r cyfalaf sydd ei angen arnom i ddal ati'n ddiogel â'n gweithgareddau mewn cyfnod o ansicrwydd ac mewn amgylchiadau eithriadol. Mae hyn yn golygu bod modd cau'r gwaith yn drefnus drwy drosglwyddo'r gwasanaethau fel sy'n briodol.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn adolygu ein polisi cronfeydd wrth gefn— yn ogystal â lefel y cronfeydd rhydd— bob blwyddyn. Mae hyn i'w weld yn y datganiadau ariannol fel y gronfa gyffredinol a'r gronfa gwerth teg, ac eithrio'r cronfeydd dynodedig. Yna, caiff yr adolygiad ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Defnyddir dull gweithredu risg-gwerthuso— gan bennu tebygolïaeth costau yn y dyfodol, rhwymedigaethau posibl a risgiau— i ganfod y swm sydd ei angen yn y cronfeydd cyffredinol. Mae hyn yn seiliedig ar y cynllun busnes a'r cynllun ariannol diweddaraf. Mae risgiau'n cynnwys colli incwm gan bartneriaid a rhoddion gwirfoddol, a newidiadau o ran costau.

Mae'r ymddiriedolwyr yn ymdrechu i sicrhau bod gennym ddigon o gronfeydd cyffredinol i warchod sefydlogrwydd ariannol Gweithredu dros Blant. Mae hyn yn rhoi rhwyd ddiogelwch i ni petai angen ailgydbwysu incwm a gwariant. Gan ystyried ein cynlluniau strategol, amodau'r farchnad a'r amodau economaidd, rydyn ni'n bwriadu dal cronfeydd cyffredinol heb gynnwys cronfeydd dynodedig, goruwch £14.0 miliwn. Gyda chronfeydd rhydd yr Elusen yn £27.2m ar hyn o bryd, mae'r ymddiriedolwyr yn credu y bydd gan yr elusen ddigon o arian wrth gefn, yn seiliedig ar yr amcanestyniadau presennol a gan ystyried effaith y pandemig, er mwyn bodloni gofynion y dyfodol.

Mae ein cynllun ariannol a'n polisi cronfeydd wrth gefn yn cynnwys costau cyfraniadau i'r Gronfa Bensiwn. Mae'r datgeliad cyfrifyddu sydd ei angen ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn wedi'i gynnwys yn y fantolen, sydd ar gael yn nodyn 6.

## Buddsoddiadau

Bwrdd Cyllid Canolog (CFB) yr Eglwys Fethodistaidd sy'n rheoli cyfran fawr o'n buddsoddiadau. Mae gan y Bwrdd

Cyllid Canolog agwedd gymdeithasol, amgylcheddol a moesegol tuag at fuddsoddi, sy'n cyd-fynd â'n nodau, ein hamcanion a'n hystyriaethau moesegol.

Mae gan y Bwrdd Cyllid Canolog ddiddordeb mewn amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys yr amgylchedd, newid yn yr hinsawdd a hawliau dynol. Nid yw ei ddull moesegol yn cynnwys cwmnïau yr ystyrir eu bod yn annerbyniol, fel y rhai sy'n ymwneud ag alcohol, tybaco, pornograffi ac arfau, neu'r rhai sy'n defnyddio llafur plant. Mae'r Bwrdd Cyllid Canolog yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eglwysig eraill i sicrhau eu bod yn dylanwadu i'r eithaf ar y cwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i God Stiwardiaeth yn y Deyrnas Unedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac mae'n cydymffurfio â'r Cod hefyd.

Mae ein buddsoddiadau'n darparu'r cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen i reoli datblygiadau, risgiau ac ansicrwydd yn y dyfodol. Un o'n prif amcanion yw cadw model dyrannu asedau sy'n cyfateb amseriad rhwymedigaethau posibl, o fewn cronfeydd wrth gefn, ag asedau buddsoddi priodol. Mae'r polisi buddsoddi a'r datganiad o egwyddorion buddsoddi yn seiliedig ar y model hwn, a chafodd ei adolygu a'i ddiweddarau yn 2020/21. Caiff penderfyniadau a pherfformiad buddsoddi eu hadolygu gan y pwyllgor buddsoddi. Rydyn ni'n mesur perfformiad cronfa'r Bwrdd Cyllid Canolog yn erbyn meincnod y cytunwyd arno. Yn 2021/22, cyflawnodd ein buddsoddiadau yn well na'r disgwyl, 7.1% yn uwch na'r meincnod. Roedd prif berfformiad y gronfa gyffredinol wedi codi 9.2%.

Caiff perfformiad ei adolygu'n rheolaidd gan ein pwyllgor buddsoddi, a'i drafod â'r Bwrdd Cyllid Canolog. Mae'r pwyllgor buddsoddi hefyd yn edrych ar feincnodi allanol i sicrhau bod ein harian yn cynhyrchu enillion priodol. Roedd y portffolio 6.3% ar y blaen i'r mynegai

'Twf Cyson' a 5.4% ar y blaen i'r Mynegai 'Asedau Cytbwys'. Gostyngodd yr incwm buddsoddi i £0.9m yn 2021/22 o'i gymharu â £0.8m yn 2020/21.

## Pensiynau

Caiff cronfeydd pensiwn eu prisio mewn ffyrdd gwahanol gan yr actiwariaid ar gyfer gwahanol ddibenion. Mae prisiaid bob tair blynedd yn sefydlu lefel cyllid priodol, ac yn defnyddio rhagdybiaethau ariannol set sy'n wahanol i'r rhai a ddefnyddir i gynnwys pensiynau yn natganiad ariannol y cyflogwr sy'n nodd. Mae Safon Adrodd Ariannol FRS 102 yn llywodraethu'r gofynion datgeliadau cyfrifyddu hyn.

Yn ystod y prisiaid tair blynedd ar 31 Mawrth 2018, roedd y diffyg yn y pensiwn yn £38.4 miliwn, sef lefel y cyllid o 94%. Mae hyn yn seiliedig ar amcangyfrif y rhwymedigaethau tymor hir dros weddill oes aelodau. Mae'r prisiaid tair blynedd ar 31 Mawrth 2021 wrthi'n cael ei gwblhau ar adeg ysgrifennu hyn. Fodd bynnag, y gwerth yn unol â FRS 102 ar 31 Mawrth 2022 oedd gwarged o £81.3 miliwn, sef lefel y cyllid o 113%. Mae prisiaid FRS yn rhagdybio chwyddiant is a chyfraddau llog/disgownt uwch na'r prisiaid tair blynedd. Mae'r gwahaniaethau hyn yn arwain at gyfrifiad is o ran rhwymedigaethau pensiwn.

Rydym yn targedu sefyllfa lle mae'r Cynllun Pensiwn yn cael ei gyllido'n llawer gwell ac yn cael ei fuddsoddi'n fwy amddiffynnol nag ar sail y prisiaid tair blynedd statudol. Rydym yn disgrifio'r targed hwn fel un "cynaliadwy". Gellir ystyried y targed cynaliadwy fel swm yr asedau, a fuddsoddir yn ofalus, a fyddai'n galluogi'r Elusen i dalu am ddiffygion posibl a allai godi yn y dyfodol dros gyfnod cymharol fyr (h.y. o fewn oddeutu tair blynedd). Ariannu'n llawn yn erbyn y targed cynaliadwy:

- Mae'n lleihau'n sylweddol y risg y mae'r Gronfa Bensiwn yn agored iddi cyn cyrraedd uchafswm y taliadau;
- Mae'n gwella diogelwch buddion yr aelodau;
- Mae'n darparu amddiffyniad i'r Elusen; ac
- Mae'n galluogi'r Elusen i gynllunio ei fusnes gyda mwy o sicrwydd.

Rydym yn defnyddio sail gwerthuso targedau cynaliadwy i gytuno ar lefelau cyfraniadau a'r cynllun adfer. Ar 31 Mawrth 2018, y targed cynaliadwyedd oedd bod diffyg o £105.7m, sef lefel cyllid o 85%.

Nid ydym wedi cydnabod y gwaged ar sail FRS 102 fel ased yn y cyfrifon gan nad oes gennym unrhyw sicrwydd y byddai'r swm yn ad-daladwy o'r cynllun pensiwn, pe byddai'n crisialu. Mae'n cymryd amser hir i setlo rhwymedigaethau pensiwn, ac mae'r costau'n cael eu hymestyn dros sawl blwyddyn. Mae lefel y cyllid yn anwadal hefyd, ac mae'r prisiadau'n sensitif i newidiadau yn y farchnad ariannol.

Rydym yn derbyn adroddiad rheolaidd ar sefyllfa ariannol y Gronfa Bensiwn gan yr actiwari, ac rydyn ni'n monitro hwn yn agos. Rydym wedi parhau i wneud taliadau adennill diffyg pensiwn yn unol â'r cynllun 20 mlynedd y cytunwyd arno â chyfarwyddwyr ymddiriedolwyr y Gronfa Bensiwn yn 2009. Caiff hwn ei ddiweddarau i adlewyrchu prisiad 2021 ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Er bod y farchnad yn anwadal, rydym yn gwneud cynnydd da i fodloni'r sefyllfa ariannol o ran y cynllun adfer. Mae gweithredu strategaeth fuddsoddi dros y ddwy flynedd diwethaf, sy'n targedu llif arian disgwylid yn benodol, wedi helpu i wneud hyn. Mae hyn hefyd wedi arwain at symud i bortffolio asedau â risg is er mwyn lleihau'r risg i Gweithredu dros Blant.

Yn ystod y 12 mlynedd diwethaf, rydyn ni wedi bod yn talu cyfraniad i leihau'r diffyg yn flynyddol, fel y cytunwyd gydag ymddiriedolwyr y Gronfa Bensiwn. Yn 2021/22 roedd y taliad yn £3 miliwn.

## Busnes hyfyw

Bu'n flwyddyn heriol i Gweithredu dros Blant, ond mae ein helusen wedi dangos cadernid a chryfder mawr. Yr enillion net am y flwyddyn oedd £1.6m, a oedd yn fwy na'n cyllideb wreiddiol am y flwyddyn. Mae effaith annisgwyl Covid wedi parhau i arwain at lawer o ansicrwydd yn yr amgylchedd busnes a'r economi. Mae chwyddiant cyflogau wedi effeithio ar lefelau cyflogau'r farchnad, gan gynyddu'r pwysau ar lawer o elusennau. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'r Tîm Arwain Gweithredol yn gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i fonitro'r sefyllfa'n rheolaidd, gan ystyried y sefyllfa o ran arian parod a'r effaith ar gronfeydd wrth gefn.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i gredu bod y grŵp a'i endidau yn fusnes hyfyw felly mae'r sail busnes byw yn briodol ar gyfer llunio'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Lluniwyd papur yn nodi'r dull i'w ddefnyddio gan yr Ymddiriedolwyr, a'r rhesymeg dros yr asesiad hwn. Wrth benderfynu ar yr asesiad hwn, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried y ffactorau, y risgiau a'r ansicrwydd a allai effeithio ar weithrediadau'r grŵp yn y flwyddyn nesaf, gan gynnwys effaith barhaus Covid. Caiff yr asesiad hwn ei gefnogi gan waith modelu ariannol manwl, gan gynnwys cynlluniau ariannol 2022/23 a 2023/24, dadansoddiad o sensitifrwydd, a mesur y risgiau posibl ar gronfeydd a sefyllfaedd hylifedd y grŵp.

Caiff amcanestyniadau ariannol Gweithredu dros Blant eu hadlewyrchu yng nghyllideb y grŵp ar gyfer 2022/23, a'r rhagolwg ar gyfer 2023/24. Mae'r gyllideb weithredol ar gyfer 2022/23 yn gytbwys, cyn buddsoddiadau o

£4.8m mewn prosiectau datblygu penodol (y cytunwyd y byddant yn cael eu hariannu o cronfeydd anghyfyngedig). Er ein bod yn cydnabod y risg o ran cyflawni alldro cyllideb gytbwys, mae'r Ymddiriedolwyr yn credu bod y gyllideb yn adlewyrchu safbwynt "maes canol", gan gydbwysu risgiau hysbys ag uchelgeisiau'r grŵp a'r cyfle i dyfu.

Mae cronfeydd anghyfyngedig a balansau arian parod grŵp Elusen Gweithredu dros Blant yn iach, gyda balans arian cyfunol ac arian parod ar 31 Mawrth 2022 o £111.7m (2020/21 £30.4m). Mae cronfeydd cyfyngedig y grŵp yn £18.9m (2020/21 £17.2m) gyda chronfeydd anghyfyngedig y grŵp yn £65m (£65.2m).

Mae'r llif arian gwirioneddol ar gyfer 2021/22 yn dangos bod y lefelau hylifedd wedi'u cynnal drwy gydol y flwyddyn, er bydd y rhain yn dirywio yn 2022/23 oherwydd y buddsoddiadau prosiect a ariennir gan y cronfeydd wrth gefn a'r gwariant cyfalaf a gynlluniwyd.

Mae'r rhagolwg dangosol a baratowyd ar gyfer 2023/24 yn cwmpasu'r cyfnod ar ôl mis Mawrth 2023, hyd at 12 mis o ddyddiad disgwylid llofnodi'r datganiadau ariannol, ac mae'r rhagolygon ariannol yn edrych yn well gyda chyfraniadau uwch ar draws ffrydiau incwm. Nid oes risgiau sylweddol wedi'u nodi yn 2023/24 a fyddai'n effeithio ar yr asesiad busnes byw. Mae'r asesiad hwn felly yn canolbwyntio ar 2022/23, a phe byddai risgiau'n dod i'r amlwg yn y flwyddyn ariannol bresennol, y byddai'r rhain yn cael sylw a bod cyllidebau 2023/24 yn cael eu haddasu er mwyn sicrhau ein cynaliadwyedd ariannol parhaus.

I grynhoi, ar sail y cyllidebau a'r rhagolygon llif arian a baratowyd, a chronfeydd wrth gefn iach y grŵp a'r balansau arian parod, ystyrir bod y sail busnes byw ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.



# Datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar Gweithredu dros Blant at ddibenion cyfraith cwmnïau) sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (sy'n cynnwys yr adroddiad strategol) a'r datganiadau ariannol yn unol â rheoliadau a deddfau perthnasol.

Mae cyfraith cwmnïau yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Dan y gyfraith honno, mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a'r gyfraith berthnasol), gan gynnwys FRS 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon. Dan gyfraith cwmnïau, ni chaiff yr ymddiriedolwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol a'r grŵp, ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys incwm a gwariant y grŵp elusennol ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisiau cyfrifyddu addas, a'u rhoi ar waith yn gyson.
- Arsylwi'r dulliau a'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) ar gyfer Elusennau (FRS 102).
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddol sy'n rhesymol a doeth.

- Datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys yn y DU wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wahaniaethau yn y datganiadau ariannol.
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai nad yw'n briodol tybio y bydd y grŵp yn parhau i fasnachu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n dangos trafodion y cwmni elusennol a'r grŵp a datgelu'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y cwmni elusennol a'r grŵp a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol a'r grŵp ac felly am gymryd camau rhesymol i atala chanfod twyll ac anghysonderau eraill.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau'r canlynol:

- Nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni, hyd y gŵyr pob ymddiriedolwr.
- Mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd y camau angenrheidiol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod archwilydd y cwmni elusennol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal cywirdeb yr wybodaeth ariannol a'r wybodaeth gorfforaethol sydd ar wefan y cwmni elusennol. Gall deddfwriaeth y DU sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill. Cafodd Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (yn cynnwys yr adroddiad strategol) ei gymeradwyo a'i lofnodi ar ran yr ymddiriedolwyr ar 28 Gorffennaf 2022.



**Sarika Patel,**  
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr



# **Adroddiad yr archwilydd annibynnol**

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau ac Ymddiriedolwyr Gweithredu dros Blant

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Gweithredu dros Blant ('y cwmni elusennol') a'i is-gwmnïau (y 'grŵp') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, Datganiad Sefyllfa Ariannol y Grŵp a'r Elusen, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys polisiâu cyfrifyddu sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- Yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r grŵp a'r cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2022 ac o incwm a gwariant y grŵp a ddaeth i ben bryd hynny;

- Wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- Wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 a Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 a Rheoliadau 6 ac 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd).

## Sail y farn

Fe wnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yng Nghyfrifoldebau'r Archwilydd dros Archwilio'r Adran Datganiadau Ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y grŵp/cwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi bodloni ein gofynion moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym ni'n credu bod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

## Casgliadau ynglŷn â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a wnaed gennym, nid ydym wedi canfod unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allai'r cwmni elusennol neu'r grŵp i barhau fel busnes byw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w rhyddhau.

Mae ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol sy'n wahanol i'r datganiadau ariannol

a'n hadroddiad archwilio ar hynny. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, ac eithrio i'r graddau y datganwyd hynny'n benodol fel arall yn ein hadroddiad.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydym ni wedi'i chael yn yr archwiliad, neu sy'n ymddangos yn gamddatganiad o bwys fel arall. Os byddwn yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i ni bennu a yw hyn yn golygu bod camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith a wnaed gennym, y byddwn yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Barn am faterion eraill a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed wrth gynnal yr archwiliad

- Mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys adroddiad yr ymddiriedolwyr, gydag adroddiad y cyfarwyddwyr a'r adroddiad strategol a baratowyd at ddibenion cyfraith cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac
- Mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, wedi cael eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y mae'n ofynnol i ni roi gwybod amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r grŵp a'r cwmni elusennol a'u hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi dod o hyd i gamddatganiadau o bwys yn yr adroddiad strategol neu adroddiad y cyfarwyddwyr sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i adrodd yn ei gylch yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol i ni, dan Ddeddf Cwmnïau

2006, a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 roi gwybod i chi os ydym yn credu:

- Nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw; neu
- Nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- Nad yw rhai o daliadau'r ymddiriedolwyr, a nodir yny gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- Nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a nodir ar [dudalen 49](#), yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y cyfrywreolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau

fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni fo'r ymddiriedolwyr un ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu i roi'r gorau i weithredu, neu heb ddewis realistig heblaw gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r Archwiliwr dros archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi cael ein penodi'n archwilydd dan adran 44(1)(c) o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ac o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Ddeddfau a'r rheoliadau perthnasol a wnaed o dan y rheini, neu sy'n cael effaith dan y rheini.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol, boed oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad yr archwilydd sy'n cynnwys ein barn ni.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel dda o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maen nhw'n cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau

economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Nodir isod fanylion i ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: [frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

## I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydyn ni wedi adnabod ac asesu risgiau camddatganiadau sylweddol o'r datganiadau ariannol yn sgil afreoleidd-dra, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac wedi trafod y rhain gydag aelodau ein tîm archwilio. Yna, fe wnaethom gynllunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio a oedd yn ymateb i'r risgiau hynny, gan gynnwys cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

Cawsom ddealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r cwmni elusennol a'r grŵp yn gweithredu o'u mewn, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar bennu symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Dyma'r cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn: Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Elusennau 2011 a Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, ynghyd â'r SORP Elusennau (FRS 102). Fe wnaethom asesu'r cydymffurfiad gofynnol â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau archwilio ar eitemau cysylltiedig y datganiadau ariannol.

Yn ychwanegol, roeddem wedi ystyried darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol ond y gallai cydymffurfiad fod yn hanfodol i allu'r cwmni elusennol a'r grŵp i weithredu neu i osgoi cosb benodol.

Roeddem hefyd wedi ystyried y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn y cwmni elusennol a'r grŵp ar gyfer twyll. Dyma'r cyfreithiau a'r rheoliadau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt yn y cyd-destun hwn ar gyfer gweithrediadau yn y DU: Y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu

Data, deddfwriaeth lechyd a Diogelwch a deddfwriaeth cyflogaeth.

Mae'r safonau archwilio'n cyfyngu ar y camau archwilio sy'n ofynnol i ganfod a yw'n cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i ddim ond holi Ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill ac arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes rhai.

Gwnaethom nodi mai'r risg fwyaf o effaith sylweddol o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn y datganiadau ariannol fyddai o fewn yr amser a gymerir i gydnabod incwm a'r tîm rheoli'n diystyru rheolaethau. Roedd ein gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hyn yn cynnwys ymholiadau gyda'r tîm rheoli, archwilio mewnol, y cwnsler cyfreithiol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg am eu dulliau nhw o adnabod ac asesu risgiau afreoleidd-dra, profi samplau wrth bostio cyfnodolion, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarnau, adolygu gohebiaeth reoleiddiol gyda'r Comisiwn Elusennau, a darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg anochel nad ydym wedi canfod rhai camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn briodol yn unol â'r

safonau archwilio. Er enghraifft, y lleiaf yw'r cysylltiad rhwng achosion o beidio â chydymffurfio (afreoleidd-dra) â chyfreithiau a rheoliadau sy'n deillio o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol y byddai'r gweithdrefnau cyfyngedig o'u hanfod sy'n ofynnol gan safonau archwilio yn ei ganfod. Hefyd, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg o hyd o beidio â chanfod afreoleidd-dra, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgyllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffygion o'r fath mewn cysylltiad â phob deddf a rheoliad.

### Defnyddio ein hadroddiad

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol, fel corff, yn unol â Rheoliad 10 Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006. Gwneir ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan y materion hynny i aelodau'r cwmni elusennol y mae'n ofynnol inni eu datgan mewn adroddiad archwilydd ac am ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i

unrhyw un, ac eithrio i'r cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am ein barn.

*N. Hashemi*

**Naziar Hashemi**  
Uwch-archwilydd Statudol

Ar gyfer ac ar ran  
Crowe U.K. LLP  
Archwilydd Statudol

**Llundain**

24 Awst 2022



# ***Datganiadau ariannol***

## Datganiadau ariannol Gweithredu dros Blant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol (yn cynnwys y cyfrif incwm a gwariant)


	Nodiadau	Cyffredinol £'000	Wedi'i ddynodi £'000	Yr holl gronfeydd anghy- fyngedig £'000	Cronfeydd cyfyngedig		Cyfanswm cronfeydd 2022 £'000	Cyffredinol £'000	Wedi'i ddynodi £'000	Yr holl gronfeydd anghy- fyngedig £'000	Cronfeydd cyfyngedig		Cyfanswm cronfeydd 2021 £'000
					Pwrpas penodol £'000	Gwaddol £'000					Pwrpas penodol £'000	Gwaddol £'000	
<b>Incwm a gwaddolion</b>													
<b>Incwm o roddion a chymynroddion</b>	3	9,922	-	9,922	6,313	-	16,235	14,576	-	14,576	5,404	-	19,980
<b>Incwm o fuddsoddiad</b>		842	-	842	77	-	919	771	-	771	56	-	827
<b>Incwm o weithgareddau elusennol:</b>													
Y dechrau gorau mewn bywyd		30,572	-	30,572	-	-	30,572	27,556	-	27,556	-	-	27,556
Gwasanaethau i blant anabl		27,291	-	27,291	-	-	27,291	29,127	-	29,127	-	-	29,127
Iechyd meddwl a'r cyfle i ffynnu		36,089	-	36,089	-	-	36,089	31,679	-	31,679	-	-	31,679
Cartrefi diogel a sefydlog		31,455	-	31,455	-	-	31,455	30,744	-	30,744	-	-	30,744
		125,407	-	125,407	-	-	125,407	119,106	-	119,106	-	-	119,106
<b>Incwm arall</b>													
Colledion net wrth waredu asedau sefydlog		(27)	-	(27)	-	-	(27)	(30)	-	(30)	-	-	(30)
Grantiau'r Llywodraeth		114	-	114	-	-	114	5,329	-	5,329	-	-	5,329
<b>Cyfanswm yr incwm a gwaddolion</b>		<b>136,258</b>	-	<b>136,258</b>	<b>6,390</b>	-	<b>142,648</b>	<b>139,752</b>	-	<b>139,752</b>	<b>5,460</b>	-	<b>145,212</b>
<b>Gwariant</b>													
<b>Gwariant ar godi arian</b>	4,5	5,311	-	5,311	-	-	5,311	5,431	-	5,431	-	-	5,431
<b>Gwariant ar weithgareddau elusennol:</b>													
Y dechrau gorau mewn bywyd		32,239	-	32,239	1,325	-	33,564	30,175	-	30,175	1,604	-	31,779
Gwasanaethau i blant anabl		27,361	-	27,361	329	-	27,690	30,857	-	30,857	373	-	31,230
Iechyd meddwl a'r cyfle i ffynnu		36,801	-	36,801	1,816	-	38,617	33,652	-	33,652	2,381	-	36,033
Cartrefi diogel a sefydlog		31,669	-	31,669	1,987	-	33,656	32,807	-	32,807	1,554	-	34,361
Ymgyrchu a pholisïau cyhoeddus		516	-	516	-	-	516	549	-	549	14	-	563
		128,586	-	128,586	5,457	-	134,043	128,040	-	128,040	5,926	-	133,966
<b>Cyfanswm gwariant</b>		<b>133,897</b>	-	<b>133,897</b>	<b>5,457</b>	-	<b>139,354</b>	<b>133,471</b>	-	<b>133,471</b>	<b>5,926</b>	-	<b>139,397</b>
Enillion net ar fuddsoddiadau	9	534	-	534	-	851	1,385	2,451	-	2,451	-	2,243	4,694
<b>Incwm net/(colledion) am y flwyddyn cyn trosglwyddiadau</b>		<b>2,895</b>	-	<b>2,895</b>	<b>933</b>	<b>851</b>	<b>4,679</b>	<b>8,732</b>	-	<b>8,732</b>	<b>(466)</b>	<b>2,243</b>	<b>10,509</b>
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	14	1,022	(1,030)	(8)	8	-	-	7,764	(7,911)	(147)	252	(105)	-
<b>Incwm net/(colledion) am y flwyddyn cyn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill</b>		<b>3,917</b>	<b>(1,030)</b>	<b>2,887</b>	<b>941</b>	<b>851</b>	<b>4,679</b>	<b>16,496</b>	<b>(7,911)</b>	<b>8,585</b>	<b>(214)</b>	<b>2,138</b>	<b>10,509</b>
<b>Colledion cydnabyddedig eraill</b>													
Colledion actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn	6	(3,047)	-	(3,047)	-	-	(3,047)	(2,724)	-	(2,724)	-	-	(2,724)
<b>Symudiadau net mewn cronfeydd</b>		<b>870</b>	<b>(1,030)</b>	<b>(160)</b>	<b>941</b>	<b>851</b>	<b>1,632</b>	<b>13,772</b>	<b>(7,911)</b>	<b>5,861</b>	<b>(214)</b>	<b>2,138</b>	<b>7,785</b>
Cronfeydd a ddygwyd ymlaen	14	26,422	38,810	65,232	6,321	10,836	82,389	12,651	46,720	59,371	6,535	8,698	74,604
<b>Cronfeydd a gariwyd drosodd</b>	<b>14</b>	<b>27,292</b>	<b>37,780</b>	<b>65,072</b>	<b>7,262</b>	<b>11,687</b>	<b>84,021</b>	<b>26,423</b>	<b>38,809</b>	<b>65,232</b>	<b>6,321</b>	<b>10,836</b>	<b>82,389</b>

**Datganiadau ariannol Gweithredu dros Blant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022**

Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022

	Nodiadau	Grŵp		Elusen	
		2022	2021	2022	2021
		£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Asedau sefydlog</b>					
Asedau diriaethol	7	17,497	17,715	17,497	17,715
Asedau sefydlog anniriaethol	8	873	1,216	873	1,216
Buddsoddiadau	9	41,346	41,211	29,400	30,116
		<b>59,716</b>	<b>60,142</b>	<b>47,770</b>	<b>49,047</b>
<b>Asedau cyfredol</b>					
Dyledwyr	10	18,608	18,663	11,629	11,357
Adneuon rhybudd		18,359	4,090	18,024	3,856
Arian Parod		13,375	26,302	11,244	25,705
		<b>50,342</b>	<b>49,055</b>	<b>40,897</b>	<b>40,918</b>
<b>Credydwyr: y symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn</b>	11	<b>(23,705)</b>	<b>(23,926)</b>	<b>(14,512)</b>	<b>(16,019)</b>
<b>Asedau cyfredol net</b>		<b>26,637</b>	<b>25,129</b>	<b>26,385</b>	<b>24,899</b>
<b>Cyfanswm asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>86,353</b>	<b>85,271</b>	<b>74,155</b>	<b>73,946</b>
<b>Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau</b>	12	<b>(2,332)</b>	<b>(2,882)</b>	<b>(2,332)</b>	<b>(2,882)</b>
<b>Asedau net</b>		<b>84,021</b>	<b>82,389</b>	<b>71,823</b>	<b>71,064</b>
<b>Cronfeydd</b>	14				
<b>Cronfeydd cyfyngedig:</b>					
Gwaddolion		11,687	10,836	-	-
Diben penodol		7,262	6,321	7,068	6,321
<b>Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig</b>		<b>18,949</b>	<b>17,157</b>	<b>7,068</b>	<b>6,321</b>
Cronfeydd anghyfyngedig:		65,072	65,232	64,755	64,743
<b>Cyfanswm cronfeydd</b>	<b>14,15</b>	<b>84,021</b>	<b>82,389</b>	<b>71,823</b>	<b>71,064</b>

Cafodd y cyfrifon hyn eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 28 Gorffennaf 2022, a'u llofnodi ar ei ran.



Sarika Patel  
Cadeirydd



Peter Curran  
Ymddiriedolwr

Rhify cwmni 04764232



**Datganiadau ariannol Gweithredu dros Blant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022**

Datganiadau llif arian cyfunol

	Grŵp	
	2022	2021
	£'000	£'000
<b>All-lif arian net o weithgareddau gweithredu (isod)</b>	<b>(471)</b>	<b>15,259</b>
<b>Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi:</b>		
Llog a dderbyniwyd	4	16
Difidendau a dderbyniwyd	444	389
Incwm rhent o eiddo buddsoddi	471	422
Enillion o werthu asedau sefydlog diriaethol	393	370
Enillion wrth werthu eiddo buddsoddi	1,305	-
Prynu asedau sefydlog diriaethol	(804)	(1,512)
Enillion wrth werthu buddsoddiadau	400	1,699
Prynu buddsoddiadau	(400)	(1,699)
<b>Arian parod net a ddarparwyd gan/(a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi</b>	<b>1,813</b>	<b>(315)</b>
<b>Newid mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn</b>	<b>1,342</b>	<b>14,944</b>
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill	30,392	15,448
<b>Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth</b>	<b>31,734</b>	<b>30,392</b>

**Cysoni gwariant net â'r all-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu**

	2022	2021
	£'000	£'000
Incwm net ar gyfer y cyfnod adrodd (fel y datganiad gweithgareddau arian-nol)	4,679	10,509
<b>Addasiadau ar gyfer:</b>		
Taliadau dibrisiant ac amorteiddio	890	847
Enillion net ar fuddsoddiadau	(1,385)	(4,694)
Incwm o fuddsoddiad	(919)	(827)
Enillion net wrth waredu asedau sefydlog diriaethol	27	30
Cost gwasanaeth a gweinyddu cyfredol pensiwn	1,272	1,453
Pensiwn – cyfraniadau cyflogwr	(4,319)	(4,177)
Gostyngiad mewn dyledwyr	55	4,782
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn credydwyr	(221)	6,174
(Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau	(550)	1,162
<b>All-lif arian net/all-lif)</b>	<b>(471)</b>	<b>15,259</b>

**Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod**

	2022	2021
	£'000	£'000
Arian mewn llaw	13,375	26,302
Adneuon rhybudd (llai na 3 mis)	18,359	4,090
<b>Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod</b>	<b>31,734</b>	<b>30,392</b>

**Dadansoddiad o newidiadau mewn dyled net**

	2022	2021
	£'000	£'000
Cyfanswm yr arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddygwyd ymlaen	30,392	15,448
Llif arian	1,342	14,944
<b>Cyfanswm yr arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a gariwyd drosodd</b>	<b>31,734</b>	<b>30,392</b>

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 1. Sail paratoi

Mae'r elusen yn endid budd cyhoeddus fel y'i diffinnir gan FRS 102.

Paratowyd datganiadau ariannol y grŵp a'r elusen yn unol â'r Datganiad o'r Arferion a Argymhellir: "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102)" (SORP Elusennau (FRS102)) a gyhoeddwyd ar 2 Hydref 2019. Maen nhw hefyd yn cydymffurfio â gofynion adrodd Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 a Deddf Elusennau 2011.

Mae datganiadau ariannol y grŵp a'r elusen wedi cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw (gweler isod), o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i haddaswyd drwy ailbriso buddsoddiadau rhestredig ac eiddo buddsoddi.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r elusen wedi manteisio ar yr eithriadau a ganiateir o dan adran 408 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ac nid yw wedi cyflwyno ei Ddatganiad o Weithgareddau Ariannol heb ei gyfuno.

## Busnes hyfyw

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes hyfyw. Mae hyn yn cael ei ystyried yn sail briodol gan yr Ymddiriedolwyr yn seiliedig ar asesiad o'r rhagolygon ariannol, cronfeydd wrth gefn ac amcanestyniadau llif arian yr elusen am o leiaf deuddeg mis. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi ystyried y risgiau ariannol posibl y gallai'r elusen eu hwynebu, a'r camau a fyddai'n cael eu cymryd i liniaru'r risgiau hyn pe baent yn codi.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymeradwyo cyllideb weithredu gytbwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 (cyn buddsoddi mewn cynlluniau twf a phrosiectau seilwaith), ac wedi adolygu rhagolygon dangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae gwaith modelu senarios wedi cael ei wneud i asesu risgiau i'r gyllideb a'r rhagolygon, gan gynnwys effeithiau sefyllfaoedd arian parod a chronfeydd wrth gefn. Mae gan y grŵp fantolen gref gyda chronfeydd anghyfyngedig ar 31 Mawrth 2022 o £65.1 miliwn (2021: £65.2 miliwn) gyda balansau arian sylweddol disgwylidig yn ystod y cyfnod. Mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon y bydd cryfder ariannol cyfredol y balansau arian parod a'r cronfeydd wrth gefn yn caniatáu i gamau cywiro amserol gael eu cymryd yn ôl yr angen er mwyn lleihau'r effaith.

Mae'r ymddiriedolwyr felly yn dal o'r farn bod gan y grŵp a'r rhiant-gwmni elusennol adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol agos, sef o leiaf deuddeg mis o'r dyddiad y llofnodir y cyfrifon hyn. Felly, mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw.

## 2. Polisiau cyfrifyddu

Mae'r prif bolisiau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth baratoi datganiadau ariannol y grŵp a'r elusen wedi'u nodi isod.

### Sail y cyfuno

Mae canlyniadau is-gwmnïau yn cael eu cyfuno fesul llinell, ac mae caffaeliadau yn cael eu cynnwys ar sail gwerth teg ar y dyddiad caffael. Mae'r datganiad gweithgareddau ariannol (SOFA) a'r fantolen yn cyfuno datganiadau ariannol yr elusen a'r is-gwmnïau sy'n eiddo'n llwyr iddi, Action for Children Services Limited, Action for Children Trading Limited, Action for Children Developments Limited ac Out of School Scotland Limited. Ar sail natur yr ymddiriedolaethau, sy'n rhannu trefniadau rheoli a rheolaeth fewnol â Gweithredu dros Blant a lle mai Gweithredu dros Blant yw eu hunig ymddiriedolwr, mae dwy elusen gysylltiedig – National Children's Home a'r Nicholas Galperin Trust – hefyd yn cael eu trin fel is-gwmnïau a'u cyfuno yng nghyfrifon y grŵp.

### Amcangyfrifon a phenderfyniadau cyfrifyddu

Wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu'r elusen, mae'n ofynnol i'r rheolwyr wneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau am gario symiau o asedau a rhwymedigaethau.

Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny ac mae'r amcangyfrifon, ynghyd â'u tybiaethau sylfaenol, yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae'r prif amcangyfrifon a'r dyfarniadau a ddefnyddir wrth baratoi'r cyfrifon hyn yn cynnwys defnyddio adroddiadau prisio allanol ar gyfer:

- Gwerth cario eiddo buddsoddi, sydd yn cael ei bennu gan ddefnyddio adroddiadau prisio allanol.
- Cydnabod unrhyw atebolrwydd neu ased pensiwn dan FRS 102.

Mae'r dyfarniadau canlynol wedi cael eu gwneud yn y broses o gymhwyso polisiau cyfrifo'r elusen ac sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Cydnabod incwm mewn cysylltiad â chontractau.
- Rhagdybiaethau actiwaraidd pensiynau (gweler nodyn 6).
- Prisiadau eiddo buddsoddi (gweler nodyn 9).
- Darpariaeth dadfeiliadau (gweler nodyn 12).
- Darpariaeth dileu swyddi (nodyn 12).

### Incwm

Mae'r holl adnoddau sy'n dod i mewn wedi cael eu cynnwys yn y datganiad gweithgareddau ariannol (SOFA) pan fo gan yr elusen hawl gyfreithiol i'r incwm, pan fo'n debygol iawn y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn, a phan fo'n bosib mesur y swm gyda chywirdeb rhesymol. Mae'r hawl o ran cymynroddion, pan fydd yn cael gwybod ei bod ar fin derbyn arian, nen pan fydd yn derbyn y gymynrodd – pa bynnag un yw'r cynharaf.

Mae adnoddau sy'n dod i mewn yn sgil gweithgareddau elusennol, gan gynnwys grantiau cyfalaf, yn cael eu cynnwys yn y datganiad gweithgareddau ariannol pan fyddant yn dderbyniadwy. Mae swm llawn y grantiau cyfalaf yn cael ei nodi ar y datganiad gweithgareddau ariannol pan fydd yn dderbyniadwy. Pan fydd arian yn cael ei dderbyn ar gyfer gwaith o dan gontract a fydd yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd yr arian yn cael ei drin fel incwm gohiredig os bydd y corff cyllido'n cytuno. Pan nad oes cytundeb o'r fath, bydd yr arian yn cael ei gynnwys yn yr adran credydwy eraill.

Mae rhoddion ac anrhegion a dderbynnir mewn swyddfeydd a phrosiectau yn ystod y flwyddyn yn cael eu cofnodi ar eu gwerth gros, neu ar sail amcangyfrif o'u gwerth. Ond mae'r enillion o werthu anrhegion, a gafwyd fel rhodd i gael eu hailwerthu, yn cael eu

wcynnwys ar y pris gwerthu, pan werthir hwy. Mae'r holl adnoddau eraill i'w derbyn yn cynnwys ffioedd a gwariant wrth gael eu cofnodi, p'un ai a ydynt wedi cael eu codi gan yr elusen neu gan ei hasiantau, ac eithrio ar gyfer digwyddiadau codi arian bach sydd ddim o dan reolaeth uniongyrchol Gweithredu dros Blant, lle dydy'r arian sy'n cael ei ad-dalu a'i gofnodi ddim yn cynnwys treuliau uniongyrchol.

Nid oes unrhyw symiau wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ar gyfer gwasanaethau a roddir gan wirfoddolwyr.

### Gwariant

Mae gwariant yn cael ei gofnodi ar sail gronns, ac yn cael ei gategoreiddio o dan benawdau sy'n cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Pan na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol, maent yn cael eu neilltuo i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

Mae costau cynhyrchu arian yn cynnwys costau codi arian a chyhoeddusrwydd, costau masnachu a chostau rheoli buddsoddiadau. Mae costau codi arian a chyhoeddusrwydd yn cynnwys cyflogau staff a chostau uniongyrchol ac uniongyrchol eraill, sy'n cynnwys neilltuo'n briodol gostau cefnogi canolog.

Mae gwariant ar weithgareddau elusennol, gan gynnwys treuliau sy'n ymwneud ag ymgyrchu ac eiriolaeth, ynghyd â chostau hysbysu ac addysgu'r cyhoedd am y gwaith, a chostau gwasanaethau gweinyddu, rheoli a chefnogi eraill sy'n hanfodol er mwyn cyflawni'r gwaith yn broffesiynol ac yn gymwys. Lle mae trefniadau'n bodoli i sefydliadau partner gyflawni gwaith, mae cost hyn yn cael ei chynnwys yn y gweithgaredd perthnasol. Pan fydd gwasanaethau canolog yn cefnogi gwaith codi arian a gwaith elusennol uniongyrchol, bydd eu costau'n cael eu neilltuo ar sail cyfrif pennau sy'n adlewyrchu'r defnydd a wneir o'r gwasanaethau hynny.

## 2. Polisiâu cyfrifyddu (parhad)

### Costau llywodraethu

Mae costau llywodraethu'n cynrychioli cyflogau, gwariant uniongyrchol a chostau gorbenion yr adran adnoddau corfforaethol, yn ogystal â chostau archwilio mewnol ac allanol. Mae'r adran adnoddau corfforaethol yn ymwneud â'r broses o gydymffurfio â'r gofynion cyfansoddiadol a statudol wrth weithredu cwmni elusenol.

### Buddion ymddeol

Mae Gweithredu dros Blant yn cyfrannu at amrywiaeth o drefniadau pensiwn ar ran ei staff. Daw'r rhan fwyaf o'r buddion o Gronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant, sy'n cynnwys nifer o adrannau, gan gynnwys elfennau buddion wedi'u diffinio a chyfraniadau wedi'u diffinio.

Mae costau darparu pensiynau â buddion wedi'u diffinio yn cael eu trin yn unol ag FRS 102. Mae'r elfennau canlynol yn cael eu harwystlo i'r datganiad gweithgareddau ariannol: cost gwasanaethu darpariaeth bensiwn sy'n ymwneud â'r cyfnod, ynghyd â chostau unrhyw fuddion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth blaenorol (yn cael eu dyrannu i gostau staff); cost cyllido'r pensiwn, sydd yr un fath â'r cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol, llai credyd sy'n gyfystyr ag enillion disgwylidig hirdymor y Gronfa Bensiwn ar asedau; a'r enillion neu'r colledion actiwaraid ar asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn (yn cael eu neilltuo i enillion a cholledion cydnabyddedig eraill). Mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth marchnadol asedau'r gronfa bensiwn a gwerth presennol rhwymedigaethau cronedig y pensiwn yn ymddangos fel ased neu rwymedigaeth ar y fantolen, ac eithrio nad yw ased yn cael ei gydnabod ond pan mai dim ond yr Elusen sydd â'r hawl i bennu'r defnydd o'r gwarged o asedau dros rwymedigaethau.

Mae costau pensiwn ar gyfer rhan cyfraniadau wedi'u diffinio y Gronfa yn cael eu harwystlo i'r cyfrifon ar sail gronnus yn y cyfnod pan fyddant yn codi.

Mae Gweithredu dros Blant hefyd yn cyfrannu at gynlluniau pensiwn athrawon, llywodraeth leol a'r GIG, yng nghyswllt nifer o'i weithwyr. Mae'r holl gostau hynny wedi'u cynnwys yn y datganiad gweithgareddau ariannol ar sail gronnus wrth iddynt godi.

### Prydlesi

Mae rhenti dan brydlesi gweithredol yn cael eu harwystlo i'r datganiad gweithgareddau ariannol dros gyfnod y brydles ar sail llinell syth.

### Treth ar Werth

Gan fod rhai o weithgareddau Gweithredu dros Blant yn cael eu categoreiddio'n weithgareddau sydd ddim yn ymwneud â busnes neu'n weithgareddau wedi'u heithrio at ddibenion TAW, ni all Gweithredu dros Blant hawlio'n ôl yr holl Dreth ar Werth mae'n ei thalu ar gostau gweithredu. Felly mae'r gwariant a nodir yn y datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Dreth ar Werth a dalwyd ac nad oes modd ei hawlio'n ôl.

### Cronfeydd

Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio fel y gwêl y Bwrdd yn dda er mwyn hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen.

Mae rhan o'r cronfeydd anghyfyngedig wedi cael eu dynodi i ddibenion gwahanol gan y Bwrdd, fel y disgrifir yn yr Adroddiad Blynnyddol ar [dudalen 46](#) ac yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol. Mae'r Bwrdd yn adolygu lefelau'r cronfeydd dynodedig yn achlysurol er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i gyflawni'r dibenion y cawsant eu sefydlu ar eu cyfer, a bod unrhyw warged neu ddiffyg yn cael ei drosglwyddo i neu o gronfeydd cyffredinol.

Mae cronfeydd cyfyngedig yn gronfeydd i'w defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr, neu sydd wedi cael eu codi gan yr elusen i ddibenion arbennig. Mae'r gost o weinyddu'r cronfeydd hynny'n cael ei harwystlo yn erbyn y gronfa benodol.

Mae cronfeydd gwaddol yn cynrychioli'r asedau hynny y mae'n rhaid i'r elusen eu dal yn barhaol, ac maent yn cael eu buddsoddi er mwyn creu incwm i dalu am wariant, naill ai yn unol â'r waddol neu at ddibenion cyffredinol.

### Asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau diriaethol yn cael eu cofnodi ar sail eu cost neu, mewn achosion pan fydd Gweithredu dros Blant wedi cael asedau diriaethol yn rhodd neu drwy broses uno, ar sail prisiad y farchnad agored pan wnaed y rhodd neu'r broses uno. Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol, a'u dibrisio ar ôl i'r gwaith ymarferol gael ei gwblhau. Y trothwy ar gyfer cyfalafu yw £1,000.

Caiff dibrisiant ei nodi ar y sail ganlynol: Yn achos adeiladau rhydd-ddaliadol mae costau caffael adeiladau, ynghyd ag unrhyw gostau addasu sy'n ychwanegu gwerth at yr eiddo, yn cael eu cyfalafu a'u dibrisio dros yr oes ddefnyddiol a amcangyfrifir ar gyfer yr eiddo. Ni ddarperir dibrisiant ar gyfer tir rhydd-ddaliadol.

At ddibenion dibrisiant, mae adeiladau â lesddaliad o 999 o flynyddoedd yn cael eu trin fel petaent yn adeiladau rhydd-ddaliadol. Fel arfer, bydd gwariant cyfalaf ar adeiladau lesddaliadol eraill yn cael ei ystyried yn gost dibrisiant, ac felly'n cael ei ddiddymu dros yr oes ddefnyddiol a amcangyfrifir. (gweler isod).

## 2. Polisiau cyfrifyddu (parhad)

Mae asedau diriaethol eraill yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol, a amcangyfrifir fel a ganlyn:

<b>Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu</b>	Dim dibrisiant
<b>Adeiladau rhydd-ddaliadol</b>	50 mlynedd
<b>Tir ac adeiladau ar les</b>	10 mlynedd neu gyfnod y les os yw'n llai
<b>Offer</b>	4 blynedd
<b>Meddalwedd cyfrifiadurol</b>	4 blynedd
<b>Meddalwedd cyfrifiadurol (pwysig)</b>	5 blynedd
<b>Dodrefn a ffitiadau</b>	5 blynedd
<b>Cerbydau modur</b>	4-6 mlynedd

Pan ystyrir bod oes ddefnyddiol ddisgwyliedig asedau unigolyn llai na'r cyfnodau hyn, defnyddir cyfnodau byrrach.

Os oes ffactorau sy'n dangos bod amhariad i werth cario asedau sefydlog yn bosibl, cynhelir adolygiad o amhariad ac os gwelir bod gwerth cario asedau sefydlog yn sylweddol uwch na'u swm adferadwy, cânt eu hysgrifennu i lawr yn unol â hynny. Byddai'r swm adferadwy fel arfer yn cael ei bennu drwy gyfeirio at adroddiad prisio allanol, a byddai unrhyw golled yn cael ei chydnabod yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol (SOFA) am y flwyddyn.

### Asedau sefydlog anniriaethol

Mae asedau sefydlog anniriaethol yn cael eu nodi ar y fantolen ar sail eu cost, llai dibrisiant sydd wedi cronni ac unrhyw golledion yn sgil amhariadau.

Mae cost prynu brandiau yn cael ei chyfalafu fel ased sefydlog anniriaethol, a'i hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig o saith mlynedd. Mae ewyllys da wrth gaffael busnes yn cael ei gyfalafu

fel ased sefydlog anniriaethol, a'i amorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig o saith mlynedd.

Gwneir adolygiadau amhariad pan fydd digwyddiadau a newidiadau mewn amgylchiadau'n awgrymu achos posib o amhariad. Os gwelir bod gwerth cario unrhyw ased yn uwch o lawer na'i fudd i gynhyrchu refeniw yn y dyfodol, caiff ei ysgrifennu i lawr yn unol â hynny.

### Buddsoddiadau

Mae gan Gweithredu dros Blant fuddsoddiadau er mwyn cynhyrchu incwm i gefnogi gweithgareddau elusennol dros gyfnod hir, a darparu asedau i fodloni anghenion cronfeydd wrth gefn a nodwyd yn y polisi cronfeydd wrth gefn. Mae buddsoddiadau'n cael eu datgan ar sail prisiau diweddaraf y farchnad ar ddyddiad y fantolen, oni bai fod tystiolaeth o werth teg gwahanol. farchnad ar ddyddiad y fantolen, oni bai fod tystiolaeth o werth teg gwahanol.

Caiff eiddo buddsoddi ei gofnodi'n wreiddiol ar swm y gost ac wedyn ei ailbrisio ar ddiwedd pob blwyddyn ar sail ei werth teg.

Mae enillion neu golledion yn ystod y flwyddyn yn cael eu datgelu yn y datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol yn yr adran enillion a cholledion cydnabyddedig eraill yn ystod y flwyddyn, ac yn nodyn 9.

### Arian parod cyfatebol

Mae arian parod cyfatebol yn cael ei gynrychioli gan falansau arian a gedwir am gyfnod byr.

### Dyledwyr

Mae dyledwyr masnach a dyledwyr eraill yn cael eu cydnabod yn swm y setliad. Mae rhagdaliadau'n cael eu prisio ar sail y swm a ragdalwyd, ar ôl tynnu unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

### Credydwyr a darpariaethau

Caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod pan fo rhwymedigaeth gyfredol ar yr elusen yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n debygol o arwain at drosglwyddo cronfeydd i drydydd parti, a phan fydd modd mesur neu amcangyfrifo'n ddibynadwy y swm sy'n ddyledus er mwyn setlo'r rhwymedigaeth.

Fel arfer, mae credydwyr a darpariaethau'n cael eu cydnabod yn symiau'r setliad, ar ôl ystyried unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

### Llif arian

Mae'r elusen yn bodloni'r diffiniad o endid cymwys dan FRS 102 ac felly mae wedi manteisio ar yr eithriad datgelu yng nghyswllt cyflwyno datganiad llif arian mewn perthynas â'i ddatganiadau ariannol ar wahân, a gyflwynir ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol cyfunol.

### Grantiau'r Llywodraeth

Caiff grantiau'r Llywodraeth eu cydnabod ar sail croniadau, pan fo sicrwydd rhesymol y bydd yr elusen yn cydymffurfio â'r amodau sydd wrth y grant a bydd y grant yn cael ei derbyn. Mae'r grant mewn cysylltiad â'r cynllun cadw swyddi wedi cael ei gydnabod yn y cyfnod y mae'r costau staff ar ffyrlo yn berthnasol iddo.

### Cydnabod incwm a gwariant o feithrinfeydd a chlybiau y tu allan i'r ysgol

Mae incwm o'r gweithgareddau hyn yn cael ei wneud yn bennaf gan endidau Action for Children Developments Limited ac Out of School Scotland Limited. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd ag amcanion Elusennol yr endid rhiant ac mae'r incwm a'r gwariant o'r gweithgareddau hyn yn cael eu neilltuo o dan "Gweithgareddau Elusennol" yn yr is-gategori "Y Cychwyn Gorau mewn Bywyd".

### 3. Incwm a gwaddolion

Mae adnoddau sy'n dod i mewn yn sgil gweithgareddau elusennol yn cael eu dadansoddi ar draws prif weithgareddau Gweithredu dros Blant ar flaen y datganiad o weithgareddau ariannol. Mae'r incwm hwn yn deillio'n bennaf o waith gydag awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau iechyd a ffynonellau llywodraeth ganolog, gan ddarparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Rhoddion a chymynroddion	Grŵp	
	2022	2021
	£'000	£'000
Rhoddion	12,364	14,269
Cymynroddion	3,871	5,711
	<b>16,235</b>	<b>19,980</b>

Dyma'r derbyniadau at ddibenion penodol sydd wedi'u cynnwys uchod: £6,313,000 o roddion (2021: £5,460,000).

#### Incwm elusennol

Cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn i'r elusen oedd £127,770,000 (2021: £137,675,000). Y gwarged net ar gyfer yr elusen oedd £854,000 (2021: £11,726,000).

Mae taliadau Rhodd Cymorth a dderbyniwyd wedi'u cynnwys dan Rhoddion. Mae'r ffioedd rheoli a ddaeth i law wedi'u cynnwys o dan incwm o weithgareddau elusennol yn natganiad yr elusen o weithgareddau ariannol.

### Is-gwmniau ac elusennau cysylltiedig

Mae Action for Children Services Limited, Action for Children Trading Limited ac Action for Children Developments Limited yn is-gwmniau masnachu sydd ym mherchnogaeth lwy'r Action for Children, yr elusen. Maen nhw'n ymwneud â darparu gwasanaethau lles ac addysgol ar ran yr elusen, codi arian a gweithgareddau masnachol yn y drefn honno. Mae'r holl elw'n mynd i'r elusen ar sail Rhodd Cymorth. Mae'r National Children's Home (NCH) a'r Nicholas Galperin Trust yn elusennau cysylltiedig sy'n rhannu ymddiriedolwyr a rheolwyr cyffredin ac sydd ill dau'n anghorfforedig. Mae Out of School Scotland Limited yn darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â chlybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast a chlybiau gwyliau. Ceir rhagor o wybodaeth am yr NCH a'r Nicholas Galperin Trust yn Nodyn 20.

Mae crynodeb o ganlyniadau'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 i'w weld isod:

	Is-gwmniau masnachu				Associated charities			
	Gwasan-aethau	Masnachu	OSCARS	Datblygiadau	NCH	Nicholas Galperin	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Trosiant	62,522	-	2,049	13,020	-	-	77,591	70,539
Cost gwerthiannau	(60,947)	-	(1,389)	(11,428)	-	-	(73,764)	(67,025)
Elw gros	1,575	-	660	1,592	-	-	3,827	3,514
Gweithgareddau elusennol	-	-	-	-	-	(96)	(96)	-
Costau gweinyddu	(12)	-	(225)	(1,889)	(2)	-	(2,128)	(1,264)
<b>Gwarged/(Diffyg) ar weithgareddau arferol cyn incwm o fuddsoddiad</b>	<b>1,563</b>	<b>-</b>	<b>435</b>	<b>(297)</b>	<b>(2)</b>	<b>(96)</b>	<b>1,603</b>	<b>2,250</b>
Incwm o fuddsoddiad	-	-	-	-	176	102	278	204
Enillion net ar asedau buddsoddi	-	-	-	-	541	309	850	2,298
<b>Gwarged/(Diffyg) ar weithgareddau arferol cyn treth</b>	<b>1,563</b>	<b>-</b>	<b>435</b>	<b>(297)</b>	<b>715</b>	<b>315</b>	<b>2,731</b>	<b>4,752</b>
Treth ar weithgareddau arferol	-	-	-	-	-	-	-	-
Enillion wrth gefn wedi'u dwyn ymlaen	-	-	(92)	-	7,323	4,032	11,263	15,325
Rhoddion dan gymorth rhodd	(1,563)	-	(343)	-	-	-	(1,906)	(8,751)
<b>Enillion wrth gefn wedi'u cario ymlaen</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(297)</b>	<b>8,038</b>	<b>4,347</b>	<b>12,088</b>	<b>11,326</b>

### 3. Incwm a gwaddolion (parhad)

Mae asedau net yr is-gwmnïau a'r elusennau cysylltiedig wedi cael eu nodi isod:

	Is-gwmnïau masnachu				Elusennau cysylltiedig			
	Gwasanaethau	Masnachu	OSCARS	Datblygiadau	NCH	Nicholas Galperin	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau sefydlog	-	-	-	-	7,595	4,352	11,947	11,096
Asedau cyfredol	9,908	-	1,969	1,359	445	346	14,027	11,752
Credydwy'r	(9,908)	-	(1,969)	(1,656)	(2)	(351)	(13,886)	(11,522)
<b>Asedau net</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(297)</b>	<b>8,038</b>	<b>4,347</b>	<b>12,088</b>	<b>11,326</b>

### Incwm o fuddsoddiad

	Grŵp	
	2022	2021
	£'000	£'000
Cronfeydd y Bwrdd Cyllid Canolog (CBF) - y DU	407	362
Cronfeydd CBF – Tramor	37	27
Incwm llog	4	16
Incwm o warannau	448	405
Incwm rhent o eiddo buddsoddi	471	422
	<b>919</b>	<b>827</b>

### Grantiau'r Llywodraeth

	Grŵp	
	2022	2021
	£'000	£'000
Cynllun Cadw Swyddi'r Llywodraeth	114	4,112
Yr Adran Addysg	-	1,217
	<b>114</b>	<b>5,329</b>

## 4. Gwariant

	2022			2021		
	Costau union-gyrchol	Costau cefnogi	Cyfan-sw m	Costau union-gyrchol	Costau cefnogi	Cyfan-sw m
Grŵp	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Gwariant ar godi arian</b>						
Rhoddion	4,493	614	5,107	4,396	811	5,207
Cymynroddion	133	19	152	164	14	178
	4,626	633	5,259	4,560	825	5,385
Costau rheoli buddsoddiadau	52	-	52	46	-	46
	4,678	633	5,311	4,606	825	5,431
<b>Gwariant ar weithgareddau elusennol</b>						
Y dechrau gorau mewn bywyd	29,544	4,020	33,564	29,671	2,108	31,779
Gwasanaethau plant anabl	25,052	2,638	27,690	27,977	3,253	31,230
Iechyd meddwl a'r cyfle i ffynnu.	34,452	4,165	38,617	32,164	3,869	36,033
Cartref diogel a sefydlog*	30,992	2,664	33,656	31,656	2,705	34,361
Ymgyrchu a pholisi cyhoeddus*	473	43	516	512	51	563
	120,513	13,530	134,043	121,980	11,986	133,966
<b>Cyfanswm gwariant</b>	<b>125,191</b>	<b>14,163</b>	<b>139,354</b>	<b>126,586</b>	<b>12,811</b>	<b>139,397</b>

Polisi'r elusen yw dyrannu costau cefnogi gwahanol swyddogaethau i'r gweithgareddau uchod ar sail costau'r gweithgareddau hynny. Mae costau cefnogi fesul categori yn cynnwys Technoleg £5.5m, Eiddo £1.9m, Cyllid £2.6m, Strategaeth, Effaith a Sicrwydd £0.8m, Adnoddau Dynol £0.9m, Trawsnewid £0.5m, Arall £2.0m. Amlinellir manylion y costau llywodraethu yn nes ymlaen yn y nodyn hwn.

## Costau ymddiriedolwyr

Cafodd treuliau teithio eu had-dalu i ddau ymddiriedolwr, cyfanswm o £270 (2021: 2 yn derbyn £1,000).

Prynodd yr elusen yswiriant ar gyfer ymddiriedolwyr a swyddogion yn ystod y flwyddyn i'w hindemnio rhag rhwymedigaethau posibl a wynebwyd ganddynt mewn perthynas â'u dyletswyddau. Cost yr yswiriant hwn oedd £2,296 (2021: £3,000).

Nid oes gan ymddiriedolwyr hawl i gael taliadau cydnabyddiaeth, ac ni chawsant daliadau o'r fath.

	2022	2021
	£'000	£'000
<b>Ffioedd taladwy i archwilywyr Gweithredu dros Blant</b>		
O ran yr archwiliad o'r elusen	91	77
O ran archwiliadau o ymddiriedolaethau cysylltiedig ac is-gwmnïau	26	26
	117	103
O ran tystysgrifau ar gyfer partneriaid prosiectau	-	-
O ran cyngor ar dreth a materion eraill	-	-
	117	103
<b>Treth ar Werth</b>		
Fel y nodir yn y polisi cyfrifyddu, ni all Gweithredu dros Blant hawlio'n ôl yr holl Dreth ar Werth mae'n ei thalu wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn, roedd cost y dreth ar werth nad oedd modd ei hadennill yn dod i:	1,780	1,781
<b>Rhentu o dan brydlesi gweithredol</b>		
Cyfarpar a pheirianwaith	15	10
Tir ac adeiladau	1,866	1,688
	1,881	1,698
<b>Dibrisiant</b>	890	601
<b>Costau llywodraethu</b>		
Costau staff	439	428
Ffioedd archwilio mewnol ac allanol	178	245
Ffioedd cyfreithiol	81	35
Costau eraill	24	38
	722	746



## 5. Enillion gweithwyr

Mae costau staff yn cynnwys:	2022	2021
	£'000	£'000
Cyflogau	84,447	82,788
Costau dileu swyddi	763	1,912
Taliadau terfynu	-	114
Costau staff dros dro	2,385	2,913
Costau nawdd cymdeithasol	6,828	6,519
Ardoll prentisiaethau	398	389
Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant – cost gwasanaeth cyfredol, buddion wedi'u diffinio	8	23
Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant – cost cyfraniadau wedi'u diffinio	3,722	3,692
Cyfraniadau at Gronfa Bensiwn y GIG, Cynlluniau Pensiwn Athrawon a Llywodraeth Leol Pensiwn Llywodraeth Leol	463	511
	<b>99,014</b>	<b>98,861</b>

Mae'r costau dileu swydd yn cynnwys £359,999 (2021: £453,000) o daliadau dileu swydd ex gratia, a wnaed yn unol â pholisi dileu swydd Gweithredu dros Blant. Gwneir taliadau o'r fath yn ôl disgrisiwn yr uwch reolwyr, ac nid ydynt yn rhan o gontractau.

Ar wahân i Gronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant, mae'r elusen yn cymryd rhan mewn nifer o gynlluniau â buddion wedi'u diffinio – o ran cyfrifyddu, mae'r rheini'n cael eu trin yr un fath â chynlluniau â chyfraniadau wedi'u diffinio.

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon a Chronfa Bensiwn y GIG yn gynlluniau heb eu hariannu. Mae rhwymedigaethau yn ogystal â chyfraniadau parhaus yn gallu codi gydag achosion o ddileu swydd neu ymddeol yn gynnar. Ond mae'r risg honno'n cael ei rheoli gan yr elusen, a gwneir darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaeth lawn os bydd hynny'n digwydd.

Mae gan yr elusen hefyd statws corff derbyniedig mewn gwahanol Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol, a allai achosi risg i'r elusen. Mae Gweithredu dros Blant yn sicrhau bod risgiau posib sydd y tu hwnt i reolaeth yr elusen yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'r awdurdod lleol perthnasol yn unol â chanllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009 – “Admitted body status provisions in the Local Government Pension Scheme when services are transferred from a local authority or other scheme employer” – a'r awdurdod lleol sy'n ysgwyddo'r risgiau o ran enillion ar fuddsoddiad, cyfradd ddisgownt, newidiadau rheoleiddio, chwyddiant, marwolaeth a risiau actiwaraid.

Dyma oedd nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn:	2022	2021
	Rhif	Rhif
Codi arian	137	154
Gweithgareddau elusennol	4,178	4,442
Gwasanaethau cefnogi	183	145
	<b>4,498</b>	<b>4,741</b>
<b>Nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>3,133</b>	<b>3,036</b>

Nifer y staff sydd wedi derbyn symiau buddion o fewn y bandiau canlynol:	2022	2021
£60,001 i £70,000	17	27
£70,001 i £80,000	22	21
£80,001 i £90,000	3	8
£90,001 i £100,000	3	3
£110,001 i £120,000	1	1
£120,001 i £130,000	1	2
£130,001 i £140,000	2	1
£140,001 i £150,000	-	-
£150,000 i £160,000	1	-

O blith y staff sydd wedi'u rhestru uchod, roedd 47 yn cronni buddion o dan adran cyfraniadau wedi'u diffinio Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant (52 yn 2021). Swm ycyfraniadau a dalwyd i'r cynllun mewn perthynas â'r staff hyn oedd £191,848 (2021: £218,000).

Mae cyfanswm yr enillion a dalwyd yn 2021/22, a chyflogau blynyddol presennol staff rheoli allweddol, wedi'i nodi isod. Yn y bandiau uchod – ac mae'r staff hyn wedi'u cynnwys yn y fan honno hefyd – y diffiniad gofynnol o enillion yw cyfanswm cyflog gros yn ogystal ag unrhyw fuddion o fath arall. Mae'r dadansoddiad isod hefyd yn cynnwys taliadau terfynu cyflogaeth ynghyd â chyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn cyflogwr.

## 5. Enillion gweithwyr (parhad)

	Cyfanswm enillion 2021/22	Cyflwg blynyddol presennol
	£	£
Prif Swyddog Gweithredol	173,273	153,333
Rheolwr Gyfarwyddwr - Gwasanaethau Plant	146,936	130,000
Rheolwr Gyfarwyddwr Codi Arian, Cyfathrebu a Pholisi	144,702	123,333
Prif Swyddog Ariannol	152,318	127,333
Prif Swyddog Pobl	112,569	95,000
Cyfarwyddwr Masnachol - gadawodd ar 30 Mehefin 2021	97,322	97,000
	<b>827,120</b>	<b>725,999</b>

Cyfanswm cost staff rheoli allweddol oedd £827,120 (2021: £831,670).

## 6. Pensiynau

Mae Gweithredu dros Blant yn darparu buddion pensiwn yn bennaf drwy Gronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant. Mae asedau'r Gronfa Bensiwn yn cael eu dal mewn cronfa ar wahân sy'n cael ei gweinyddu gan ymddiriedolwyr. Mae'r staff presennol yn aelodau o adran cyfraniadau wedi'u diffinio y Gronfa Bensiwn, ac mae gweithwyr newydd yn cael eu cofrestru'n awtomatig i'r adran honno.

Hyd at 30 Ebrill 2010, roedd gweithwyr yn cael buddion drwy nifer o adrannau buddion wedi'u diffinio, a chynllun hybrid a oedd yn cyfuno cyfartaledd enillion dros oes gyrfa wedi'u hailbrisio a threfniadau cyfraniadau wedi'u diffinio. Yn dilyn adolygiad o'r buddion ac ymgynghoriad ag aelodau'r Gronfa Bensiwn, staff Gweithredu dros Blant ac Undebau, cafodd holl adrannau'r Gronfa Bensiwn eu cau ar 1 Mai 2010 – gydag un eithriad – ar gyfer staff newydd a staff presennol. Mae staff sy'n symud i Gweithredu dros Blant o dan drefniadau TUPE Bargen Deg yn gymwys i ymuno ag adran buddion wedi'u diffinio y Gronfa Bensiwn, sy'n debyg i gynllun pensiwn llywodraeth leol. Cafodd adran newydd ar gyfer cyfraniadau wedi'u diffinio ei chreu ar gyfer yr holl staff eraill.

### Mae'r cyfraniadau ar gyfer yr adran cyfraniadau wedi'u diffinio yn amrywio yn unol â'r cyfraddau cyfatebol canlynol:

<b>Gweithiwr</b>	3%	4%	5%	6%	7%	uwch na 7%
<b>Cyflogwr</b>	5%	5%	5%	6%	7%	7%

Dyma aelodaeth y Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2022:	2022	2021
Aelodau gweithredol – adran buddion wedi'u diffinio	-	2
Aelodau gweithredol – adran cyfraniadau wedi'u diffinio	2,922	2,887
	2,922	2,889
Aelodau gohiriedig	8,988	8,695
Aelodau sy'n bensiynwyr	2,881	2,802
	<b>14,791</b>	<b>14,386</b>

## 6. Pensiynau (parhad)

Mae'r elusen hefyd yn talu cyfraniadau 37.9% o'r cyflogau pensiynadwy o ran y croniad cyfredol, gydag aelodau gweithredol yn talu cyfraniadau gan ddibynnu ar lefel eu cyflog, ar gyfradd gyfartalog o 6,7% o'r cyflogau pensiynadwy. Ar 31 Mawrth 2021, roedd 2 aelod gweithredol yn dal i gronni buddion, gadawodd y ddau y gwasanaeth cyn 31 Mawrth 2022. At hynny, mae Gweithredu dros Blant yn talu cyfraniad o 2% i'r adran buddion wedi'u diffinio dros yr holl aelodau gweithredol ar gyfer achosion o farwolaeth yn y swydd, ac er mwyn talu costau gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Mae cyfraddau'r cyfraniadau i adran TUPE Bargen Deg yn amrywio o 5.5% i 8.5% ar gyfer y gweithwyr, a 35.1% ar gyfer y cyflogwr. Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr at adran buddion wedi'u diffinio Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant am y flwyddyn oedd £4,319,000 (2021: £4,177,000).

Mae deddfwriaeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau pensiwn gael eu hariannu'n ddarbodus. Cafodd y prisiad ariannu tair blynedd diwethaf y cytunwyd arno o'r gronfa ei gynnal gan actiwari cymwys ar 31 Mawrth 2018, ac mae'n dangos diffyg o £105.7, (ar sail targed cynaliadwy'r Ymddiriedolwyr). Mae'r cynllun adfer diffyg, a dderbyniwyd gan y Rheolydd Pensiynau, yn seiliedig ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfleu a'i rhannu'n rheolaidd rhwng y cyflogwr a'r Gronfa Bensiwn. Mae Gweithredu dros Blant wedi bod yn talu cyfraniadau diffyg pensiwn o £3m y flwyddyn.

hyd at 31 Mawrth 2022. Mae'r cyfraniadau lleihau'r diffyg yn cael eu hadlwyrcu yng nghynlluniau busnes yr elusen, ac yn yr asesiad o bolisi cronfeydd wrth gefn yr elusen.

Nid oedd prisiad tair blynedd 31 Mawrth 2021 wedi cael ei gwblhau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ac mae'r taliadau lleihau'r diffyg ar gyfer y 3 blynedd nesaf o 1 Ebrill 2022 ymlaen yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Byddant yn sicr wedi'u cwblhau erbyn y dyddiad cau estynedig, sef diwedd mis Awst 2022, a gymeradwywyd gan y Rheolydd Pensiynau. Hefyd, mae tâl yn cael ei godi ar y Gronfa Bensiwn am rai asedau sy'n eiddo i Gweithredu dros Blant yn achos diffygdalu.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnwys cytundeb y bydd hyd at 50% o'r elw o werthu'r eiddo sy'n eiddo i'r elusen yn cael ei dalu i'r Gronfa Bensiwn os na chaiff yr arian ei fuddsoddi gan yr Elusen o fewn cyfnod y cytunir arno.

